Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor – Neuadd y Sir, Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 11 Gorffennaf 2019**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| | |
|---|---|
| **1.** | **GWELEDIGAETH 2025 DRAFFT DIWEDDARIAD Y CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL AC ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019** |

Derbyn ac ystyried y Gweledigaeth 2025 Drafft Diweddariad y Cynllun Gwella Corfforaethol ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019.
(Tudalennau 1 - 74)

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

# Gweledigaeth 2025:

## Ein Cynllun Gwella Corfforaethol

## Diweddariad ac Adroddiad Blynyddol

## 2019



Cyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Mae’r ddogfen hon yn edrych yn ôl ar Berfformiad Cyngor Sir Powys yn ystod 2018-19 yn erbyn yr amcanion a’r gweithgareddau Llesiant y manylwyd arnynt yn ein Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol 2018-2023. Mae hefyd yn edrych ymlaen ac yn diweddaru ein cynllun ar gyfer 2019 ymlaen, gan sicrhau bod yr holl weithgareddau yn dal i fod yn berthnasol ac yn canolbwyntio ar ein gweledigaeth a’n deilliannau.

Gellir gweld ffilm fer sy’n crynhoi ein perfformiad ar safle Youtube Cyngor Sir Powys.

Rhowch wybod i ni beth yw’ch barn ar yr adroddiad hwn a sut rydych yn meddwl y gallem wella gwasanaethau yn y dyfodol.

## Cysylltwch â ni:


Prif Weithredwr a Chymorth Aelodau<br>
Cyngor Sir Powys,<br>
Neuadd y Sir,<br>
Llandrindod,<br>
Powys, LD1 5LG

01597 826158

business_intelligence@powys.gov.uk

www.powys.gov.uk

Twitter: @powyscc @cspowys<br>
Facebook: @powyscc @cspowys<br>
Youtube: Cyngor Sir Powys County Council<br>
Instagram: @powyscountycouncil

# 01 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad yr Arweinydd ....... 3
1.2 Neges oddi wrth y Prif Weithredwr ....... 4
1.3 Canllaw i'r ddogfen hon ....... 6
1.4 Edrych yn ôl: Crynodeb o'n perfformiad yn 2018-19 ....... 7
1.5 Edrych ymlaen: Gweledigaeth 2025 ar gip ....... 9

# 02 Cyflawni ein hamcanion yn 2018-19 a newidiadau i'n cynllun ar gyfer 2019-20

2.1 Yr Economi ....... 10
2.2 Iechyd a Gofal ....... 20
2.3 Dysgu a Sgiliau ....... 35
2.4 Trigolion a Chymunedau ....... 45
2.5 Gwneud iddo Ddigwydd ....... 50

# 03 Monitro ac Adolygu

3.1 Strategaeth Ariannol ....... 58
3.2 Gwrando ar ein trigolion ....... 60
3.3 Gwrando ar ein rheoleiddwyr ....... 63
3.4 Trefniadau llywodraethu ....... 68
3.5 Cymharu ein perfformiad â pherfformiad Cynghorau eraill yng Nghymru ....... 70

## 1.1 Cyflwyniad yr Arweinydd



Y Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys

**Ym mis Ebrill 2018, cyflwynodd fy Nghabinet a minnau ein dyheadau tymor hir ar gyfer Powys – sy'n fwy adnabyddus fel Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol. Mae ein cynllun yn uchelgeisiol, gan fanylu ar 40 deilliant rydym eisiau eu gwella, i helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i drigolion, cymunedau a busnesau Powys.**

I'n helpu i gyflawni ein Gweledigaeth, gwnaethom ymrwymo i ganolbwyntio ein hymdrechion ar bedwar amcan llesiant:

- Byddwn yn datblygu economi lewyrchus
- Byddwn yn arwain y ffordd o ran darparu iechyd a gofal effeithiol integredig mewn amgylchedd gwledig
- Byddwn yn cryfhau dysgu a sgiliau
- Byddwn yn cefnogi ein dinasyddion a'n cymunedau

Mae gennym hefyd amcan ar i mewn o'r enw Gwneud iddo Ddigwydd, i sicrhau ein bod yn rhoi'r blociau adeiladu allweddol ar waith i wneud ein gwasanaethau'n fwy effeithlon ac effeithiol.

Yn y gorffennol, rydym wedi cyhoeddi diweddariad blynyddol at ein Cynllun Gwella Corfforaethol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol (Ebrill/Mai), ac yna adroddiad sy'n edrych yn ôl ar berfformiad ar ddiwedd mis Hydref. Fodd bynnag, am y tro cyntaf, mae'r ddogfen hon yn edrych ar ein perfformiad yn y gorffennol ac yn rhoi cynllun wedi'i ddiweddaru i gyd mewn un lle. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol ichi o ran amlinellu'r hyn rydym wedi'i gyflawni, y gwahaniaeth rydym yn ei wneud a lle rydym yn bwriadu gwneud yn well.

Mae gan ein cynllun amrywiaeth o weithgareddau, rhai ohonynt yn rhai tymor byr y gellir eu cyflawni'n gymharol gyflym, a rhai eraill yn rhai tymor hir a fydd yn cymryd amser i'w datblygu a'u gweithredu. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a ddechreuodd yn ystod 2018-19, a lle roeddem yn disgwyl gwneud cynnydd. Ar ôl blwyddyn yn unig o gyflawni ein cynllun, rydym yn falch o fod wedi cyrraedd sawl carreg filltir allweddol, gan gynnwys cwblhau ein Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru, lansio loteri gymunedol newydd, adeiladu 5 ysgol newydd a chefnogi 9 ysgol i ddod allan o gategori 'gwelliant' Estyn, yn sgil canlyniadau arolygu gwell. Bu cynnydd hefyd o 2.1% yn y swm rydym yn ei wario â busnesau Powys, a bu cynnydd o 3.1% yn effaith economaidd twristiaeth. Mae ein harolygwyr a Bwrdd annibynnol yn parhau i fonitro ein gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, ac rydym yn falch o ddweud bod pethau wedi gwella. Rydw i'n ddiolchgar iawn i drigolion Powys, ein staff, cynghorwyr sir a phartneriaid am eu cyfraniad ac am helpu i wireddu ein gweledigaeth.

Ar ôl myfyrio ynglŷn â'n perfformiad yn 2018-19 ac adolygu'r heriau o'n blaenau, gallaf ailgadarnhau y bydd ein hamcanion llesiant yn aros yr un fath o 2019-20 ymlaen. Fodd bynnag, mae rhai o'r gweithgareddau ar gyfer eu cyflawni wedi newid. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn canolbwyntio mwy ar welliannau gweddnewidiol; ein bod yn meddwl am ddeilliannau tymor hir; ein bod yn gwrando ar yr hyn y mae ein trigolion yn dweud wrthym sy'n bwysig iddyn nhw, a'n bod yn defnyddio ein hadnoddau'n fwy effeithiol. Cynhwysir y gweithgareddau a'r mesurau perfformiad wedi'u diweddaru yn y ddogfen hon a byddant yn disodli Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Perfformiad (2018-2023) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018.

I gael rhagor o wybodaeth am ein rhesymau dros wneud y newidiadau, **cliciwch yma.**

Er gwaethaf yr heriau ariannol rydym yn eu hwynebu, rydym yn dal i fod yn uchelgeisiol ac wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y gwasanaethau y mae ein trigolion yn dibynnu arnynt fwyaf. Mae trosolwg ar lle y mae ein cyllideb wedi'i blaenoriaethu yn 2019-20 i'w weld ar dudalen 58 (Strategaeth Ariannol).
Bu cryn newid i wedd ein strwythur Uwch Reolwyr yn ystod 2019, ac rydw i'n falch o groesawu nifer o staff newydd i Bowys. Mae pennod newydd nawr yn dechrau, gydag egni o'r newydd, angerdd a syniadau i hyrwyddo ein cynllun.

## 1.2 Neges oddi wrth y Prif Weithredwr



Dr Caroline Turner,
Prif Weithredwr

**Ymunais â Chyngor Sir Powys ar adeg hollbwysig yn ei siwrnai weddnewidiol. Er bod nifer o gerrig milltir allweddol wedi'u cyrraedd o ran Gweledigaeth 2025 yn ystod ei blwyddyn gyntaf, mae yna dal gryn welliant a datblygiadau i'w gwneud.**

Fel Prif Weithredwr, fy rôl i yw sicrhau bod 'Gweledigaeth 2025' wrth graidd gwaith ein holl staff, boed yn gweithio ym meysydd gofal cymdeithasol, addysg neu briffyrdd a thrafnidiaeth, ymhlith meysydd eraill. Mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r deilliannau y mae ein trigolion a'n cymunedau'n eu disgwyl a'u haeddu, yn enwedig mewn adeg pan rydym yn wynebu cwtogi mwy a mwy ar ein cyllideb o'r naill flwyddyn i'r nesaf. Rydym eisoes wedi arbed dros £100m dros y ddegawd ddiwethaf, ond dros y 3 blynedd nesaf mae angen gwneud arbedion sylweddol pellach i fantoli'r gyllideb. Yn ôl y modelu presennol, amcangyfrifir y bydd hyn rhwng £30m a £46m – y senarios gorau a'r gwaethaf. I gyflawni hyn, rydym yn gwybod bod angen i ni drawsnewid ein ffordd o ddarparu gwasanaethau.

Yn ystod 2018-19, datblygwyd Rhaglen Drawsnewid newydd i hyrwyddo newid yn gyflym. Dyma'r prosiectau trawsbynciol sy'n rhan o'r rhaglen bresennol:

**Bargen Twf Canolbarth Cymru**
Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bargen twf a allai fod gwerth rhyw £200m, er mwyn cael y budd economaidd gorau posibl i Ganolbarth Cymru ac annog busnesau i aros a buddsoddi yma.

**Llesiant Gogledd Powys**
Byddwn yn ystyried yr opsiynau i ddatblygu Canolfan Wledig Ranbarthol yn y Drenewydd i ddelio gyda phroblemau'n ymwneud ag adeiladau sy'n heneiddio, i gefnogi anghenion poblogaeth y dyfodol a lliniaru yn erbyn y posibilrwydd o symud gwasanaethau i ffwrdd o ogledd Powys dan y rhaglen Barod at y Dyfodol.

**Gwella ein seilwaith ysgolion**
Caiff ein hadeiladau ysgolion eu trawsnewid trwy gynllun buddsoddiad cyfalaf gwerth £114miliwn. Byddwn yn sicrhau bod yr ysgolion newydd a'r rhai sy'n cael eu hailwampio'n cynnig amgylchfyd cyfoes sy'n addas ar gyfer addysg y 21ain ganrif ac yn ganolog i fywyd cymunedol. Byddwn yn cwblhau'r cymal cyntaf o'r buddsoddiad cyfalaf erbyn 2020 (Band A) a'r ail gymal (Band B) erbyn 2025. Byddwn yn rhoi ein Polisi Trefniadaeth Ysgol a Chynllun Cyflenwi newydd ar waith i ddatblygu rhwydwaith ysgolion mwy effeithlon, gyda mwy o ffocws ar weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd y Cynllun Cyflenwi'n canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth uwchradd ac ôl-16, y ddarpariaeth gynradd a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog.

**Trawsnewid Digidol**
I gynllunio a gweithredu ein trawsnewid digidol, gan osod y map ar gyfer y ffordd y bydd y Cyngor yn manteisio ar dechnolegau digidol i drawsnewid ein modd o ddarparu gwasanaethau trwy ein ffordd o weithio, ein ffordd o ddefnyddio gwybodaeth, cefnogi ein cwsmeriaid, gwella cyfleoedd i drigolion a helpu ein busnesau i gystadlu.

**Dyfodol y Gweithlu**
Byddwn yn ailfodelu strwythur staffio'r cyngor i wreiddio newidiadau mewn diwylliant sefydliadol, ar yr un pryd â gwneud arbedion ariannol sylweddol. Byddwn yn sicrhau bod y gweithlu'n meddu ar y sgiliau, yr agwedd, yr ymddygiadau a'r profiad iawn, ac yn datblygu ein doniau ein hunain trwy brentisiaethau a hyfforddiant, i'w galluogi i gyrraedd eu potensial.

**Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol**
Byddwn yn archwilio manteision sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol i wella cyfleoedd i



gynhyrchu mwy o incwm yn ogystal ag ymgyrchu'n sylweddol i gwtogi ar wariant y Cyngor.

**Strategaeth sy'n seiliedig ar Leoedd Aberhonddu**
Fe wnawn baratoi strategaeth sy'n seiliedig ar leoedd i Aberhonddu a fydd yn adolygu ac yn gwneud argymhellion ar bortffolio eiddo'r cyngor yn Aberhonddu, yn ogystal â thai, addysg, gofal ychwanegol ac anghenion y cyngor a phartneriaid o ran lle swyddfa nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn croesawu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a byddwn yn parhau i edrych am ffyrdd i weithio'n fwy cynaliadwy. Rydym eisoes yn cydweithio â'n partneriaid ar Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Tuag at 2040) ac rydym yn falch ein bod yn arwain gwaith cyflawni pedwar allan o'r 12 o gamau. Rydym hefyd yn bartneriaid allweddol o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac rydym wedi ymrwymo i gydweithio i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym wedi ymrwymo i wrando ar farn ein trigolion a'n partneriaid, a bydd gennym raglen helaeth o ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod oes ein Cynllun Gwella Corfforaethol. Rydym yn eich annog i gofrestru ar gyfer ein Panel Dinasyddion a chael dweud eich dweud. Gallwch hefyd gadw i fyny â newyddion a digwyddiadau'r cyngor ar ein tudalennau Twitter a Facebook

Ewch i www.powys.gov.uk

### 1.3 Canllaw i'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn cyflawni cyfrifoldeb y cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i adrodd ar ei gynnydd o ran cyflawni ei amcanion llesiant ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (2018/19). Mae ein hamcanion llesiant yn dangos sut rydym yn cyfrannu at set genedlaethol o nodau (y 7 nod llesiant) mewn ffordd gynaliadwy (mae hyn yn golygu meddwl am y tymor hir, cynnwys pobl yn ein gwaith cynllunio gwasanaethau, ystyried sut y gallwn ddarparu gwasanaethau ar y cyd ag eraill, sicrhau bod ein cynlluniau'n integredig a rhoi adnoddau tuag at atal problemau rhag digwydd neu waethygu). I gael disgrifiad o'r 7 Nod Llesiant a 5 Dull o Weithio, gwelwch Atodiad A.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys:

Crynodeb o'n perfformiad yn ystod 2018-19

Gweledigaeth 2025 ar gip: Crynodeb o'n hamcanion llesiant, prosiectau pontio, gwerthoedd ac egwyddorion arweiniol

Dadansoddiad manwl o'n cynnydd wrth gyflawni pob un o'n Hamcanion Llesiant yn ystod 2018-19, gan gynnwys:

Beirniadaeth gyffredinol o berfformiad – Mae pob un o'n hamcanion wedi'u categoreiddio'n gyffredinol dan rhagorol, da, digonol neu wael, gan ddibynnu ar y statws GCAG (Glas, Coch, Ambr, Gwyrdd) a roddwyd i gyfres o weithgareddau a mesurau llwyddiant sy'n cefnogi cyflawni'r amcan (gellir gweld diffiniad o GCAG yn Atodiad A):

- Rhagorol – Cwblhawyd pob gweithgaredd neu maent at y trywydd iawn ac mae mesurau llwyddiant yn cyrraedd targedau
- Da – Y mwyafrif o weithgareddau ar y trywydd iawn a'r mesurau llwyddiant yn gwella
- Digonol – Gweithgareddau'n fras ar y trywydd iawn, ond effaith gyfyngedig ar ddeilliannau
- Gwael – Y mwyafrif o weithgareddau heb fod ar y trywydd iawn a'r deilliannau heb wella

Sut y mae'r camau rydym wedi'u cymryd yn cyfrannu at siwrnai fwy cynaliadwy Cymru a Phowys hyd yma tuag at gyfrannu cymaint â phosibl at y saith nod llesiant a gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. (Mae Atodiad A yn manylu ar ddiffiniadau o'r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn esbonio Diogelwr Taith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.)

Perfformiad yn erbyn ein mesurau llwyddiant

Cynnydd yn erbyn prosiectau a gweithgareddau

Faint rydym wedi'i arbed a'i wario

Y wybodaeth ddiweddaraf am ein cynllun ar gyfer 2019-20 ymlaen

Sut rydym wedi ymgysylltu ac ymgynghori â thrigolion, cymunedau a busnesau

Adborth oddi wrth ein rheoleiddwyr (Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn) a sut rydym yn ymateb i'w sylwadau

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflawni cyfrifoldeb y cyngor i adolygu ei Amcanion Gwella ac asesu ei berfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac mae'n dangos sut y mae'r cyngor yn cyflawni'r 7 agwedd ar wella.

Mae'n bwysig asesu perfformiad fel ein bod yn gallu gweld pa weithgareddau sy'n gweithio'n dda a lle y mae angen i ni wella. Efallai y bydd hyn yn golygu gwneud newidiadau i'n cynllun i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y gweithgareddau gwaith iawn ac yn mesur y wybodaeth iawn i weld a ydym yn gwneud gwahaniaeth lle mae ei angen fwyaf.

## 1.4 Edrych yn ôl: Crynodeb o'n perfformiad yn 2018-19

### Ystadegau allweddol

**Poblogaeth**

Poblogaeth Bresennol

**132,515**

**16%** Dan 16

**12%** Dros 75

**Aelwydydd**

Aelwydydd ym Mhowys

**59,473**

**33%** yn aelwydydd un person

**Gwariant**

Gwariant gros o tua

**£420 m**

Mae'r cyngor yn cyflogi tua **6,000** o staff sy'n darparu ystod eang o wasanaethau i gwrdd ag anghenion pobl leol

**Cynghorwyr**

Mae gan y cyngor

**73** o gynghorwyr etholedig

yn cynrychioli **73** o wardiau

**Treth y Cyngor**

Cyfartaledd Treth y Cyngor*

**£1,470.57**

ar gyfer eiddo Band D

* (diwedd blwyddyn 31/03/19)
Cyfartaledd Cymru £1,492.00

Isod amlinellir trosolwg o'n perfformiad yn 2018/19, yn erbyn ein mesurau llwyddiant allweddol.

**Perfformiad da**

- Ym mis Rhagfyr 2018, llwyddodd y cyngor i gwblhau ei raglen Safon Ansawdd Tai Cymru, ddwy flynedd cyn y dyddiad cau statudol o 2020. Roedd 86% o denantiaid yn fodlon â gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru, gyda 2891 o welliannau elfennol wedi'u gwneud yn 2018-19
- Cafwyd cynnydd o 27% i 29.1% yng nghyfran y refeniw sy'n cael ei wario gyda chyflenwyr a darparwyr a seilir ym Mhowys (neu gyflenwyr sy'n darparu gwasanaethau o leoliad ym Mhowys), gan ragori ar ein targed o 2%. Mae hyn yn cyfateb i £60,557,358.
- Mae 563 o gleientiaid sy'n oedolion wedi'u cefnogi yn eu cartref eu hunain drwy gyfrwng technoleg gynorthwyol, sy'n gynnydd sylweddol o 390 y flwyddyn flaenorol

- Roedd 72.3% o ysgolion mewn categorïau Gwyrdd neu Felyn yn y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion, o'i gymharu â 61% y flwyddyn flaenorol. Daeth 9 ysgol hefyd allan o gategori 'gwelliant' Estyn ar ôl cael canlyniadau arolygu gwell
- Yn ôl ein harolwg staff, mae nifer y staff sy'n dweud eu bod yn falch o weithio i'r cyngor wedi cynyddu, o 59% i 61.81%
- Derbyniwyd 178 o ganmoliaethau. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 44.5 o ganmoliaethau bob chwarter, o'i gymharu â 32 yn 2017-18
- Roedd alldro refeniw (heb gynnwys y Cyfrif Refeniw Tai a chyllideb ddirprwyedig ysgolion) yn orwariant o 0.4% (£713k) o'i gymharu â'r gyllideb

**Perfformiad cymedrol**

- Mae 13 o bobl wedi symud ymlaen i gyflogaeth o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyflogadwyedd roedd y cyngor yn eu gweithredu, sy'n is na'r targed roeddem yn ei ddisgwyl
- Darparodd 7.9 o staff (cyfwerth ag amser llawn) wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl (roedd hyn yn 10.5 cyfwerth ag amser llawn yn 2017)
- Cyflawnodd 63.1% o ddisgyblion blwyddyn 11 drothwy Lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg - Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch o'i gymharu â 62.2% y flwyddyn flaenorol (Cymru 55.1%)
- Roedd presenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd yn 95.1% o'i gymharu â 95.5% y flwyddyn flaenorol (Cymru 94.6%)
- Roedd presenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd yn 94.5% o'i gymharu â 94.6% y flwyddyn flaenorol (Cymru 93.9%)
- Derbyniwyd 25 o argymhellion neu gynigion ar gyfer gwella oddi wrth ein rheoleiddwyr (AGC a Swyddfa Archwilio Cymru)
- Ar gyfartaledd, collwyd 9.5 diwrnod/ sifft fesul gweithiwr cyngor (cyfwerth ag amser llawn) oherwydd absenoldeb salwch, o'i gymharu â 9.74 diwrnod yn 2017/18 (cyfartaledd Cymru: 10.4 diwrnod)

**Perfformiad gwael**

- Ymatebwyd i 79.21% o gwynion o fewn yr amserlen statudol, o'i gymharu â 97.06% yn 2017-18

## 1.5 Edrych ymlaen: Gweledigaeth 2025 ar gip

### Ein gweledigaeth:

**Byddwn yn gyngor agored a mentrus, sy'n golygu:**

- Gweithio gyda chymunedau, dinasyddion a busnesau
- Parodrwydd i ystyried dulliau gweithio a chyflenwi gwasanaethau mewn ffyrdd newydd
- Canolbwyntio ar atebion yn hytrach na phroblemau

**Erbyn 2025, bydd Powys yn cael ei chydnabod yn eang fel lle gwych i weithio, byw a chwarae ynddo**

### Ein hamcanion Llesiant:

Byddwn yn datblygu **ECONOMI** lewyrchus

Byddwn yn arwain y ffordd o ran darparu **IECHYD A GOFAL** effeithiol integredig mewn amgylchfyd gwledig

Byddwn yn cryfhau **ADDYSGU A SGILIAU**

Byddwn yn cefnogi ein **DINASYDDION A CHYMUNEDAU**

**GWNEUD IDDO DDIGWYDD**

- Ymgysylltu a chyfathrebu
- Arweinyddiaeth a llywodraethu
- Newid ein ffordd o weithio

### Ein Gwerthoedd:

Proffesiynol | Cadarnhaol | Blaengar | Agored | Cydweithredol

**Proffesiynol**: Beth bynnag fo'n rôl o fewn y cyngor, byddwn yn ymddwyn mewn ffordd broffesiynol a chywir
**Cadarnhaol**: Byddwn yn arfer agwedd gadarnhaol ym mhopeth a wnawn
**Blaengar**: Byddwn yn arfer agwedd ragweithiol a chyfrifol o ran cynllunio at y dyfodol
**Agored**: Byddwn yn hysbysu ein gilydd, yn rhannu gwybodaeth ac yn ymddwyn mewn ffordd onest a chywir
**Cydweithredol**: Byddwn yn gweithio mewn ffordd adeiladol a byddwn yn fodlon cymryd rhan mewn mentrau ar y cyd

### Ein Prif Egwyddorion:

Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithredu | Cyfraniad

(seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015):
**Hirdymor:** Yn pwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i ddiwallu anghenion tymor hir
**Atal:** Defnyddio adnoddau er mwyn atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu
**Integreiddio (trawsbynciol):** Ystyried sut gall ein blaenoriaethau effeithio ar ei gilydd, ar y nodau llesiant, ac ar flaenoriaethau cyrff cyhoeddus eraill
**Cydweithredu:** Cydweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni ein blaenoriaethau
**Cyfraniad (cyfathrebu ac ymgysylltu):** Cynnwys pawb sydd â diddordeb mewn gwireddu'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal

## 2.1 Yr Economi

**Byddwn yn datblygu economi lewyrchus**

Rydym o'r farn fod yn rhaid i economi Powys fod wrth galon ein meddylfryd. Gydag economi gref, lewyrchus a mentrus byddwn yn darparu swyddi o ansawdd i'n pobl ifanc, yn creu ac yn meithrin ein cwmnïau lleol ac yn denu cwmnïau blaenllaw i Bowys. Trwy gymryd camau yn y maes hwn, rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r deilliannau a ganlyn:

- Bydd yna fwy o fusnesau newydd yn cychwyn a bydd mwy o fusnesau'n adleoli yma
- Bydd yna fwy o gyfleoedd cyflogaeth fedrus
- Bydd y boblogaeth sy'n economaidd weithgar yn cynyddu
- Bydd twristiaeth a gweithgarwch ac atyniadau hamdden yn cynyddu
- Bydd busnesau lleol yn cael budd o gyngor a chymorth da a fydd yn eu helpu i ffynnu
- Bydd rheoleiddio'n cefnogi busnesau a chymunedau a bydd yn gymesur
- Defnyddir blaenoriaethau'r cyngor i ddatblygu diwydiannau a chadwyni cyflenwi newydd
- Bydd yna gyflenwad a chymysgedd mwy o fannau gweithio i gefnogi cyflogaeth
- Bydd yna fwy o gyfleoedd swyddi a phrentisiaethau ar gyfer pobl ifanc
- Bydd Powys wedi'i sefydlu fel sail arloesol ar gyfer addysg, sgiliau ac ymchwil ar gyfer:
  - Ffermio ac arloesi wrth ddefnyddio tir
  - Iechyd a gofal
  - Achrediad hyfforddiant athrawon gwledig
- Bydd busnesau a chonsortia lleol sy'n cystadlu am gontractau'r sector cyhoeddus yn cynyddu
- Bydd yna fuddsoddiad sylweddol mewn datblygu tai fforddiadwy a chynaliadwy

### Asesiad cyffredinol o berfformiad:

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod perfformiad yr amcan hwn yn 'dda'. Adroddwyd bod 15 (88%) allan o'r 17 o weithgareddau ar waith i gefnogi'r amcan hwn yn ystod 2018-19 yn wyrdd a bod 2 yn ambr. Roedd 9 mesur a ddefnyddiwyd i fonitro llwyddiant yn wyrdd ac roedd 3 yn ambr (nid oedd unrhyw statws coch/ ambr/ gwyrdd (CAG) ar gael ar gyfer 3 o'r mesurau).

## Pa wahaniaeth ydym ni wedi'i wneud?

### Mae ein mesurau llwyddiant yn dangos:

Bod 13 o bobl wedi symud ymlaen i gyflogaeth o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyflogadwyedd roedd y cyngor yn eu gweithredu, sy'n is na'r targed roeddem yn ei ddisgwyl

I ni gael 18,705 o ymwelwyr â gwefan midwalesmyway.com o'i gymharu â 15,867 yn 2017/18

Yn ôl data cenedlaethol mwyaf diweddar STEAM, sy'n meintioli effaith twristiaeth ar yr economi leol, bod Powys wedi gweld cynnydd yn y categorïau a ganlyn ers 2016:

- Roedd nifer yr ymwelwyr undydd â Phowys yn 3.02 miliwn yn 2017, sef cynnydd o 0.4%
- Roedd cyfanswm Diwrnodau Ymwelwyr yn 10.85 miliwn yn 2017, sef cynnydd o 2.0%
- Roedd yr effaith economaidd yn £815.5m, sef cynnydd o 3.1%
- Roedd y gwariant ar gyfartaledd fesul diwrnod ymwelwyr yn £54, sef cynnydd o £2.52 ar wariant blaenorol

Y sefydlwyd 1 safle cyflogaeth yn ein Depo Ffrwdgrech yn Aberhonddu, gan gynnig 5 uned i ddiwallu anghenion busnesau lleol. Roeddem wedi ymrwymo i sefydlu o leiaf dau y flwyddyn, ond bu oedi wrth ddatblygu Tŷ Ladywell yn y Drenewydd. Y bwriad nawr yw cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Medi 2019 a bydd yn darparu 20 o unedau / llety swyddfa newydd eu hailwampio ar gyfer busnesau.

Bod 20 o safleoedd gwag neu safleoedd nad oedd digon o ddefnydd ohonynt wedi'u gwella neu eu dwyn yn ôl i gyflwr sy'n ei gwneud yn ddichonol eu defnyddio trwy gymorth y cynllun benthyciadau canol trefi.

Bod 12 o gyfarfodydd rhwydweithio busnes dros frecwast a 12 o gyfarfodydd gweithdai wedi'u gwesteio ar gyfer microfusnesau, a ymgysylltodd â mwy na 590 o fusnesau.

Roeddent yn cynnig cyfle i fusnesau feithrin cysylltiadau newydd, datblygu masnach, dod o hyd i gymorth a chyngor rhad ac am ddim a chlywed am bynciau poeth a oedd yn digwydd yn y sir. Fel rhan o'n hymgyrch i gynyddu gwariant â busnesau yn y sir, gwnaethom hefyd gynnal dau ddigwyddiad cwrdd â'r prynwr yn Aberhonddu a'r Drenewydd, yn rhoi cyfle i fusnesau lleol ddysgu am brif brosiectau'r cyngor yn yr arfaeth a chyfarfod â gwahanol gontractwyr sydd eisoes a wnelo â'r gwaith

Bod 14 o fusnesau newydd wedi cael budd o'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig fel rhan o'n gwasanaeth Atebion Busnes Calon Cymru, yn erbyn targed o 10. Cynhyrchodd y contractau hyn £32,422,26 o incwm yn ystod 2018/19, sy'n golygu bod cyfanswm o £170,000 wedi'i gynhyrchu ers i Atebion Busnes Calon Cymru ddechrau yn 2017.

Ein bod wedi rhoi cyngor a chymorth i bedair cymuned a oedd â diddordeb mewn prosiectau band eang cymunedol.  Gan adeiladu ar lwyddiant cynllun cymunedol Yscir (Aberhonddu) sydd wedi'i gwblhau trwy Gynllun Grant Allwedd Band Eang Cymru Llywodraeth Cymru, mae tair cymuned arall megis cychwyn ac yn ystyried opsiynau ar gyfer cymorth (Ystradfellte (Ystradgynlais), Llanafan Fawr (Pontnewydd-ar-Wy), Llanfihangel-yng-Ngwynfa (Llanfyllin)

Bod 8 digwyddiad hyfforddiant band eang wedi'u darparu i fusnesau Powys.

Yn 2017, roedd yna 420 o fusnesau newydd a oedd wedi cychwyn, sef 7.2% o gyfanswm busnesau Powys. Mae hyn yn cymharu â 13.7% ledled Cymru (Dyma'r data mwyaf diweddar aoedd ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn)

Bod safleoedd wedi'u dyrannu i adeiladu 174 o gartrefi cyngor yn erbyn ein targed o 250 yn ystod 2018-19

Bod y cyngor, ym mis Rhagfyr 2018, wedi llwyddo i gwblhau ei raglen Safon Ansawdd Tai Cymru, ddwy flynedd cyn y dyddiad cau statudol o 2020. Roedd 86% o denantiaid yn fodlon â gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru, gyda 2891 o welliannau elfennol wedi'u gwneud yn 2018-19

Rydym wedi buddsoddi mwy na £2 filiwn o Gyfalaf yn ein seilwaith trafnidiaeth, gan ddefnyddio blaenoriaethau'r Strategaeth Cludo Nwyddau a'r Cynllun Teithio Llesol i ddarparu sail ar gyfer buddsoddi

Cafwyd cynnydd o 27% i 29.1% yng nghyfran y refeniw sy'n cael ei wario gyda chyflenwyr a darparwyr a seilir ym Mhowys (neu gyflenwyr sy'n darparu gwasanaethau o leoliad ym Mhowys), gan ragori ar ein targed o 2%. Mae hyn yn cyfateb i £60,557,358.

**ASTUDIAETH ACHOS – Safon Ansawdd Tai Cymru**

Cyngor Sir Powys yw'r darparwr mwyaf o dai fforddiadwy ar osod yn y sir, gan fod yn gyfrifol am reoli a chynnal a chadw mwy na 5,300 o dai â thenantiaid yn ogystal â nifer o unedau llety dros dro ac ar brydles ar gyfer teuluoedd digartref.


Dros y saith mlynedd diwethaf, mae £71 miliwn wedi'i wario ar wella tai cyngor. Mae'r cyngor wedi buddsoddi mewn ailosod ryw ychydig llai na 14,000 o gydrannau adeiladau fel bod tai'r cyngor yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Fel rhan o'r buddsoddiad, gosodwyd 2,960 o ystafelloedd ymolchi a 2,946 o geginau, a gwnaed gwaith i wneud 3,736 eiddo yn y sir yn ynni effeithlon. Ond dim ond megis cychwyn ar bethau yw cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwella mwy ar ein stoc a'n cartrefi, gan anelu at safon uwch (fel y nodwyd o'r blaen) na'r gofynion sylfaenol y manylir arnynt yn y Safon, trwy fuddsoddi'n drwm mewn darparu cartrefi yr ydych chi, y trigolion, yn falch o fyw ynddynt. Rydym hefyd yn datblygu strategaeth lleithder newydd a strategaeth cyfforddusrwydd thermol a thlodi tanwydd mewn ymateb i ganlyniadau archwiliad Safon Ansawdd Tai Cymru a phryderon parhaus y mae tenantiaid a chynrychiolwyr tenantiaid wedi'u codi.

**Mae Buddion Cymunedol y rhaglen yn cynnwys:**
Yn ystod mis Tachwedd 2018, bu tîm o weithwyr ac isgontractwyr o SERS Ltd, sef y contractwr rydym wedi'i benodi ar gyfer insiwleiddio waliau allanol, yn treulio diwrnod yn paentio'r Pafiliwn Chwaraeon Cymunedol yn y Gelli Gandryll. Mae'r gymuned leol yn defnyddio'r Pafiliwn cryn dipyn, ac mae'n gartref i'r clwb bowlio.

Mae Anglian Building Products, sef y contractwr rydym wedi'i benodi i osod ffenestri a drysau newydd yng ngogledd y sir, wedi gwneud rhodd i ariannu Parth Adeiladu yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, y Trallwng. Mae'r ysgol wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu amseroedd chwarae sy'n cefnogi llesiant cymdeithasol ac emosiynol ei disgyblion fel eu bod yn gallu rheoli pob agwedd ar fywyd. Meddai'r Prifathro "Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i Anglian Building Products am y rhodd hwn gan y bydd yn rhoi cyfleoedd gwych i'n plant chwarae gyda'i gilydd yn llawn dychymyg, ac yn eu cefnogi i feithrin perthnasoedd iach trwy archwilio'r deunyddiau'n greadigol gyda'i gilydd. Mi fydd yn gwneud gwahaniaeth mor bositif i'n hamseroedd chwarae!"









**Felly beth nesaf?** Byddwn yn parhau i wella ansawdd yr amgylchedd y mae ein tenantiaid yn byw ynddo a'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn trwy gyflawni Strategaeth Cynaliadwyedd Tenantiaeth Caru'ch Cynefin.

## Mae cynnydd yn erbyn ein gweithgareddau'n cynnwys:

### Rhoi cefnogaeth i fusnesau dyfu:

- **Help i fusnesau lleol sy'n cyflenwi'r cyngor** - Rydym wedi parhau i'w gwneud yn haws i gwmnïau lleol gyflenwi'r cyngor trwy ddechrau defnyddio GwerthwchiGymru ar gyfer gwaith llai sy'n galw am 3 dyfynbris yn unig, er mwyn helpu i annog cyflenwyr lleol i gyflwyno dyfynbrisiau. Rydym yn gweithio â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i rannu'r fframwaith tanwydd hylif newydd yn wahanol elfennau i'w gwneud yn haws i gyflenwyr ddod yn brif ddarparwr ar y fframwaith neu weithio fel isgontractwyr trwy gyflenwyr rhyngwladol mwy. Fel rhan o'r tendr cynnal a chadw tiroedd, gwnaethom gynnal digwyddiadau ymgysylltu â chyflenwyr, ac roedd 12 o'r 21 o fusnesau a fynychodd yn rhai lleol. Rhannwyd y contract yn 25 maes gwahanol i'w wneud yn fwy hygyrch i gyflenwyr lleol. O ganlyniad, dyfarnwyd contract tair blynedd i 6 chontractwr ym Mhowys, gwerth dros £200,000 y flwyddyn.
- **Parc Busnes Aber-miwl** – Mae'r cyngor wedi prynu safle 1.7 hectar oddi wrth Lywodraeth Cymru sydd mewn lleoliad da i roi cyfleoedd i fusnesau sy'n bodoli ehangu ac i ddenu mentrau newydd i'r sir. Yn ystod 2018-19, cwblhawyd dyluniadau cynllunio ar gyfer y safle a chafwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 6 uned busnes. Mae gwaith dylunio'r uned fusnes wedi'i gomisiynu ac mae darpar denantiaid wedi derbyn penawdau'r telerau.
- **Cynllun Benthyciadau Canol Trefi** – Mae buddsoddiad o gyfanswm o £2.85 miliwn trwy'r cynllun benthyciadau canol trefi wedi cefnogi ailwampio adeiladau, gan gynnwys adnewyddu adeilad yn Llandrindod i ddarparu tai diogel a chwbl hygyrch i bobl agored i niwed. Mae Gwasanaeth Tai'r cyngor wedi bod yn trawsnewid Fairview i ddarparu 12 rhandy ar wahân ag un a dwy ystafell wely, ac mae tri o'r rhain yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Bydd y llety hwn yn darparu cartrefi diogel i bobl sydd eisiau byw bywydau annibynnol ac iach yn eu cymuned, ond sydd ag angen ychydig yn fwy o gymorth i wneud hynny. Mae Arcêd Fictoria, Stryd Middleton, Llandrindod hefyd wedi'i thrawsnewid i uwchraddio adeilad nad oedd unrhyw un yn ei ddefnyddio er mwyn datblygu 4 annedd a chynyddu'r lle ar gyfer siopau. Mae Central Garage, y Drenewydd, sydd yng nghanol y dref, hefyd wedi'i adfywio, gan drosi hen garej segur yn unedau manwerthu.
- **Ardaloedd Gwella Busnes** – Mae'r cyngor wedi derbyn llythyr cynnig oddi wrth Lywodraeth Cymru i ymgynghori â busnesau yn Aberhonddu a'r Drenewydd â'r bwriad o ddatblygu Ardal Gwella Busnes ar gyfer y ddwy dref.

### Hyrwyddo Powys fel lle i fyw, ymweld a gwneud busnes ynddi

- **Bargen Twf Canolbarth Cymru** – Cynhaliwyd nifer o weithdai ymgynghori gyda chynrychiolwyr o'r sectorau preifat a chyhoeddus i asesu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu economi Canolbarth Cymru.  Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r digwyddiadau, rydym wedi gweithio'n agos â phartneriaid ar y Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer swyddi a thwf economaidd o fewn rhanbarth Canolbarth Cymru. Daeth busnesau o ledled rhanbarth Canolbarth Cymru hefyd at ei gilydd yn y Senedd ym Mae Caerdydd ddydd Iau, 31 Ionawr i ddangos y potensial ar gyfer twf yn y rhanbarth. Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a drefnodd y digwyddiad a oedd yn dwyn sylw at unigrywiaeth y rhanbarth ac yn hybu diwydiannau'r rhanbarth, gan gynnwys ceir sy'n rhedeg ar hydrogen sy'n cael eu hadeiladu ym Mhowys, cyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf yn Aberystwyth, a busnesau sy'n rhanbarthol bwysig ar gyfer yr economi wledig a thwristiaeth. Cytunwyd ar Gytundeb ar gyfer Bargen Twf Tyfu Canolbarth Cymru rhwng

Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion. Cynhaliwyd gweithdai pellach â'r sector preifat tuag at ddiwedd 2018/19 i nodi syniadau am brosiectau ar gyfer twf economaidd yng Nghanolbarth Cymru. Mae mwy na 120 o bobl wedi mynychu'r digwyddiad, sy'n dangos diddordeb a chefnogaeth sylweddol o du'r sector preifat.

- **Cynllun Gweithredu Economaidd Rhanbarthol Canolbarth Cymru** – Fel rhan o ddatblygu cynllun gweithredu newydd ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru, gofynnwyd i fusnesau am eu barn ar faterion fel cysylltedd digidol, cymorth i fusnesau, sgiliau a seilwaith trafnidiaeth, er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer twf yn y rhanbarth. Bydd y Cynllun Gweithredu Economaidd Rhanbarthol newydd yn ceisio datblygu rhaglen o fuddsoddiadau a phrosiectau strategol a fydd yn helpu i drawsnewid economi Canolbarth Cymru a chefnogi twf dros y 15 mlynedd nesaf. Rhagwelir y caiff y prosiectau eu cyflawni trwy amrywiaeth o ffynonellau ariannu, gan gynnwys y Fargen Twf bosibl ar gyfer Canolbarth Cymru. Fel rhan o'r cynllun, mae dogfen dendro'n cael ei pharatoi i adolygu tir a safleoedd o fewn rhanbarth Canolbarth Cymru. Mae darparu cyflenwad priodol o safleoedd ac adeiladau cyflogaeth yn gydran hanfodol o gefnogi economi Canolbarth Cymru a galluogi twf economaidd. Cynigir bod Cyngor Sir Powys yn comisiynu ymgynghorwyr ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i ddarparu asesiad diweddar ac annibynnol o'r farchnad a chynllun gweithredu i gefnogi datblygu'r polisi cynllunio yn y dyfodol a Bargen Twf Canolbarth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys yn ariannu ac yn goruchwylio'r cynnig.
- **Strategaeth Digwyddiadau Newydd** – Mae strategaeth digwyddiadau newydd wedi'i datblygu ar gyfer Powys, ac mae'n aros cytundeb terfynol ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i weithio â Llywodraeth Leol i ddenu digwyddiadau mawr i'r sir, ac rydym wedi cryfhau'r berthynas â threfnwyr digwyddiadau presennol. Yn ystod 2018/19, roedd gennym bresenoldeb corfforaethol yn Sioe Frenhinol Cymru, Gŵyl Wanwyn Frenhinol Cymru, Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, Gŵyl y Gelli, ac Eisteddfod yr Urdd. Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd ar Faes Sioe Frenhinol Cymru, ac mae ymchwil wedi dangos iddo gyfrannu £6 miliwn at yr economi leol, a bod 78% o'r ymwelwyr wedi gwario arian â busnesau lleol. Mae gwefan Mid Wales My Way wedi'i harchwilio a'i hadfywio i roi lle mwy amlwg i Bowys.
- **Sicrhau cyllid grant ymgysylltu twristiaeth** – Gwnaethom sicrhau £95,275 o Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) Croeso Cymru ar gyfer prosiect a oedd yn gysylltiedig â Blwyddyn y Môr (2018) a Blwyddyn Ddarganfod (2019) Croeso Cymru. Roedd y prosiect, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion, yn canolbwyntio ar ddod â chwedl Tair Chwaer Pumlumon yn fyw, gan ddwyn sylw at ardaloedd ucheldirol ysblennydd Canolbarth Cymru, yn ogystal ag asedau twristiaeth allweddol ar hyd afonydd Hafren, Gwy ac Ystwyth. Fel rhan o'r prosiect, cynhyrchwyd ffilm animeiddiedig o stori'r Tair Chwaer, cyfres o lwybrau sain digidol ar hyd yr afonydd, digwyddiad 'Ras i'r Môr' 50km a gynhaliwyd ym mis Hydref 2017, ac ymgyrch farchnata yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ymwelwyr allweddol.

## Gwella argaeledd tai fforddiadwy a chynaliadwy

- **Datblygu Tai Fforddiadwy** - Mae safleoedd wedi'u dyrannu i adeiladu 174 o gartrefi cyngor yn erbyn ein targed o 250 yn ystod 2018-19. Ymhlith y safleoedd a nodwyd mae Sarn, Clos Cradoc Aberhonddu, Cleirwy, safle Cyn Smithfield Llanidloes. Roedd ein cais am gyllid o Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru i adeiladu 26 o fflatiau ag un ystafell wely yn y Drenewydd yn llwyddiannus. Derbyniodd y fflatiau carbon isel cynlluniedig ganiatâd cynllunio ym mis Medi 2018. Mae'r datblygiad arfaethedig, a fydd yn bodloni Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru, wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion tenantiaid yn y dyfodol, a bydd yn defnyddio pren Cymreig fel rhan o'i adeiladwaith, yn unol â blaenoriaeth Cartrefi Cynhenid y Cyngor. Mae'r gwasanaeth Tai, wrth roi ei holl ddatblygiadau tai newydd allan i dendr, yn cynnwys polisi hybu'r defnydd o goed er mwyn hybu defnyddio mwy ar bren Cymreig.

- **Digwyddiadau Tai Fforddiadwy** - Cynhaliwyd digwyddiadau galw heibio ledled y sir yn ystod haf 2018, pan fynychodd y tîm sioeau amaethyddol, ffeiriau ysgol, canolfannau hamdden a diwrnodau marchnad yn y prif drefi marchnad i gael barn trigolion lleol ar dai fforddiadwy a hefyd i gadarnhau anghenion yr ardaloedd o ran tai. Mynychodd y tîm Tai Fforddiadwy hefyd y cyflwyniadau rhwydwaith busnes a gynhaliwyd fel digwyddiadau brecwast a digwyddiadau nos mewn lleoliadau ar hyd a lled y sir. Bydd ein Tîm Tai Fforddiadwy'n parhau i weithio mewn cymunedau ledled Powys i nodi tir addas ar gyfer tai ac i gadarnhau anghenion am dai. Yn ddiweddar, gwnaethom annog aelodau lleol mewn diwrnod datblygu i gysylltu â ni â thir y gellir ei ddatblygu o fewn eu cymunedau lleol. Rydym eisiau cynhyrchu cartrefi cynaliadwy, fforddiadwy ac o ansawdd da sy'n diwallu anghenion cymunedol lleol ar draws Powys ac sy'n annog defnyddio mwy ar bren Cymreig, gan gyflawni nodau amcan Cartrefi Cynhenid. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu 250 o gartrefi ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n Partneriaid Cymdeithasau Tai i hybu defnyddio mwy ar bren Cymreig yn eu datblygiadau tai newydd.
- **Tai â Gofal Ychwanegol** - Fel yr Awdurdod Tai Strategol, rydym wedi gweithio gyda'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a'r Bwrdd Iechyd i ddyrannu cyllid ar gyfer cyflenwi'r Gofal Ychwanegol a nodwyd yn Natganiad y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion o Sefyllfa'r Farchnad. O ganlyniad, mae'r Rhaglen Cyflenwi Cynlluniedig (y broses sy'n dyrannu Grant Llywodraeth Cymru i gymdeithasau tai ym Mhowys) ar gyfer y 3 blynedd nesaf yn rhoi blaenoriaeth i Ofal Ychwanegol yn y Trallwng, Ystradgynlais ac Aberhonddu. Mae'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Oedolion wedi dyrannu dros £3 miliwn o ddyraniad cyfalaf ei Gronfa Gofal Canolraddol ar gyfer cyflenwi Gofal Ychwanegol dros yr un cyfnod.

## Gwella ein seilwaith i gefnogi adfywio a denu buddsoddiad


- **Adfywio Parc Llyn Llandrindod** – Gwnaethom dderbyn grant o £50k o Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi Llywodraeth Cymru, a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, i wella cyfleusterau yn ardal llyn Llandrindod. Bydd gwaith arfaethedig yn cynnwys gosod llwyfannau pysgota newydd, gosod llwybr bordiau a chuddfan gwylio adar newydd o amgylch y llyn. Caiff y deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer y llwyfannau a'r llwybr bordiau eu cynhyrchu o ddeunyddiau plastig wedi'i ailgylchu. Caiff byrddau dehongli hefyd eu codi fel rhan o'r cynllun hwn. Fel rhan o'r prosiect, rydym wedi gofyn i drigolion am eu barn i helpu i fesur y buddion a ddaw i ran y gymuned ac eraill sy'n mwynhau'r parc yn sgil y gwaith. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Cyngor Tref i sicrhau bod y busnes cychod yn parhau ar y llyn.
- **Seilwaith trafnidiaeth a gwella cysylltedd** – Rydym wedi datblygu cyfnewidfa trafnidiaeth newydd yng Nghilgant yr Orsaf yn Llandrindod, gan ddarparu canolbwynt sy'n cysylltu cyfleusterau bws a thrên mewn un lle. Mae'n cynnig terminws bysiau mwy diogel a gwell o lawer ar gyfer gwasanaethau bysiau rheolaidd sy'n ymweld â'r dref. Mae'r cyngor a'r bwrdd iechyd ill dau wedi gweithio'n agos ar y cynllun hwn i wella'r seilwaith ar gyfer defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus sy'n byw yn Llandrindod ac sy'n ymweld â'r dref. Derbyniwyd £450k o gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru i brynu'r safle.
- **Gwaith teithio llesol** – Dechreuwyd cyfnod dau o Lwybrau Diogel i Gymunedau Llanandras, diolch i grant o £400,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru. Bydd y gwaith diweddaraf yn cynnwys creu llwybrau newydd, lledu llwybrau presennol, mesurau gostegu traffig a pharth 20mya newydd ar hyd Heol Greenfield a Stryd Henffordd. Cwblhawyd cyfnod un y cynllun ym mis Mawrth 2018 ac agorwyd ef yn swyddogol ym mis Mehefin. Nod y cynllun yw gwella cyfleusterau teithio llesol yn y dref fel bod mwy o drigolion yn cael eu hannog i ddewis cerdded neu seiclo siwrneion byr yn lle defnyddio cerbyd. Sicrhawyd £330k hefyd i ddatblygu Tref-y-clawdd ar gyfer cynllun ffordd Llwydlo.

- **Seilwaith cerbydau trydan** – Mae ymarfer cwmpasu cychwynnol wedi'i wneud i nodi lleoliadau posibl y gellir rhoi'r seilwaith ar waith o fewn y sir.
- **Band Eang Cyflym Iawn** - Bu dirprwyon o Gyngor Sir Powys yn ymweld â Gorllewin Cork i ddysgu sut y mae'r ardal wedi llwyddo i ddod â chysylltedd cyflym iawn i ardal wledig. Dysgodd y dirprwyon sut y mae cyd-ffocws ar yr economi ddigidol yn annog pobl brofiadol i ymfudo neu ddychwelyd i'r ardal, yn ogystal â chreu cyfleoedd i bobl ifanc sydd eisiau aros.

## Gwella sgiliau a chefnogi pobl i gael swyddi o ansawdd da

- **Cymunedau am Waith a Mwy** – Mae rhaglen newydd wedi'i lansio i helpu pobl sydd mewn tlodi neu mewn perygl o ddod yn dlawd. Mae prosiect 'Cymunedau am Waith a Mwy' wedi'i lunio'n benodol ar gyfer pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn ac sydd mewn tlodi neu mewn perygl o ddod yn dlawd. Bydd yn helpu pobl sy'n ddi-waith, yn ogystal â phobl sy'n gweithio ond sydd dal yn wynebu trafferthion ariannol. Sicrhawyd £150,000 i ddechrau oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ystod 2018-19 i gefnogi'r prosiect hwn, ac mae £150,000 pellach hefyd wedi'i sicrhau ar gyfer 2019-20. Yn ystod 2018-19, cymerodd 76 o bobl ran yn y rhaglen.
- **Gweithffyrdd+ Powys** – Trefnwyd dau ddigwyddiad 'Cymorth i'r Gymuned', y naill yn Aberhonddu a'r llall yn y Drenewydd. Ynddynt, roedd Gweithffyrdd+ Powys, Cymunedau am Waith a Mwy, Gofal a Thrwsio, y Groes Goch Brydeinig, y Biwros Gwirfoddol lleol, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, a sefydliadau eraill yn bresennol i roi cyngor a gwybodaeth yn rhad ac am ddim i bobl leol. Amcan y digwyddiadau oedd cynyddu ymwybyddiaeth o brosiect Gweithffyrdd+ Powys ac annog cyfranogion newydd, ac ar yr un pryd gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cymorth cymunedol eraill. Yn ystod 2018-19, cymerodd 236 o bobl ran yn y prosiect.

### Ein cyfraniad at y 7 Nod Llesiant:




### Faint y gwnaethom ei arbed/ei wario yn 2018-19?

**Prif fuddsoddiadau cyfalaf:**

- Gwaith teithio llesol – £359k
- Tŷ Ladywell – £194k
- Adfywio Parc Llyn - £139k

**Prif arbedion:**

- Cwmni Cyd-fenter Gwasanaethau Eiddo (HOWPS) - £56k

### Y Diogelwr Taith

Ble ydym ar y daith i gyfrannu cymaint â phosibl at y 7 nod llesiant?



## Diweddariadau i'n cynllun a gweithgareddau gwella allweddol ar gyfer 2019 ymlaen

| Gweithgaredd – Beth y byddwn yn ei wneud? | Sut y byddwn yn mesur llwyddiant? |
|---|---|
| **Rhoi cefnogaeth i fusnesau dyfu:** | |
| Byddwn yn helpu i sicrhau cyflenwad priodol o safleoedd ac adeiladau cyflogaeth i ddiwallu anghenion busnesau.<br><br>Bydd swyddfeydd wedi'u hailwampio ar gael yn Nhŷ Ladywell, y Drenewydd erbyn diwedd mis Medi 2019. | • Cynyddu'r cyflenwad o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau i ddiwallu anghenion busnesau o leiaf dau adeilad y flwyddyn<br>• Erbyn 2025 bydd dros 20 o adeiladau gwag neu adeiladau segur wedi cael eu gwella neu yn hyfyw i'w defnyddio eto<br>• Erbyn 2025 bydd cyfraddau meddiant adeiladau diwydiannol/masnachol newydd sy'n eiddo i'r Cyngor yn 85% (yn 2017/18 roedd yn 50%) |
| Byddwn yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo cymorth ariannol ar gyfer busnesau. | • Erbyn 2025 bydd canran busnesau newydd sy'n cychwyn/busnesau newydd (sy'n cofrestru ar gyfer TAW/TWE) y flwyddyn yn agosach at gyfateb i gyfartaledd Cymru |
| Erbyn 2020 byddwn yn sicrhau bod ein polisïau a'n prosesau yn hwyluso'r broses i gwmnïau lleol gyflenwi'r cyngor. | • Cynyddu cyfran y refeniw sy'n cael ei wario gyda chyflenwyr a darparwyr a seilir ym Mhowys (neu gyflenwyr sy'n darparu gwasanaethau o leoliad ym Mhowys) o 2% yn 2019/20 a 3% yn 2020/21.<br>• Cynyddu nifer y cyflenwyr lleol yr ymgysylltir â nhw ym mhroses gaffael y cyngor (llinell sylfaen 2017-18: 336 o gwmnïau wedi'u gwahodd i dendro o gyfanswm o 1309. Ymatebodd 96 o'r 336 a dyfarnwyd 26 ITT) |
| **Hyrwyddo Powys fel lle i fyw ynddi, ymweld a gwneud busnes yma** | |
| Byddwn yn cytuno ar strategaeth digwyddiadau ac yn ei rhoi ar waith, ac yn ailfrandio rhaglen marchnata twristiaeth bresennol Mid Wales My Way, i sicrhau y cydnabyddir Powys fel rhywle y mae pobl eisiau ymweld â hi. | • Erbyn 2021, bydd nifer y bobl sy'n ymweld â gwefan midwalesmyway.com yn cynyddu o 15,867 i dros 17,500 y flwyddyn<br>• Cynnydd mewn incwm twristiaeth sy'n cael ei fesur trwy gategorïau data STEAM:<br>▪ Aros mewn Llety â Gwasanaeth<br>▪ Aros mewn Llety heb Wasanaeth<br>▪ Aros gyda Ffrindiau a Pherthnasau<br>▪ Twristiaid sy'n ymweld am y Diwrnod |
| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bargen twf a allai fod gwerth rhyw £200m, er mwyn cael y budd economaidd gorau posibl i Ganolbarth Cymru ac annog busnesau i aros a buddsoddi yma. | • Cynnydd mewn swyddi gyda sgiliau technegol uwch a thwf economaidd yn y diwydiant moduro a thechnegol o ganlyniad i gadarnhau buddsoddiad trwy ardal twf Canolbarth Cymru. |

| | |
|---|---|
| Byddwn yn datblygu cadwyni cyflenwi eraill sy'n briodol i Bowys e.e. cyflenwi bwyd, y diwydiant moduro a choed. | • Byddwn yn cynnal 6 chyfarfod rhwydweithio i fusnesau a 12 o gyfarfodydd gweithdai ar gyfer microfusnesau bob blwyddyn. Byddwn yn cefnogi mwy o fusnesau trwy roi cyngor trwy gysylltiadau Busnes Cymru ac yn uniongyrchol trwy swyddogion y Cyngor sy'n meddu ar sgiliau priodol |

## Gwella argaeledd tai fforddiadwy a chynaliadwy

| | |
|---|---|
| Sicrhau gwell dewis o dai fforddiadwy a thai â darpariaeth gofal ychwanegol er mwyn i bobl allu dewis lle i fyw, a gallu aros yn eu cymunedau.<br><br>Gweithredu rhaglen Cartrefi Cynhenid i annog defnyddio coed lleol, cynaliadwy ar gyfer prosiectau tai cyngor a chartrefi newydd cymdeithasau tai. | • Erbyn 2023 byddwn yn adeiladu 250 o gartrefi fforddiadwy newydd mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf ar draws y sir |

## Gwella'r seilwaith i gefnogi adfywio a denu buddsoddiad

| | |
|---|---|
| Byddwn yn mynd ati i gystadlu am gyfleoedd ariannu trwy grant, a chyn belled ag y sicrheir cyllid o'r fath, yn cyflawni prosiectau seilwaith trafnidiaeth, yn datblygu teithio llesol, yn cefnogi opsiynau trafnidiaeth addas, diogelwch y ffordd a lliniaru llifogydd. | • Erbyn 2020, byddwn yn cwblhau cyfnodau briffio, dylunio neu adeiladu ar y prosiectau a ganlyn:<br>▪ Gwelliannau Cyfnewidfa Trafnidiaeth ym Machynlleth, y Trallwng a Llandrindod Cysylltiadau Cerddwyr a Seiclwyr Crughywel i Langatwg, Tref-y-clawdd i Orsaf Reilffordd, Llanandras, Croesfan a Chyswllt Hafren y Drenewydd. |
| Byddwn yn cefnogi cyflenwi cysylltedd digidol gwell (band eang cyflym iawn) ac yn annog busnesau i fanteisio ar y dechnoleg. | • Nifer gynyddol o gymunedau wedi'u cefnogi trwy gyngor a chymorth ynglŷn ag atebion band eang cymunedol. (cefnogwyd 3 cymuned yn ystod 2018/19). |
| Trwy weithio gyda Chyngor Sir Ceredigion, byddwn yn llunio rhaglen o brosiectau adfywio a seilir ar amcanion y Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio (TRIP), menter a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. | |

### Gwella sgiliau a chefnogi pobl i gael swyddi o ansawdd da

| | |
|---|---|
| Helpu i fynd i'r afael â rhwystrau o ran gwaith, i gefnogi pobl i gael swydd a chyfleoedd gyda gwell cyflog.<br><br>Erbyn 2020, byddwn yn ymchwilio i'r posibiliadau o ran defnyddio ffermydd sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn arloesi, addysgu, coedwigo neu ofal cymdeithasol. | • Erbyn 2022, bydd dros 150 o bobl wedi symud ymlaen at waith o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyflogadwyedd sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor. |

## 2.2 Iechyd a Gofal

**Byddwn yn arwain y ffordd o ran darparu iechyd a gofal effeithiol integredig mewn amgylchedd gwledig**

Mae iechyd a gofal yn flaenoriaeth i bawb, ac mae'n rhaid i ni weithio â phartneriaid i ddarparu gwasanaeth integredig i ddarparu sylfeini gwasanaeth cadarn ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhaid i ni wneud popeth y gallwn i ddarparu cymaint o wasanaethau gofalu â phosibl o fewn ffiniau Powys, ac ar yr un pryd gweithio mewn ffordd sydd wedi'i seilio ar gryfderau i hybu annibyniaeth a hunanofal lle bynnag bo hynny'n bosibl. Trwy gymryd camau yn y maes hwn, rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r deilliannau a ganlyn:

- Rydym yn canolbwyntio ar y pethau sydd o bwys i'r unigolyn
- Mae yna gyflenwad cynyddol o dai â gofal
- Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi i feithrin cydnerthedd ac aros gyda'i gilydd
- Mae timau iechyd a gofal yn cefnogi ei gilydd i gael pethau'n iawn y tro cyntaf
- Mae pobl ifanc, oedolion a theuluoedd yn gallu creu sylfeini iechyd corfforol ac iechyd meddwl da gydol eu hoes
- Mae gwybodaeth, cyngor a chymorth o fewn cyrraedd rhwydd i bobl
- Mae pobl ifanc, oedolion a theuluoedd yn cael gwasanaethau iechyd a gofal sy'n gydgysylltiedig ac yn effeithiol
- Mae gwasanaethau hygyrch a theg yn gweddu i fywydau prysur pobl
- Rydym yn canolbwyntio ar ddiogelu a chefnogi pobl agored i niwed a'r rheini mewn risg
- Mae technoleg yn galluogi pobl i ofalu amdanynt eu hunain yn haws, ac i gadw'n annibynnol
- Mae yna bartneriaethau positif sy'n hybu cydgynllunio a chyd-ddarparu gwasanaethau
- Mae'r amgylchedd ffisegol yn helpu pobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant
- Ym 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn, rydym yn ymdrechu i sicrhau effaith mor bositif â phosibl ar ei lesiant
- Buddsoddir yn sylweddol mewn cyfleusterau a seilweithiau iechyd a gofal integredig
- Rydym yn cydweithio i ddelio â'r prif bethau sy'n achosi clefydau sy'n cyfyngu ar fywydau pobl, yn enwedig canser, clefydau cylchrediad y gwaed, iechyd meddwl a chlefydau anadlu.

## Asesiad cyffredinol o berfformiad:

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod perfformiad yr amcan hwn yn 'dda'. Roedd 7 (78%) allan o'r 9 gweithgaredd dechrau da a oedd ar waith i gefnogi'r amcan hwn yn wyrdd, ac roedd 2 yn ambr. Adroddwyd bod 16 (84%) o'r gweithgareddau byw'n dda / heneiddio'n dda yn wyrdd a 3 yn ambr. Roedd 3 mesur dechrau da a ddefnyddiwyd i fonitro llwyddiant yn wyrdd, roedd 4 yn ambr ac roedd 6 yn goch (nid oedd unrhyw statws coch/melyn/gwyrdd (CMG) ar gael ar gyfer 6 o'r mesurau). Roedd 6 mesur byw'n dda / heneiddio'n dda yn wyrdd (nid oedd unrhyw statws CMG ar gael ar gyfer 2 o'r mesurau adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn).

## Pa wahaniaeth ydym ni wedi'i wneud?

Yn ystod 2018-19, gwnaethom barhau i roi ein Cynlluniau Gwella cynhwysfawr ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant ar waith, a sicrhaodd ein bod yn canolbwyntio ar wella safonau ein gwasanaethau cymdeithasol statudol ac yn ymateb i wendidau sylfaenol y dygodd ein rheoleiddwyr sylw atynt. Bu Bwrdd Gwella a Sicrwydd annibynnol yn goruchwylio gwaith cyflawni'r cynlluniau hyn, gan roi cymorth, her a chyfarwyddyd i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud mewn meysydd â blaenoriaeth. Mae adroddiad manwl o'r enw Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i gyhoeddi ar wahân, ac mae hwn yn manylu ar y cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn.  Gellir gweld yr adroddiad yma.

Isod, ceir amlinelliad o'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau a'r mesurau llwyddiant a gynhwyswyd yng Ngweledigaeth 2025 y cyngor, ac mae'r rhain yn cyfateb i waith cyflawni'r blaenoriaethau ar y cyd rydym yn canolbwyntio arnynt gyda ein partneriaid ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

### Mae ein mesurau llwyddiant yn dangos:

#### Dechrau da

Roedd yna 15 o bobl ifanc a ddaeth i mewn i'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf, a oedd yn llai na'r 18 yn y flwyddyn flaenorol

Roedd 77% o'r plant a'r bobl ifanc a fanteisiodd ar ein gwasanaethau cwnsela'n dweud bod eu llesiant emosiynol a'u llesiant meddwl wedi gwella

Adroddwyd bod 246 o blant yn byw i ffwrdd o'u teuluoedd, gan gynnwys lleoliadau y tu allan i'r sir. Roedd hyn yn gynnydd o'r 204 a gofnodwyd ym mis Chwefror 2018

- Cwblhawyd 86.5% o asesiadau ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol. Mae hyn yn gynnydd o'r 53% ym mis Chwefror 2018, ond yn is na'n targed o 100%.
- Gwnaethom leihau canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn, o 12.7% (ym mis Chwefror 2018) i 8%
- Gwnaethom gynyddu canran yr ymweliadau statudol plant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn amserlen o 55% (ym mis Chwefror 2018) i 90.6%. Roedd hyn yn methu'r targed o 95% o ryw fymryn
- Gwnaethom gynyddu canran yr ymweliadau statudol amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn yr amserlen o 53% (ym mis Chwefror 2018) i 83%, ond ni wnaethom gyrraedd ein targed o 95%
- Cafodd 87% o'r staff gweithredol eu hachosion wedi'u goruchwylio'n fisol. Mae hyn yn gynnydd o'r 55% (ym mis Chwefror 2018), ond gwnaethom fethu ein targed o 95%

Ymgysylltodd 2268 o bobl â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, i gael Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Agorwyd 741 o achosion newydd y Tîm o Amgylch y Teulu yn ystod y flwyddyn

Ar ôl rhaglenni cymorth i rieni, dywedodd 75% o rieni fod problemau ag ymddygiad yn digwydd yn llai aml, o'i gymharu â 89% y flwyddyn flaenorol, a dywedodd 91% bod nifer y problemau ag ymddygiad wedi gostwng, o'i gymharu â 84% y flwyddyn flaenorol

Cafwyd llety i 38% o leoliadau gyda gofalwyr maeth mewnol (heb gynnwys lleoliadau gyda ffrindiau neu berthnasau) sy'n llai na'r flwyddyn flaenorol (47.5% ym mis Chwefror 2018)

Cefnogwyd 6 o blant i ddod o hyd i gartrefi parhaol, gan gynnwys mabwysiadu

Ni wnaethom berfformio cystal ag roeddem wedi gobeithio o ran gostwng nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir, a gynyddodd yn lle o 70 ym mis Chwefror 2018 i 78

Cwblhawyd 62% o asesiadau iechyd cychwynnol o fewn 20 diwrnod, sy'n llai na ffigur y flwyddyn flaenorol o 67%. Roeddem wedi anelu at gyrraedd 100%

Cwblhawyd 76% o asesiadau adolygu iechyd o fewn 6 mis (dan 5 oed)/ 12 mis (dros 5 oed), sy'n llai na ffigur y flwyddyn flaenorol o 97%. Roeddem wedi anelu at gyrraedd 100%

Yn ôl adolygiad blynyddol o'r plant a'r bobl ifanc a ddefnyddiodd wasanaethau gofal cymdeithasol:

- Dywedodd 46% eu bod yn byw mewn cartref roeddent yn hapus ynddo

## Byw'n dda / Heneiddio'n dda

Gwnaethom gynyddu canran yr Oedolion sydd wedi cwblhau cyfnod o ailalluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach neu sydd â phecyn llai o ofal a chymorth, o 70% i 83%

Cynigiwyd asesiad i 621 o ofalwyr a oedd wedi'u nodi allan o 657 (94.52%), o'i gymharu â 321 allan o 361 (88.92%) yn 2017-18

Bu oedi â dychwelyd 1.49 o bobl (fesul 1000 o'r boblogaeth) 75 oed a hŷn i'w cartref eu hunain neu i leoliad gofal cymdeithasol ar ôl triniaeth yn yr ysbyty, o'i gymharu ag 1.78 yn 2017-18

Mae 563 o gleientiaid sy'n oedolion wedi'u cefnogi yn eu cartref eu hunain drwy gyfrwng technoleg gynorthwyol, sy'n gynnydd sylweddol o 390 y flwyddyn flaenorol

Cwblhawyd 95% o ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn amserlenni statudol, sy'n gynnydd o'r 62.33% y flwyddyn flaenorol ac sy'n cyrraedd ein targed arfaethedig ar gyfer y flwyddyn

Darparodd 7.9 o staff (cyfwerth ag amser llawn) wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl (roedd hyn yn 10.5 cyfwerth ag amser llawn yn 2017)

Yn ôl adolygiad blynyddol o'r bobl a ddefnyddiodd wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion:

- Dywedodd 63% o bobl eu bod yn byw yn y cartref iawn iddyn nhw (81% yn 2017)
- Dywedodd 51% o bobl eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan roedd ei angen arnynt (72% yn 2017)
- Dywedodd 92% o bobl eu bod wedi derbyn gofal a chymorth trwy gyfrwng eu dewis iaith (91% yn 2017)
- Dywedodd 63% o bobl eu bod yn teimlo'u bod wedi'u cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'u gofal a'u cymorth (72% yn 2017)
- Dywedodd 72% o bobl eu bod yn fodlon â'r gofal a'r cymorth a gawsant (81% yn 2017)
- Dywedodd 39% o ofalwyr eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi i barhau yn eu rôl ofalu (23% yn 2017)

**ASTUDIAETH ACHOS – Gofal y mae Technoleg yn ei Alluogi (Larwm Canary)**


Un bore dydd Mawrth am 11 o'r gloch y bore, rhybuddiodd neges Canary ni fod Dad yn mynd allan, roedd y monitor ar y drws ffrynt yn canu, a doedd yna ddim symudiad yn y fflat. Cyrhaeddodd darparwr gwasanaeth Cyngor Sir Powys yno ac roedd yn meddwl ei fod wedi mynd am dro ar ei ben ei hun, rhywbeth sydd BYTH yn digwydd rŵan gan fod symud yn achosi poen iddo, felly os nad ydy ei gyfeillachwr 'Ochr yn Ochr' yn galw i fynd ag ef yn y car i'r llyfrgell, **dydy hyn DDIM yn digwydd.**

**Panig llwyr wedyn** – fe wnaethon ni i gyd gyfathrebu â'n gilydd i weld os fedren ni ddod o hyd iddo, gyda'r darparwr gwasanaeth yn gofyn i'r holl ddarparwyr gwasanaeth o gwmpas y dref i fod yn ymwybodol cyn cysylltu â'r heddlu, pan gyrhaeddodd dad yn ôl yn y car gydag Y, y cyfeillachwr (mi welais y drws yn agor ar Canary)...roedd hi wedi dweud wrth dad a'i rheolwr nad oedd hi'n gallu ymweld ar y dydd Iau oherwydd angladd felly roedd hi wedi newid ei hymweliad i ddydd Mawrth...FFIW! Rydyn ni rŵan wedi tynhau ein cadwyn gyfathrebu, rhaid i dad fyth gael y cyfrifoldeb i rannu gwybodaeth, a rhaid i Y i ffonio'r darparwr gwasanaeth yn uniongyrchol.

Heb Canary, allen ni ddim pinbwyntio amser symudiadau, sy'n help mawr i deulu sy'n byw yn yr Alban a thîm gofal yng Nghanolbarth Cymru. Rydyn ni newydd ddod yn ôl ar ôl 8 niwrnod mewn Arddangosfa Bwyd Môr yn Boston UDA. Roeddwn i'n gallu gweld bod dad yn iach ac yn gartrefol – am declyn anhygoel ar gyfer Gofal Cartref! Rydyn i rŵan yn siarad am 'Canary' fel aelod o'r Tîm Gofal. Mae hyn wedi ein helpu ni i ddilyn datblygiad dementia dad gan ei fod adref ar ei ben ei hun rhwng 8pm ac 8am, a Canary sy'n monitro unrhyw sefyllfa i ni.

**Felly beth nesaf?**

Fe fyddwn ni'n cynyddu nifer y cleientiaid sy'n oedolion ac sy'n cael eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain drwy dechnoleg gynorthwyol, o 390 i 780 erbyn 2020.





**ASTUDIAETH ACHOS – Model Help Cynnar**





Daeth B i fy sylw gyntaf pan glywais hi'n crio yn y tŷ bach drws nesaf i'r ystafell Gwasanaeth Ymyriadau Ieuenctid yn yr ysgol. Daeth B i f'ystafell ac fe gawson ni sgwrs. Esboniodd B sut yr oedd ei mam wedi cael diagnosis o ganser marwol. Roedd B yn teimlo bod angen iddi gael cefnogaeth a rhywun y gallai siarad â nhw. Ar ôl siarad â Phennaeth Blwyddyn B, mi wnes i gwblhau Asesiad Plentyn a Theulu ac mi ddechreuais i weithio gyda B. Ar y cychwyn, roedd y gwaith i gyd yn ymwneud â delio â phryderon B ynglŷn â salwch ei mam. Yn anffodus, gwaethygodd cyflwr mam B a bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty. Fodd bynnag, ar yr adeg hon roedd y teulu'n hyderus y byddai mam yn dod yn ôl adref. Ar ôl rhyw ychydig o wythnosau, aethpwyd â mam i'r hosbis. Roedd hwn yn amser anodd iawn i B a'i theulu. Roedd B eisiau mynd i weld ei mam yn yr hosbis, ond bob tro roedd B yn mynd yno, roedd ei chyflwr iechyd dryslyd yn peri gofid.

Mae gan B frawd iau ag awtistiaeth ac fe waethygodd ei ymddygiad mewn ymateb i’r newid yr oedd y teulu’n ei ddioddef. Roedd B yn teimlo’r pwysau ac roedd hi’n teimlo bod yn rhaid iddi ddod yn ffigwr y fam ar yr aelwyd.

Roedd Credu (Gofalwyr Ifanc) yn chwarae rhan hefyd ac yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i B a oedd yn hapus i’r Gwasanaeth Ymyriadau Ieuenctid a Credu rannu gwybodaeth, fel bod modd iddyn nhw gydweithio i sicrhau bod B yn cael pob cefnogaeth. Wrth i B ddod i delerau â salwch ei mam a’r ffaith y byddai ei mam yn eu gadael yn gynt nag oedd y teulu a’r meddygon wedi’i ddisgwyl fe ddechreuodd B fy ngweld i ddwywaith yr wythnos. Roedd y gefnogaeth yn ymwneud â pharatoi at farwolaeth mam B. Bu farw mam B, ac rhyw ychydig o ddyddiau ar ôl ei marwolaeth fe benderfynodd B ei bod hi eisiau bod yn yr ysgol yn hytrach na gyda’r teulu a’r teulu estynedig yn galaru gartre. Yn ystod yr wythnos honno, treuliodd B amser yn yr ystafell Gwasanaeth Ymyriadau Ieuenctid lle y daeth i delerau â’i cholled. Yn y cyfnod hwn, roedd gwaith y Gwasanaeth Ymyriadau Ieuenctid yn ymwneud ag edrych ar alar a chefnogi B â’i hemosiynau.

Ar ôl rhyw ychydig o wythnosau, roedd y gwaith yn canolbwyntio ar y presennol a’r dyfodol. Roedd B yn teimlo y byddai ei mam eisiau iddi roi yn ôl ac edrych i’w dyfodol. Fe benderfynodd B greu rhestr bwced o’r pethau y mae hi eisiau eu gwneud/eu cyflawni yn ei bywyd, lleoedd y byddai hi’n hoffi ymweld â nhw ac i ddysgu iaith newydd (Mandarin).

Fe gynrychiolodd B Credu fel Gofalwr Ifanc. Mae B hefyd wedi gwneud cyflwyniadau am Ofalwyr Ifanc a’i thaith hi yn yr ysgol i bob grŵp blwyddyn. Yn ogystal â chael nifer o gyfleoedd i siarad ledled y sir. Mae rhoi llais i’w theimladau hi fel hyn wedi bod yn therapiwtig i B ac wedi rhoi cryn falchder a phenderfynoldeb iddi helpu gofalwyr ifanc.

**Felly beth nesaf?**

Fe fyddwn ni’n parhau i gryfhau ein gwasanaeth help cynnar ac fe fyddwn ni’n cynyddu cyfran y plant a phobl ifanc sy’n cael cefnogaeth drwy’r gwasanaethau Cymorth Cynnar fel cyfanswm o’r holl atgyfeiriadau i Wasanaethau Plant (bydd llinell sylfaen yn cael ei sefydlu yn Ch1 2019/20).

## Mae cynnydd yn erbyn ein gweithgareddau’n cynnwys:

### Canolbwyntio ar Lesiant a chefnogi pobl trwy gwrs bywyd

- **Menter Gofalwyr Ifanc** – Mae Credu (Gwasanaeth Gofalwyr Powys gynt) wedi defnyddio Cyllid Gofal Integredig i ddatblygu menter Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion a grëwyd ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Chymdeithas y Plant. Nod y fenter yw cynyddu ymwybyddiaeth, nodi a chefnogi Gofalwyr Ifanc yn ein hysgolion ym Mhowys. Bydd y rhaglen yn dathlu’r gwaith da sydd eisoes yn cael ei gwneud mewn rhai ysgolion trwy ai gydnabod ar ffurf gwobr, a bydd yn cefnogi ysgolion eraill i ganolbwyntio mwy ar Ofalwyr Ifanc. Mae gan bob ysgol Arweinydd Gweithredol Gofal Ifanc sydd wedi’i nodi ac sy’n rhan o’r uwch dîm rheoli.
- **Cyfranogiad pobl ifanc ac ymgysylltu â nhw** - Yn ystod 2018, rydym wedi cynnal dau ddigwyddiad ar gyfer y rheini rhwng 8 ac 11 oed o ledled ysgolion cynradd, sydd wedi gweld mwy na 150 o ddisgyblion ysgolion cynradd yn dod at ei gilydd i siarad am Iechyd, Addysg, Diogelwch, Ein Byd. Cafodd y digwyddiadau hyn eu cefnogi’n dda gan bartneriaid fu’n rhedeg gweithdai i wneud y digwyddiadau hyn yn llwyddiannus. Cafwyd y fersiwn derfynol o’r siarter safonau cyfranogiad cenedlaethol ym mis Mai 2018, ac roedd Powys yn un o’r rhai cyntaf yng Nghymru i ymrwymo iddi.
- **Addewid i Blant Powys** – Rydym wedi cydgynhyrchu a drafftio addewid i blant gyda phobl ifanc ym Mhowys. Mae hwn yn manylu ar y disgwyliadau ar gyfer pobl ifanc wrth iddynt ddefnyddio ein gwasanaethau, ac mae’n rhan o ddatblygu Sir sy’n Gyfeillgar i Blant. Bydd y cyngor a’r bwrdd iechyd yn cymeradwyo fersiwn derfynol yr addewid ar ddechrau 2019-20.

- **Peilot Cymorth yn y Cartref** – Yn sgil llwyddiant Menter Cymorth yn y Cartref Rhaeadr Gwy, mae cynllun peilot wedi dechrau yn Nhref-y-clawdd a Llanandras i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl hŷn yn yr ardaloedd, gan eu galluogi i barhau i fyw gartref gyda mwy o gymorth ymarferol ac i gynnal cysylltiadau yn eu cymunedau. Mae gwerthusiad cynnar wedi dangos deilliannau positif ac mae argymhellion wedi'u gwneud i barhau i ddatblygu hyn, gan o bosibl ei estyn i ardaloedd eraill yn y Sir.
- **Cymorth i Ofalwyr** – Mae grŵp llywio gofalwyr newydd wedi'i sefydlu dan ambarél y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n rhoi llais cryfach i ofalwyr. Bydd y grŵp hwn yn penderfynu yn 2019-20 sut y defnyddir cyllid gofal integredig i gefnogi gofalwyr di-dâl. Mae Credu, sef y darparwr cymorth i ofalwyr, wedi parhau i gynnull fforymau gofalwyr a digwyddiadau arbennig, gan gynnwys digwyddiad Llais Gofalwyr a fynychwyd hefyd gan y Cyngor a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae Credu wedi dechrau datblygu pecyn cymorth/llyfryn newydd ar hawliau gofalwyr ac, yn 2019-20, bydd yn darparu hyfforddiant i staff yr awdurdod lleol a hefyd i staff y bwrdd iechyd. Ym mis Mawrth 2019, recriwtiodd y cyngor swyddog i arwain ar faterion gofalwyr. Mae gwaith wedi'i wneud â gofalwyr a Credu i ddatblygu dogfen asesu gofalwyr newydd sy'n diwallu eu hanghenion yn well.

## Cynnig cymorth a chefnogaeth gynnar mewn ffordd integredig i gefnogi pobl i reoli afiechyd a gwella llesiant

- **Model Cymorth Cynnar** – Fel rhan o waith ailstrwythuro gwasanaethau Plant, rydym wedi sefydlu gwasanaeth cymorth cynnar i gynyddu lefel y gefnogaeth y gellir ei ddarparu trwy ymyrraeth gynnar. Gwnaethom adolygu effeithiolrwydd model busnes pawb y Tîm o Amgylch y Teulu a daethom i'r casgliad nad oedd hwn yn ddigonol i ddiwallu anghenion teuluoedd ym Mhowys. Felly rydym wedi dyblu nifer y swyddi FTE o fewn y Gwasanaethau Plant fel rhan o'n gwaith ailstrwythuro Cymorth Cynnar. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi'i symud i'r Gwasanaethau Plant gweithredol sydd wedi golygu bod y tîm nawr yn cefnogi mwy o deuluoedd. Mae hyn hefyd wedi cryfhau'r trefniadau camu i fyny a chamu i lawr rhwng y Tîm o Amgylch y Teulu a gwasanaethau statudol. Rydym wedi penodi Uwch Reolwr sy'n gyfrifol am Gymorth Cynnar, Drws Ffrynt ac Asesiad, ac rydym hefyd wedi penodi rheolwyr gweithredol parhaol i'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar.
- **Ymyl gofal** – Gwnaethom dreialu gwasanaeth cynadledda Grŵp Ymyl Gofal a'r Teulu yn ystod 2018-19. Mae hyn wedi helpu i ddarparu sail ar gyfer ein ffordd o ddarparu gwasanaeth ymyl gofal fel rhan o waith ailstrwythuro'r Gwasanaethau Plant. Gwnaethom benderfynu i ddirwyn y contract â'r darparwr allanol i ben a darparu gwasanaethau'n fewnol, a bydd hyn yn ehangu ein Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd.
- **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** – Mae capasiti allgymorth newydd wedi'i ddatblygu trwy recriwtio i ddwy swydd allgymorth ran-amser y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yng Ngogledd a De Cymru. Cynhaliwyd Diwrnod Hwyl Gwybodaeth i Deuluoedd yn Llanfair-ym-muallt ar 18 Awst 2018, a chydlynwyd hwn gan weithwyr Allgymorth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Roedd deunaw o wahanol sefydliadau'n bresennol a mynychodd 111 o blant, ac roedd aelodau o'r teulu wedi dod gyda tua hanner o'r rhain. Roedd yr adborth oddi wrth y teuluoedd a'r sefydliadau'n bositif. Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud o ran y Cynnig Gofal Plant i Gymru a gwaith cyflwyno hwn fesul cam ym Mhowys.
- **Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod** – Rydym wedi datblygu offeryn rhyngweithiol sydd wedi caniatáu i ni ddadansoddi gwybodaeth ynglŷn â Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod o fewn Powys. Roedd y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar ein poblogaeth Plant Sy'n Derbyn Gofal a Diogelu Plant i lawr i lefel ardaloedd lleol, a bydd yn helpu i ddarparu sail ar gyfer cynllunio gwasanaethau i gefnogi teuluoedd agored i niwed yn well.

## Darparu gofal cydlynus, i sicrhau taw pobl sydd wrth galon gwasanaethau iechyd a gofal a lleihau cymaint â phosib dyblygu a chymhlethdodau rhwng sefydliadau a thimau

- **Gwasanaeth Cwnsela pobl ifanc** –Mae'r gwasanaeth cwnsela cyfun newydd wedi'i ailgomisiynu, gan gynnwys pobl ifanc yn y broses gomisiynu. Bydd hwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth cwnsela ar-lein ac wyneb yn wyneb i bobl ifanc, a'u cefnogi â llawer o fathau o bryderon, gan gynnwys problemau perthynas, problemau teuluol, pryderon ynglŷn ag ysgol, teimlo'n isel, problemau diod a chyffuriau, rhywioldeb, anhwylderau bwyta, hunan-niweidio, bwlio, diffyg hyder neu gamdriniaeth. O fis Hydref i fis Rhagfyr 2018, mewngofnododd 285 o bobl ifanc i'r gwasanaethau ar-lein a mynychodd 211 o bobl ifanc apwyntiad cwnsela wyneb yn wyneb.
- **Iechyd Meddwl** – Gwnaethom dreialu cynllun grantiau bach yn 2018/19 i gefnogi grwpiau cymunedol i hybu iechyd a llesiant meddwl positif. Gwnaethom dderbyn 107 o geisiadau oddi wrth amrywiaeth o grwpiau a llwyddodd 16 o brosiectau i dderbyn cyllid. Roeddem hefyd yn gallu cefnogi ceisiadau aflwyddiannus a'u cyfeirio at ffynonellau cyllid posibl eraill.
- **Cynllun Neges mewn Potel** – Gwnaethom gyflwyno'r cynllun newydd hwn, sy'n syniad syml a allai arbed amser i dimau gwaith cymdeithasol a'r gwasanaethau brys ddod o hyd i wybodaeth hanfodol pe bai rhywun yn cael codwm neu'n dod yn sâl gartref. Gosodir potel blastig fach yn yr oergell â'ch manylion personol wedi'u rholio y tu mewn iddi. Yna, gosodir sticer â chroes werdd ar yr oergell i ddwyn sylw at y ffaith fod yna wybodaeth hanfodol y tu mewn iddi. Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn cydweithio â'r Groes Goch ym Mhowys i ddosbarthu'r poteli.
- **Timau amlddisgyblaeth** – Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys o ran timau amlddisgyblaeth.
- **Gofal Cartref** – Yn ystod 2018-19, roedd yna bwysau o fewn y farchnad gofal cartref a arweiniodd at oedi wrth drosglwyddo gofal. Dychwelodd darparwyr gofal cartref eu gwaith oherwydd pwysau ariannol a effeithiodd ar yr amser roedd yn ei gymryd i ddod o hyd i becynnau gofal i unigolion. Fodd bynnag, tuag at ddiwedd y flwyddyn daeth darparwyr newydd i mewn i'r farchnad a gafodd effaith bositif ar y niferoedd a oedd yn aros am ofal cartref, yn enwedig yng ngogledd a dwyrain y sir. Mae'r cyngor a darparwyr eraill yn parhau i ddarparu 11,000 awr o ofal cartref yn llwyddiannus pob wythnos. Yn 2019-20, bydd y cyngor yn parhau i weithio gyda darparwyr a hefyd yn edrych ar rai atebion arloesol i gwtogi ar niferoedd yr achosion o oedi â throsglwyddo gofal, yn enwedig yn ystod cyfnodau o bwysau'r Gaeaf.
- Mae peilot o system electronig newydd ar gyfer prynu gofal cartref o'r enw **System Prynu Deinamig** wedi dechrau yn Ystradgynlais. Bydd diben y system newydd yn helpu i sicrhau bod ein cronfa ddarparwyr yn gallu tyfu'n gynaliadwy ac yn hyblyg i ddarparu gofal cartref yn ogystal a sicrhau bod y Cyngor yn cael y gwerth gorau o ran cost ac ansawdd y gwasanaeth tra'i fod yn darparu cyfle cyfartal i ddarparwyr allanol. Caiff y peilot ei werthuso yn 2019-20 cyn gwneir unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'r camau nesaf. Mae yna dal bryderon ynglŷn â chynaliadwyedd darparwyr gofal cartref a bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda nhw i ddod o hyd i atebion yn ystod 2019-20.

## Datblygu gweithlu ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau bod y bobl iawn yn y swyddi iawn, sy'n gallu cyflenwi gofal o'r safon orau bosib.

- **Gwasanaeth Anabledd Integredig** – Gwnaethom sefydlu'r Gwasanaeth Anabledd Integredig i gynnwys timau amlasiantaeth gyda'i gilydd mewn un lle ag un strwythur rheoli. Mae proses brysbennu Gwasanaeth Anabledd Integredig wedi'i gychwyn. Mae'r hyn a oedd yn gyfarfodydd ffisegol misol nawr yn gyfarfodydd wythnosol sy'n defnyddio Skype lle bo angen. Mae hyn yn golygu bod plant ag anableddau neu anghenion iechyd cymhleth yn cael cyngor a gweithredu cyflymach a mwy deallus.

- **Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Gwasanaethau Oedolion** – Mae strategaeth y gweithlu, dull recriwtio a chynllun y gweithlu wedi'u datblygu a chaiff y rhain eu rhoi ar waith yn 2019-20. Caiff y cynllun ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y gwasanaeth. Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi gweithio'n agos â'r Rheolwr Cynllunio'r Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Cyd sydd newydd ei benodi i gasglu data ynghyd a fydd yn darparu sail ar gyfer strategaeth i'r gweithlu ehangach ym Mhowys, sy'n cynnwys, e.e. iechyd, gofal cymdeithasol, y sectorau gwirfoddol ac annibynnol. Bydd y gwaith y maent wedi ymgymryd ag ef hefyd yn darparu sail ar gyfer strategaeth y gweithlu genedlaethol i Gymru, y mae egwyddorion Cymru Iachach yn wraidd iddi.
- **Arweinyddiaeth** – Er mwyn darparu arweinyddiaeth barhaus ar lefel uwch, dechreuodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion newydd ym mis Ebrill 2019, ar ôl i'r swyddog blaenorol adael. Hefyd, ar ôl ymddeoliad, mae 2 Uwch Reolwr newydd wedi dechrau swyddi ym meysydd Iechyd Meddwl ac Anableddau a Phobl Hŷn. Ym maes Iechyd Meddwl, mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi'i chael hi'n anodd recriwtio a chadw Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy ac maent yn parhau i edrych ar sut y gellir datrys y broblem hon.
- **Meithrin yn fewnol** – Yn ystod 2018-19, mae'r cyngor wedi parhau i gefnogi gwaith datblygu staff presennol. Mae gan y Gwasanaethau Oedolion 5 myfyriwr sy'n gwneud Gradd y Brifysgol Agored mewn Gwaith Cymdeithasol, ac mae pob un o'r rhain ar Lefel 2 eu gradd ac wedi dechrau eu cyfle dysgu arfer. Mae yna hefyd 4 aelod o staff sy'n gwneud eu cymhwyster asesydd arfer. Darparodd Tîm Anabledd y Gwasanaethau Oedolion leoliad Lefel 3 i fyfyriwr MA o Gaer, sydd wedi cael cyflogaeth barhaol yn y tîm ar ôl pasio ei radd.
- **Sgyrsiau Beth Sy'n Bwysig** – Mae'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant bod Gofal Cymdeithasol Oedolion yn canolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r unigolyn. Er mwyn cefnogi'r gweithlu i ganolbwyntio ar hyn wrth siarad â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, mae staff wedi dilyn hyfforddiant mewn cydgyfathrebu sydd wedi'i seilio ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Mae hyfforddiant ar y cyd hefyd wedi'i wneud gyda Credu i gefnogi eu tîm o ran eu modd o drin gofalwyr, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o gydgyfathrebu. Mae'r Gwasanaethau Oedolion hefyd wedi hyfforddi grŵp o swyddogion i fod yn fentoriaid i gefnogi staff wrth iddynt fynd ati i gydgyfathrebu a magu dull o weithredu wedi'i seilio ar gryfderau.
- **Ymgysylltu â Staff a Phartneriaid** – Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi sefydlu cyfarfodydd cynrychiolwyr gweithwyr sy'n rhoi cyfleoedd i friffio staff yn uniongyrchol ynglŷn â materion a phynciau cyfredol o fewn y gwasanaeth. Gwahoddwyd staff i gyfrannu at arolwg staff, a chaiff y canlyniadau eu dadansoddi a'u trafod mewn cynhadledd staff ym mis Gorffennaf 2019. Parheir i ymgysylltu â phartneriaid trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac yn ôl y galw o ran datblygiadau'r gwasanaeth. Mae'r Gwasanaethau Oedolion hefyd wedi parhau i ymgysylltu â fforymau pobl ag anabledd dysgu, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â chymunedau lle y cynigiwyd newidiadau sylweddol, fel gwasanaethau dydd.

### Creu amgylchedd arloesol sy'n hyrwyddo arloesi, ymchwil a datblygiad ar draws holl agweddau ar y system iechyd a gofal

- **Rhaglen Llesiant Gogledd Powys (Canolfan Wledig Ranbarthol yn y Drenewydd)** – Mewn partneriaeth â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, dechreuodd y gwaith paratoi ar gyfer cynllunio model gofal newydd yng Ngogledd Powys. Mae hyn yn cynnwys Asesiad o Iechyd a Llesiant y Boblogaeth ar gyfer gogledd Powys, mapio gwasanaethau sy'n bodoli a gwaith cychwynnol ynglŷn â modelu'r galw a'r capasiti o amgylch cyfleoedd posibl i ddod â gwasanaethau gofal iechyd cynlluniedig yn agosaf at gartref. Mae safle a ffefrir ar gyfer cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf hefyd wedi'i nodi yn y Drenewydd. Mae'r cyngor a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd wedi llwyddo i dderbyn £2.55m o gyllid o Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru i gefnogi gwaith datblygu ffyrdd trawsnewidiol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

- **Tai â Chymorth** – Yn sgil llwyddiant prosiect tai â gofal ychwanegol yn y Drenewydd, mae cyfeiriad strategol ar gyfer ardaloedd eraill yn y sir yn cael ei adolygu i nodi cyfleoedd yn y dyfodol.  Mae safleoedd wedi'u nodi yn Ystradgynlais a'r Trallwng a fydd yn cynyddu capasiti gofal ychwanegol yn y sir erbyn 2020; bydd y cyngor yn gweithio gyda phartneriaid allanol i hyrwyddo'r newid hwn.  Mae gwaith wedi dechrau ar 3 uned llety yn ardal Aberhonddu, a bydd un o'r rhain yn llety i oedolyn ifanc sy'n symud o'r Gwasanaethau Plant i'r Gwasanaethau Oedolion.
- **Cae Glas** – Mae gwaith wedi parhau gyda phartneriaid ar ddatblygu llety arbenigol i gefnogi unigolion ag anabledd dysgu.  Mae 6 o unigolion wedi'u nodi fel preswylwyr posibl yn y dyfodol ac mae cynlluniau unigol yn cael eu datblygu i'w cefnogi a'u galluogi i fyw yn y gymuned o'u dewis.  Mae'r prosiect yng Nghae Glas yn cefnogi unigolion i ddychwelyd i'r sir, a bydd hefyd yn osgoi rhai ohonynt yn gorfod gadael i fyw mewn ardaloedd eraill.
- **Rhannu Bywydau** – Cynllun lleoliadau oedolion yw Rhannu Bywydau, lle mae gofalwyr yn agor eu cartrefi a'u bywydau teuluoedd i gynnwys person ifanc neu oedolyn y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt i fyw yn dda. Mae gan y cyngor 21 o aelwydydd gofalwyr sy'n rhannu bywydau ac yn ystod 2018-19 gwnaethom gefnogi 29 o unigolion. Bydd yn parhau i gynyddu capasiti gofalwyr o fewn Gwasanaeth Rhannu Bywydau yn 2019-20.  Cafodd Rhannu Bywydau sylw yn newyddion ITV, pan gyfwelwyd gofalwr a defnyddiwr gwasanaeth o Bowys.

https://www.itv.com/news/wales/2019-04-21/charity-urges-more-people-to-open-up-their-homes-to-those-in-need/

https://www.youtube.com/watch?v=sO_7whSfDhI

- **Ymchwil a Datblygu** – Er mwyn helpu i ddarparu sail ar gyfer cynllunio gwasanaethau oedolion yn y dyfodol, rydym wedi ymgymryd ag 'Adolygiad System Gyfan' sy'n mapio'r siwrnai y mae oedolion yn mynd arni ar hyn o bryd trwy'r system gofal cymdeithasol. Trwy'r dadansoddiad, rydym eisiau nodi sut y gallwn wneud y broses yn fwy effeithlon a chanolbwyntio mwy ar y dinesydd.  Yng Ngogledd y sir, cwblhawyd prawf o gysyniad yn ASSIST a oedd yn edrych ar ymateb system gyfan i anghenion ac asedau unigolyn trwy ddull amlddisgyblaeth o weithredu.  Caiff y prawf o gysyniad hwn ei werthuso yn 2019-20.

## Datblygu atebion digidol fydd yn galluogi darpariaeth iechyd a gofal cynaliadwy a mwy effeithiol

- **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** - Er mwyn darparu dull system gyfan o weithredu o ran gwybodaeth, cyngor a chymorth, a rhoi mwy o gyfleoedd i bobl dderbyn gwybodaeth, mae gwaith wedi dechrau i edrych ar opsiynau mewn mannau gwybodaeth sy'n bodoli, fel gwasanaethau llyfrgell, a ddylai leihau effaith defnyddio ASSIST yn ddiangen.  Mae gwelliannau technolegol wedi'u gwneud rhwng Infoengine a Dewis Cymru, sy'n golygu bod modd rhannu gwybodaeth rhwng yn ddwy system wahanol. Mae hyn yn enghraifft o gydweithredu ymarferol rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda gwybodaeth hanfodol ar gael yn rhwydd i unigolion.  Mae Cysylltwyr Cymunedol yn gweithio yn y gymuned ac yn cefnogi ASSIST i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth cyn gynted â phosibl.
- **Tîm Gwybodaeth a Chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (ASSIST)** -  Mae gwasanaeth drws ffrynt newydd ei lansio sydd wedi disodli Llinell Uniongyrchol Powys, ac mae rhif ffôn newydd wedi'i gyflwyno ar gyfer oedolion y mae angen gwybodaeth, cyngor a chymorth arnynt o ran gofal cymdeithasol oedolion.  Rôl allweddol y swyddogion cyswllt o fewn tîm ASSIST yw darganfod "beth sy'n bwysig" i'r person neu ei ofalwr, a nodi'r deilliant y maent eisiau ei gyflawni. Mae'r tîm yn gweithio'n unol â fframwaith blaenoriaethu i asesu atgyfeiriadau ac mae ganddynt

- broses glir ar gyfer atal a chydgynhyrchu â gwasanaethau'r trydydd sector. Mae yna lwybrau clir i'w dilyn ar gyfer unrhyw bryderon a godir ynglŷn â diogelu. Mae ffurflen asesu gofalwyr a ffurflen ymholiadau ar-lein newydd hefyd wedi'u cyflwyno.
- **WCCIS** – Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) wedi'i rhoi ar waith o fewn Gofal Cymdeithasol Oedolion ond mae gwaith datblygu'n dal i fynd rhagddo i'w gwneud yn fwy effeithiol. Pan roddir WCCIS ar waith yn llawn ledled Cymru, fe fydd yn helpu i chwalu rhwystrau a achosir oherwydd bod gwahanol sefydliadau'n defnyddio systemau TG gwahanol, trwy storio gwybodaeth bwysig yn ddiogel, sef gwybodaeth sy'n ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau fel nyrsio cymunedol, ymweliadau iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Bydd cofnod iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn sicrhau mai dim ond unwaith y bydd yn rhaid i unigolion adrodd eu stori.
- **Gofal y Mae Technoleg yn ei Alluogi**. Mae hyn wedi parhau i ddatblygu, gan dreialu gwasanaethau newydd. Mae nifer yr unigolion unigryw a gefnogwyd a'r presgripsiynau gofal y mae technoleg wedi'u galluogi wedi parhau i gynyddu yn unol â'r targedau. Mae cyfrifiannell osgoi costau wedi'i ddatblygu i amcangyfrif y costau rhagamcanol y gellir eu hosgoi yn sgil buddsoddi mewn gofal y mae technoleg yn ei alluogi. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweld galw a llwyddiant mawr o ran cefnogi gofalwyr di-dâl i ofalu am eu hanwyliaid â dementia yn eu cartrefi am hirach, gyda rhai yn osgoi mynd i gartref gofal yn gyfan gwbl neu yn gohirio'r angen am hyn. Mae adborth sydd wedi'i gasglu wedi parhau i ddarparu tystiolaeth bod unigolion a gofalwyr di-dâl yn dweud eu bod wedi cael deilliannau positif. Un enghraifft o hyn yw lle mae merch wedi gallu cefnogi ei thad o bell, er eu bod yn byw mewn gwahanol ardaloedd yn y sir. Bydd treial o Padbots yn dechrau yn 2019-20 a fydd yn galluogi gweithwyr cymdeithasol i rith-asesu adolygiadau gyda chymorth robot; bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn gallu gweld a siarad â'r gweithiwr cymdeithasol trwy sgrin.
- **Therapi Galwedigaethol** – Er bod y rhestr aros am therapi galwedigaethol yn sylweddol yn ne'r sir, mae gwaith wedi dechrau i gwtogi ar hon â'r nod o beidio â bod ag amser aros am wasanaeth. Mae'r astudiaeth achos a ganlyn yn enghraifft o sut y cafodd unigolyn ei chefnogi trwy'r gwasanaeth i aros yn annibynnol yn ei chartref ei hun.

https://www.youtube.com/watch?v=QkkoJUcsyHA


## Gweithio mewn partneriaeth i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal a gwella llesiant

- **Plant yn Gyntaf** – Mae prosiect o'r enw 'Codi Dyheadau' yn mynd rhagddo mewn ymateb i adborth cymunedol ynglŷn â dyfodol ar gyfer pobl ifanc yn y Drenewydd. Sesiwn fisol yw hon, lle mae pobl ysbrydoledig leol yn gwneud cyflwyniad am eu profiad o waith i ddisgyblion Blwyddyn 6 ac yn siarad am yr hyn y maent yn ei wneud.
- **Cymorth i Blant Sy'n Derbyn Gofal** – Mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid, wedi datblygu a chytuno ar 'Fframwaith Strategol Plant Sy'n Derbyn Gofal 2018-2023' i gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd a lleihau'r angen i blant dderbyn gofal, trwy ganolbwyntio ar wasanaethau sy'n darparu help amserol, adeiladu ar gryfderau teulu ac atal problemau mwy rhag codi.
- **Cynnig Rhagweithiol** – Mae'r tîm ASSIST yn darganfod pa iaith sy'n well gan unigolion ei defnyddio wrth y drws ffrynt. Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi ei chael hi'n anodd recriwtio siaradwyr Cymraeg i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth o hyd i ofynion sgiliau ieithyddol bob tro y maent yn recriwtio, ac mae hyfforddiant hefyd ar gael i'r staff presennol ddilyn hyfforddiant yn y Gymraeg.
- **Cefnogi Pobl** – Mae'r Gwasanaeth Cymorth Fel y Bo'r Angen wedi'i ailgomisiynu'n llwyddiannus a bydd yn cefnogi'r model cymorth cynnar ac atal, a dylai hyn effeithio'n bositif yn y dyfodol ar osgoi'r galw am ofal cartref.
- **Taliadau Uniongyrchol** – Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i hybu defnyddio taliadau

·uniongyrchol. Tuag at ddiwedd 2018-19, dechreuwyd prosiect â darparwr y Cynllun Cymorth Taliadau Uniongyrchol i nodi cynorthwywyr personol cofrestredig sydd â chapasiti dros ben. Roedd hyn yn benodol mewn ardaloedd lle nad oedd gofal cartref ar gael, gan roi cyfle i unigolion ddefnyddio taliad uniongyrchol i brynu eu gofal eu hunain a chaniatáu iddynt fyw yn annibynnol. Gan ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth yn y ganolfan ddydd yng Nghrughywel, mae gwaith wedi dechrau i weld a ellid eu cefnogi'n well trwy daliadau uniongyrchol i fynychu grwpiau cymdeithasol lleol.

- **Diogelu** – Mae canran yr ymholiadau diogelu oedolion a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol wedi cynyddu gydol y flwyddyn i aros yn gyson yn uwch na 90%. Mae'r cyngor yn cynnal cyfarfodydd atgyfeirio a sgrinio lle rhoddir blaenoriaeth i'r holl atgyfeiriadau, gan asesu risg a'u dyrannu o fewn 24 awr. Mae'r cyngor yn parhau i weithio ag asiantaethau sy'n bartneriaid i sicrhau bod trafodaethau ynglŷn â diogelu yn gadarn. Mae'r cyngor yn gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac mae wedi cefnogi gwaith datblygu a gweithredu'r ddogfen Trothwy Diogelu. Pwrpas y ddogfen ganllaw hon yw sicrhau bod yna ymateb rhanbarthol, ar y cyd i gadw pobl yn ddiogel. Lansiwyd y ddogfen mewn cynhadledd ddiogelu amlasiantaeth lwyddiannus yn ystod wythnos Diogelu Genedlaethol o'r enw "gweld rhywbeth ........dywedwch rywbeth".
- **Comisiynu'r Trydydd Sector – Eiriolaeth** – Yn sgil ymarfer tendro llwyddiannus i fynd i'r afael â gofynion statudol ac anstatudol o ran eiriolaeth mewn un contract, mae Canolfan Byw Annibynnol DEWIS wedi'u comisiynu i ddarparu Gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ar gyfer pob oedolyn, heblaw am y rheini sy'n derbyn eiriolaeth iechyd meddwl statudol. Bydd hyn yn golygu newid y ffordd o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i oedolion ym Mhowys o 1af Ebrill 2019.
- **Comisiynu Cartrefi Gofal –** Mae'r Cyngor wedi comisiynu darparwr newydd i redeg y 12 cartref gofal y mae'r cyngor yn berchen arnynt a Glan Irfon, sef cyfleuster gofal canolraddol integredig ar y cyd â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'r darparwr newydd, Shaw Healthcare, yn gwmni yng Nghymru sydd â nod i ddarparu'r math o ofal y byddem eisiau ei gael i'n hanwyliaid. Bwriedir hefyd moderneiddio'r ddarpariaeth a datblygu gwasanaethau gyda'r darparwr newydd. Mae gwaith ar y gweill gyda BUPA, Shaw Healthcare ac Arolygiaeth Gofal Cymru i alluogi trosglwyddo'r gwasanaeth yn llyfn ac yn ddiogel ar 1af Mehefin 2019. Mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi adolygu gofynion ac mae swydd a ariennir ar y cyd wedi'i chreu a fydd yn cael ei hysbysebu ym mlwyddyn ariannol newydd 2019-20.

## Ein cyfraniad at y 7 Nod Llesiant:




## Faint y gwnaethom ei arbed/ei wario yn 2018-19?

**Prif fuddsoddiadau cyfalaf:**

- £172k ar Gyfarpar Cymunedol i alluogi cleientiaid i fyw yn eu cartrefi eu hunain am hirach, ac i hwyluso eu rhyddhau o'r ysbyty.
- £126k ar Ailwampio Safle Camddefnyddio Sylweddau yn y Trallwng

**Prif arbedion:**

- Arbedwyd £1.468m, a oedd £0.037m dros y targed, oherwydd addasu pecynnau gofal i'r maint iawn, ymyrryd cynnar ac atal e.e. Ailalluogi, gofal y mae technoleg yn ei alluogi a chynlluniau gofal seiliedig ar ddeilliannau.

## Y Diogelwr Taith

Ble ydym ar y daith i gyfrannu cymaint â phosibl at y 7 nod llesiant?

| Yn gwthio'r cwch i'r dŵr | Yn gwneud newidiadau syml | Yn bod yn fwy mentrus ✓ | Yn berchen ar ein huchelgais | Arwain y ffordd |
|---|---|---|---|---|

### Diweddariadau i'n cynllun a gweithgareddau gwella allweddol ar gyfer 2019 ymlaen

Yn ystod 2018/19, rydym wedi diweddaru ein Cynlluniau Gwella Gwasanaethau Plant ac Oedolion sy'n canolbwyntio ar wella safonau ein gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol a sicrhau bod ein plant a'n hoedolion mwyaf agored i niwed yn ddiogel. Byddant yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:

| Gweithgaredd – Beth y byddwn yn ei wneud? | Sut y byddwn yn mesur llwyddiant? |
|---|---|
| **O ran Gwasanaethau Plant, byddwn yn:** | |
| Canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal gan sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn i gadw teuluoedd gyda'i gilydd, lle bo'n bosibl a lle bo plant yn ddiogel. Ymyrryd cyn gynted â phosibl i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn dioddef niwed.<br><br>Gweithio gyda theuluoedd yn hytrach na gwneud iddynt. Gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gydgynhyrchu cynlluniau a fydd yn achosi'r newidiadau sydd eu hangen ar blant mor gyflym â phosibl.<br><br>Darparu a chomisiynu cymysgedd hyblyg a fforddiadwy o leoliadau safon uchel i blant sy'n derbyn gofal i ddiwallu amrediad eang o ran anghenion ac amgylchiadau, gan gadw plant mor agos at gartref â phosibl.<br><br>Sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r plant hynny sydd yn ein gofal. Trefnu cymorth arbenigol a rhianta da, gan roi llwybrau wedi'i gynllunio'n glir iddynt trwy ofal at fyd oedolion. | • Llesiant emosiynol a meddyliol gwell ymhlith plant a phobl ifanc sy'n defnyddio ein gwasanaethau cwnsela (llinell sylfaen i'w phennu)<br>• Bydd canran yr asesiadau sy'n cael eu cwblhau ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol yn 90% neu'n uwch erbyn 2019/20.<br>• Bydd Plant Sy'n Derbyn Gofal sydd â thri neu fwy o leoliadau mewn 12 mis yn unol â chyfartaledd Cenedlaethol Cymru, sef 10%, neu'n is erbyn 2019/20.<br>• Bydd canran ymweliadau statudol plant sy'n derbyn gofal a gynhelir yn unol â'r amserlen yn 95% neu'n uwch erbyn 2019/20.<br>• Bydd canran ymweliadau statudol diogelu plant a gynhelir yn unol â'r amserlen yn 95% neu'n uwch erbyn 2019/20.<br>• Bydd canran y staff gweithredol sy'n derbyn goruchwyliaeth achosion yn fisol yn 85% neu'n uwch erbyn 2019/20.<br>• Cyfran y plant a'r bobl ifanc y mae'r gwasanaethau Cymorth Cynnar yn eu cefnogi fel cyfanswm o'r holl atgyfeiriadau at y Gwasanaethau Plant (llinell sylfaen i'w phennu yn Ch1 2019/20).<br>• Bydd gwelliannau mewn deilliannau i blant a phobl ifanc, sy'n cael eu mesur trwy ddefnyddio Arfau Pellter a Deithiwyd cydnabyddedig, yn 80% erbyn 2019/20. |

- Bydd canran y lleoliadau sy'n cael eu trefnu gyda gofalwyr maeth mewnol yn 70% neu'n fwy erbyn 2019/20.
- Bydd nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir yn 70 neu'n llai erbyn 2019/20.
- Bydd canfyddiadau plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gofal a chymorth yn gwella wrth ymateb i'r arolwg blynyddol.
- Bydd canran yr asesiadau sy'n cael eu cwblhau nad ydynt yn galw am unrhyw gamau pellach yn 40% neu'n llai erbyn 2019/20.

## O ran Gwasanaethau Oedolion, byddwn yn:

Hybu annibyniaeth a hunanofal lle bo'n bosibl. Gweithio ochr yn ochr â phartneriaid, yn enwedig iechyd, i sicrhau bod unigolion ag anghenion gofal cymhleth yn cael yr asesiad sydd ei angen arnynt dan ddeddfwriaeth , a sicrhau bod lleoliadau priodol ar gael i ddiwallu eu hanghenion os oes galw am hynny.

Cefnogi oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt. Sicrhau bod asesiad amserol a gofal a chymorth ar y lefel iawn ar gael i oedolion y mae angen y cymorth hwn arnynt.

Darparu gofal a chymorth i ofalwyr a fydd yn galluogi eu cefnogi i barhau â'u rôl ofalu.

Nodi risg yn bositif ac yn effeithiol wrth ddarparu cymorth i oedolion trwy wneud yn siŵr bod eu hanghenion yn cael eu hasesu'n fanwl gywir a'u diwallu'n effeithiol, gyda deilliannau positif iddyn nhw. Defnyddir dull o weithredu seiliedig ar gryfderau i wneud hyn, a bydd yn galw am ailgysylltu â'u rhwydweithiau cymunedol a chefnogi gofalwyr i barhau i ofalu am eu perthynas. Wrth asesu risg, mae angen ystyried gallu'r unigolyn i wneud penderfyniadau penodol o ran eu bywydau, ac mae angen gwneud penderfyniadau'n unol â deddfwriaeth o ran budd gorau lle ystyrir bod hynny'n briodol.

Darparu a chomisiynu cymysgedd hyblyg a fforddiadwy o wasanaethau cymorth o safon uchel i oedolion y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw

- Nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth ag anableddau dysgu wedi symud ymlaen o leoliad gofal preswyl i opsiwn cymorth cymunedol annibynnol a hyblyg (y tu allan i Bowys a'r tu mewn i Bowys).
- Byddwn yn cynyddu canran yr Oedolion sydd wedi cwblhau cyfnod ailalluogi ac sydd heb becyn cymorth a gofal 6 mis yn ddiweddarach, neu becyn gofal a chymorth is, o 70% i 80% erbyn 2019
- Byddwn yn dyblu nifer y gofalwyr rydym wedi eu hadnabod ac sy'n cael cynnig asesiad o 150 i 300 erbyn 2023
- Lleihad yn nifer y bobl (fesul 1000 y boblogaeth) 75 oed a throsodd sy'n dioddef o oedi wrth ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain neu i leoliad gofal cymdeithasol yn dilyn cyfnod o driniaeth yn yr ysbyty. (1.5 yn 2017/18)
- Cynnydd yn nifer y cleientiaid sy'n oedolion sy'n derbyn cymorth yn eu cartref eu hunain trwy dechnoleg gynorthwyol o 390 i 780 erbyn 2020
- Cynnydd yng nghanran yr ymholiadau diogelu oedolion sy'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlen statudol o 62.33% i 95% erbyn 2021
- Cynnydd fesul blwyddyn yn nifer y staff sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd integredig/yn yr un lle i bobl
- Gwella canfyddiadau pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol sy'n ymateb i arolwg blynyddol mewn perthynas â'r datganiadau canlynol:
  - Pobl yn dweud eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw (81% yn 2017)
  - Pobl yn dweud eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu gyngor cywir pan roedd ei

a'u gofalwyr, i ddiwallu amrywiaeth eang eu hanghenion a'u hamgylchiadau unigol.

angen (72% yn 2017)

- Pobl yn dweud eu bod wedi derbyn gofal a chymorth drwy eu dewis iaith (91% yn 2017)
- Pobl yn dweud eu bod wedi cyfrannu at unrhyw benderfyniadau am eu gofal a chymorth (72% yn 2017)
- Pobl sy'n fodlon gyda'r gofal a chymorth a dderbyniwyd (81% yn 2017)
- Gofalwyr yn dweud eu bod yn derbyn cymorth i barhau â'r rôl gofal (23% yn 2017)

Rydym hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a byddwn yn parhau i chwarae ein rhan mewn cyflawni'r blaenoriaethau y manylir arnynt yn ein Cynllun Ardal ar y Cyd. Amlinellir isod y blaenoriaethau y mae'r cyngor yn cyfrannu atynt:

### Canolbwyntio ar Lesiant

- **Datblygu Cymunedol** – Gweithio gyda chymunedau cadarn lleol, sydd â chysylltiadau cryf, i ddatblygu a chryfhau sgiliau ac adnoddau cymunedol sy'n cefnogi llesiant pobl.
- **Cefnogi Gofalwyr Di-dâl** – Sicrhau llesiant gofalwyr di-dâl cyn, yn ystod ac ar ôl gorffen gofalu trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, addysg atodol, cyfleoedd i fagu sgiliau a hyfforddiant mewn perthynas â gwaith, gofal seibiant a chymorth yn y gymuned.
- **Gwella Iechyd ac Atal** – Galluogi a chefnogi pobl i wneud penderfyniadau a gweithredu er mwyn gwella iechyd a llesiant, ac i osgoi neu leihau afiechyd, er enghraifft, trwy roi'r gorau i ysmygu neu gamddefnyddio sylweddau, neu drwy gynyddu gweithgarwch corfforol.

### Darparu Gofal Cydlynus

- **Iechyd Meddwl** – Ar draws pob haen, o hyrwyddo iechyd i wasanaethau arbenigol sy'n canolbwyntio ar wella'r trefniadau gweithio integredig ac ar lesiant, cymorth cynnar a chefnogaeth i bobl o bob oed.
- **Cydlynu Gofal** – Datblygu timau amlddisgyblaeth integredig / yn yr un lle yn unol â'r Canolfannau Rhanbarthol a hybiau cymunedol.

### Datblygu gweithlu ar gyfer y dyfodol

- **Model Staffio** – Bydd manteisio i'r eithaf ar rôl y gweithlu ar draws pob sector, gan gynnwys gofalwyr di-dâl trwy ddull o weithio integredig yn sylfaenol i gyflenwi'r model gofal newydd. Caiff modelau arloesol newydd eu seilio ar rolau amlsgiliau a generig gan sicrhau symud tuag at atal ac ymyrraeth gynnar.
- **Ymgysylltu â Staff a Phartneriaid** – Datblygu dull o weithio ar y cyd o ran defnyddio gwybodaeth, sgiliau a phrofiad cyffredin ein staff a'n rhanddeiliaid allweddol, i hysbysu a datblygu'r gwaith a wnawn.

## Amgylcheddau Arloesol

- **Canolfan Wledig Ranbarthol yn y Drenewydd** – Byddwn yn ystyried yr opsiynau i ddatblygu Canolfan Wledig Ranbarthol yn y Drenewydd i ddelio gyda phroblemau'n ymwneud ag adeiladau sy'n heneiddio, i gefnogi anghenion poblogaeth y dyfodol a lliniaru yn erbyn y posibilrwydd o symud gwasanaethau i ffwrdd o ogledd Powys dan y rhaglen Barod at y Dyfodol.
- **Hyb Cymunedol Dwyrain Sir Faesyfed** – Adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth yn Nwyrain Sir Faesyfed yn erbyn model gofal integredig ac asedau hybiau cymunedol sy'n bodoli.
- **Datblygu Hyb Cymunedol** – Mynd ati i adolygu asedau cymunedol yn ogystal â'r ddarpariaeth gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli yn erbyn anghenion poblogaeth y dyfodol er mwyn adnabod ardaloedd posibl eraill i ddatblygu hybiau cymunedol.
- **Tai â Chymorth** – Datblygu llety addas ar gyfer pobl ifanc, pobl ag anabledd a phobl hŷn sy'n eu galluogi i gael mynediad at wasanaethau sylfaenol, meithrin cysylltiadau da gyda chymdogion ac eraill, ac aros yn annibynnol.
- **Arloesi, Gwella, Ymchwil a Datblygiad** – Byddwn yn datblygu ein sylfaen dystiolaeth, yn gwella ein gallu i fesur effaith a cheisio adnabod, rhannu ac ymwreiddio arfer da / arloesol.

## Atebion Digidol

- **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA)** – Parhau i ddatblygu IAA gan gynnwys y Cysylltwyr Cymunedol i alluogi mynediad cyflym at gymorth yn y gymuned leol.
- **Gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)** – Parhau i weithredu system WCCIS ar draws Powys i gefnogi cydlynu gofal.
- **Annibyniaeth a Gofal y Mae Technoleg yn ei Alluogi** – Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu gofal y mae technoleg yn ei alluogi.

## Gweithio mewn partneriaeth

- **Diogelu** – Parhau i weithio gyda'r sectorau preifat, gwirfoddol ac annibynnol i sicrhau bod diogelu'n fusnes pawb o hyd.
- **Comisiynu a'r Trydydd Sector** – Datblygu cyllidebau cyffredin a threfniadau comisiynu ar y cyd o ran darpariaeth trydydd sector i gefnogi'r ffocws cynyddol ar lesiant, cymorth cynnar a gwybodaeth a chyngor.
- **Comisiynu Cartrefi Gofal** – Datblygu cyllidebau cyffredin a threfniadau comisiynu ar y cyd i gomisiynu cartrefi gofal i sicrhau bod y sawl sydd angen gofal preswyl a gofal nyrsio'n derbyn gwasanaeth di-dor.
- **Y Gymraeg** – Byddwn yn gwella'r Cynnig Rhagweithiol ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn gwella tegwch.

## 2.3 Dysgu a Sgiliau

**Byddwn yn cryfhau dysgu a sgiliau**

Mae dysgu a sgiliau'n gonglfaen i'n gweledigaeth, gan ddarparu cyfleoedd addysgu o ansawdd uchel i'n holl ddysgwyr. Mae angen i ni gofleidio heriau bod yn sefydliad gwledig mawr a defnyddio technoleg i sicrhau bod pethau o fewn cyrraedd gwell i bawb. Trwy gymryd camau yn y maes hwn, rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r deilliannau a ganlyn:

- Mae pawb sy'n gadael yr ysgol yn meddu ar y cymwysterau iawn i symud ymlaen
- Mae'r ddarpariaeth addysg a chyngor da ar yrfaoedd ar gael yn deg i bobl o bob oedran
- Mae cyfleoedd dysgu o bell / amgen ar gael i ddisgyblion
- Mae'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn helpu teuluoedd i ddychwelyd i gyflogaeth ystyrlon
- Bydd gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, colegau, prifysgolion a busnesau'n helpu cyfleoedd gyrfa
- Mae amgylcheddau addysgu a dysgu o ansawdd da yn cynnwys technoleg newydd ar gyfer y boblogaeth

### Asesiad cyffredinol o berfformiad:

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod perfformiad yr amcan hwn yn 'ddigonol'. Roedd 4 (31%) allan o'r 13 gweithgaredd a oedd ar waith i gefnogi'r amcan hwn yn wyrdd, roedd 8 yn ambr ac roedd 1 yn goch. Roedd 12 mesur a ddefnyddiwyd i fonitro llwyddiant yn wyrdd, roedd 9 yn ambr ac roedd 3 yn goch (nid oedd unrhyw statws CAG ar gael ar gyfer 2 o'r mesurau).

## Pa wahaniaeth ydym ni wedi'i wneud?

### Mae ein mesurau llwyddiant yn dangos:

Cyflawnodd 90.4% o'r holl ddisgyblion y Dangosydd Cyfnod Allweddol yng Nghyfnod Allweddol 2 o'i gymharu â 91.2% y flwyddyn academaidd flaenorol (Cymru 89.5%)

Cyflawnodd 63.1% o ddisgyblion blwyddyn 11 drothwy Lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg - Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch o'i gymharu â 62.2% y flwyddyn flaenorol (Cymru 55.1%)

Roedd presenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd yn 95.1% o'i gymharu â 95.5% y flwyddyn flaenorol (Cymru 94.6%)

Roedd presenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd yn 94.5% o'i

gymharu â 94.6% y flwyddyn flaenorol (Cymru 93.9%)

Nid oedd angen categorïau dilynol Estyn yn 90.4% o ysgolion, o'i gymharu â 93% y flwyddyn flaenorol

Roedd 72.3% o ysgolion yn y categorïau Gwyrdd neu Felyn yn y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion, o'i gymharu â 61% y flwyddyn flaenorol.

Gwelliant yng nghynnydd disgyblion unigol sy'n derbyn cefnogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant:

- Roedd canran y disgyblion ar lefel gweithredu gan yr ysgol / gweithredu gan yr ysgol a mwy / gyda datganiad sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 60.9% o'i gymharu â 63.7% y flwyddyn flaenorol (Cymru 64%)
- Roedd canran y disgyblion ar lefel gweithredu gan yr ysgol / gweithredu gan yr ysgol a mwy / gyda datganiad sy'n cyrraedd Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 23.3% o'i gymharu â 30.9% y flwyddyn flaenorol (Cymru 20.4%)
- Parhaodd canran yr asesiadau ar gyfer plant sy'n cael eu cwblhau o fewn amserlenni statudol, ar wahân i eithriadau, ar 100%
- Roedd nifer y disgyblion sy'n destun gwaharddiad parhaol fesul 1,000 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yn 0% ac mewn ysgolion uwchradd roedd yn 1.37%. Roedd hyn yn 0.51 (cynradd) ac yn 1.35 (uwchradd) y flwyddyn flaenorol.

Gwella cynnydd disgyblion unigol 'Sy'n Derbyn Gofal' gan yr Awdurdod:

- Roedd canran y Disgyblion Sy'n Derbyn Gofal sy'n cyrraedd Dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn 25% o'i gymharu â 66.7% y flwyddyn flaenorol.
- Roedd canran y disgyblion Sy'n Derbyn Gofal sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 44% o'igymharu â 77.8% y flwyddyn flaenorol.
- Roedd canran y disgyblion Sy'n Derbyn Gofal sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 yn 75% o'i gymharu â 58.3% y flwyddyn flaenorol.
- Roedd canran presenoldeb disgyblion Sy'n Derbyn Gofal mewn ysgolion cynradd yn 94.3% ac mewn ysgolion uwchradd yn 94.2%. Roedd hyn yn 97.6% (cynradd) ac yn 94.6% (uwchradd) y flwyddyn flaenorol.
- Roedd Cyfartaledd Sgôr Pwyntiau Wedi'i Chapio ar gyfer disgyblion Sy'n Derbyn Gofal yn 265 o'i gymharu â 248 y flwyddyn flaenorol.

Cafwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n defnyddio gwasanaethau blynyddoedd cynnar o 873 i 1065, gan ragori ar ein targed o 1000 o blant

Defnyddiodd 50 o deuluoedd y rhaglen Blynyddoedd Rhyfeddol – Barod at yr Ysgol o'i gymharu â 80 yn 2017/18

Cafwyd gostyngiad yn nifer yr adeiladau ysgol sydd â safon cyflwr cyffredinol o C neu D o 132 i 130

Roedd nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd yn 17.6% (llinell sylfaen 16.7%) ac mewn ysgolion uwchradd yn 25.5% (llinell sylfaen 24%)

Roedd canran y disgyblion sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) ym Mlwyddyn 2 yn 17.7% o'i gymharu â 19% y flwyddyn flaenorol (Cymru 21.3%)

Roedd yn hysbys NAD oedd 1.7% o bobl ifanc 16 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â ffigur 2017 o 0.9%, ond o fewn ein targed o 2%

Roedd 1 cwrs dysgu o bell ar gael, gyda 6 o ddysgwyr yn cymryd rhan yn y cwrs

Cyflogodd y cyngor 16 o brentisiaid, gan adeiladu ar y 35 y flwyddyn flaenorol

Roedd yr holl weithgareddau dysgu sy'n cael eu cychwyn trwy Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Powys ac sy'n cael eu cyflawni yn 99%, a llwyddodd 94% i ennill y cymhwyster o'i gymharu â 91% y flwyddyn flaenorol

## ASTUDIAETH ACHOS – Llwybrau Cadarnhaol Powys







Yn 2018/19, cynhaliodd Llwybrau Cadarnhaol Powys, sef y grŵp sy'n trefnu Gŵyl Gyrfaoedd Powys, gystadleuaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr ym Mhowys (rhwng 11 ac 19 oed).

**'Pa fusnes fasech chi'n ei sefydlu ym Mhowys yn 2019 a pham?'**
oedd y gystadleuaeth.

Gwnaeth nifer fawr roi cynnig ar y gystadleuaeth a oedd hefyd wedi'i chysylltu ag arholiad Bagloriaeth Cymru, yn ogystal â rhoi cyfle i ennill £200 o dalebau a roddwyd yn garedig gan Weale's Wheels o Landdewi a What About Me? Training Ltd. Y Cyngh. Myfanwy Alexander a'r Cyngh. Martin Weale oedd yn beirniadu'r tri chynnig buddugol, ynghyd â busnesau yn y meysydd yr oedd y cynigion yn ymwneud â nhw.

Y tîm buddugol oedd Ethan Smith, Brooke Jones, Rhys Gough a Zoe Morgan – sy'n astudio yng Ngholeg y Drenewydd o Grŵp Colegau NPTC. Eu busnes oedd helpu pobl i osod technoleg ddeallus yn eu tai a'u busnesau ac mae'r myfyrwyr wedi penderfynu troi eu syniad yn fusnes go iawn. Tîm o Ysgol Uwchradd Aberhonddu aeth â'r Wobr Arian ac Ysgol Uwchradd Crughywel yr Efydd. Cyflwynodd NPTC eu syniad busnes i'r Cabinet ac Uwch Reolwyr.

Mae'r grŵp Llwybrau Cadarnhaol Powys yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Powys, Gyrfa Cymru, Grŵp Colegau NPTC, ysgolion uwchradd ym Mhowys, Hyfforddiant Cambrian Cyf a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys. Nod y grŵp yw cynnig cyngor a gwybodaeth o'r radd flaenaf i fyfyrwyr Powys am y cyfleoedd sy'n eu haros wedi iddynt orffen addysg orfodol yn 16 oed. Cynhaliodd y grŵp ei drydedd Gŵyl Gyrfaoedd Powys yn ddiweddar ar Faes Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.

https://www.facebook.com/PositivepathwaysPowys/

## Felly beth nesaf?

Byddwn yn gwella llwybrau i gyflogadwyedd trwy:

- Gryfhau dysgu seiliedig ar waith ledled y sir, gan ddarparu cyfleoedd yn cynnwys amrywiaeth o drefniadau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol gan gynnwys prentisiaethau, lleoliadau gwaith a dysgu anffurfiol yn y swydd ar gyfer pob grŵp oedran erbyn 2025
- Creu prentisiaethau ychwanegol, gan gynnwys prentisiaethau uwch a lefel gradd erbyn 2025
- Sicrhau bod cyngor a chyfarwyddyd gyrfa o ansawdd uchel o fewn cyrraedd rhwydd, ynghyd â gwybodaeth glir am y farchnad swyddi leol

## Mae cynnydd yn erbyn ein gweithgareddau'n cynnwys:

- **Gwelliant sylweddol ym mhroffil ein hysgolion uwchradd ag Estyn** – Daeth Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-muallt, Llanfair Caereinion, Ysgol Uwchradd Llandrindod, Llanfyllin a'r Uned Cyfeirio Disgyblion oll allan o fesurau arbennig yn ystod 2018-19. Mae hon yn garreg filltir allweddol yn ein gwaith gwella gan fod yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu darpariaeth i rai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed, ac mae wedi bod yn destun Mesurau Arbennig ers mis Chwefror 2016. O'r ysgolion uwchradd ym Mhowys, mae dwy yn dal i fod yng nghategorïau gwaith dilynol Estyn, sef Ysgol Uwchradd y Drenewydd ac Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Ar ôl ymweliad monitro yn nhymor yr hydref, mae ysgol Bro Hyddgen hefyd wedi'i thynnu o Adolygiad Estyn.
- **Rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith** – Mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru'n cael ei dreialu mewn ysgolion arloesi. Fel rhan o gynhadledd i drafod y cwricwlwm newydd, bu 12 o ysgolion Powys yn rhannu eu profiad fel ysgolion arloesi neu yn datblygu dulliau o fynd ati i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Mae'r holl ysgolion wedi dechrau addasu i'r disgwyliad o ran y cwricwlwm newydd, ac mae Arweinwyr dysgu wedi'u sefydlu mewn llawer o glystyrau i gefnogi rhoi'r Cwricwlwm newydd ar waith.
- **Cymorth parhaus i ddisgyblion agored i niwed** – Yn ystod tymor yr hydref, cynhaliwyd Ymweliadau Cymorth Categoreiddio Cenedlaethol ym mhob ysgol.  Gwerthuswyd y defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) ym mhob ysgol ac roedd bron pob un yn gallu nodi effaith bositif PDG ar eu disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Yn 2017-28, cynyddodd pob disgybl sy'n cael prydau ysgol am ddim eu perfformiad yn CA2, 3 a 4.
- **Cadw arweinwyr, a'u hansawdd ar draws ysgolion** – Yn ystod 2018-19, mae 7 allan o 12 o Brifathrawon newydd a dros dro wedi dilyn hyfforddiant ERW i'w cefnogi yn eu rôl. Fel rhan o raglen newydd, mae gan bob un ohonynt brifathro'n fentor iddynt, i'w cefnogi yn ystod eu blwyddyn gyntaf fel prifathro neu brifathro dros dro. Ddiwedd mis Mawrth 2019, mae gan 3 allan o'r 11 Ysgol Uwchradd brifathrawon dros dro.
- **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** – Yn ystod 2018-19, mae gwaith wedi parhau ar adeilad newydd i Ysgol Gymraeg y Trallwng yn ogystal â datblygiadau yng Nghanolbarth Powys ac ardal Ystradgynlais, a chynlluniau i sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd yn y sir. Fodd bynnag, cydnabyddir bod capasiti o ran swyddogion, a chyfyngiadau ariannol, wedi cyfyngu ar gyflymder rhoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar waith.

## Cefnogi plant a theuluoedd i gael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd:

- **Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** – Mae Cyngor Sir Powys wedi dechrau ar ei siwrnai Trawsnewid ADY mewn ymateb i gyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae gweithgarwch yn ystod misoedd diweddar wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a cheisio barn rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys staff addysgu a llywodraethwyr ynglŷn â'r newidiadau sydd ar ddod a Chod drafft ADY. Cynhwyswyd pob barn a roddwyd yn ystod digwyddiadau ymgysylltu ynglŷn â Chod drafft ADY yn ymateb Cyngor Sir Powys i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, a fu'n rhedeg gydol tymor y gwanwyn. Gofynnwyd i deuluoedd am eu barn hefyd ar y canolfannau arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n darparu cymorth yn y sir. Mae Fforwm Rhieni a Gofalwyr wedi'i sefydlu i sicrhau clust i'w barn ac i ddarparu sail ar gyfer y gwaith y byddwn yn ei wneud.
- **Cyflwyno'r cynnig gofal plant i Gymru** – Rydym wedi bod yn gweithio'n agos â chydweithwyr yng Nghyngor Sir Ceredigion i helpu i ddod â Chynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru i deuluoedd ym Mhowys. O 29ain Ebrill 2019, mae teuluoedd cymwys ledled Powys wedi gallu hawlio 30 awr o addysg gynnar a gofal plant y mae'r llywodraeth yn ei ariannu am hyd at 48 awr y flwyddyn.

Mae'r cynnig wedi bod yn rhan o gynllun peilot mewn dau glwstwr, sef Gwernyfed a Maesydderwen, ers mis Ionawr 2019 a chefnogwyd darparwyr gofal plant â gwybodaeth a chyngor i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y Cynnig. Ym mis Ebrill 2019, roedd rhyw 50 o ddarparwyr wedi cytuno i gyflawni'r cynnig ledled Powys.

- **Prosiect Cynnydd** – Mae Gwasanaeth Ymyriadau Ieuenctid Cyngor Sir Powys yn cyflenwi prosiect Cynnydd mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, ac mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop a chyllid Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i ariannu trwy Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n agos â Gyrfa Cymru i gynnig cymorth personol i bobl ifanc, ynghyd â'r cyfle i ddysgu sgiliau a chael profiad i'w gwneud yn gyflogadwy.
- **Dechrau'n Deg** – Symudodd Canolfan Deuluoedd Integredig Dechrau'n Deg yn y Drenewydd i safle newydd yn agos at ysgolion Hafren a Ladywell ym mis Gorffennaf 2018. Bydd y safle newydd yn eu galluogi i barhau â'r gwaith integredig sy'n gydran hanfodol o'r model Dechrau'n Deg. Bydd y lleoliad hwn yn golygu y bydd cymorth a gwasanaethau o fewn cyrraedd i deuluoedd mewn lle mwy cyfleus. Mae'r Tîm Dechrau'n Dda hefyd wedi cefnogi gwaith paratoi ar gyfer trosglwyddo gofal plant Dechrau'n Deg o Ysgol Priory yn Aberhonddu i Gylch Meithrin Aberhonddu yn Ysgol y Bannau. Gwahoddwyd pob teulu i fynychu cyfarfod anffurfiol yn y lleoliad newydd ar ddiwedd mis Rhagfyr 2018. Mae Dechrau'n Deg yn parhau i gael ei gyflenwi mewn pum ardal ym Mhowys. Roedd 871 o blant dan bedair oed yn rhan o lwyth achosion Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg ar ddiwedd 2018/19.

## Gwella'r seilwaith ysgolion


- **Ysgol Uwchradd Aberhonddu** – Mae gwaith ar brosiect £21m Ysgol Uwchradd Aberhonddu ymhell ar y gweill a rhoddwyd cyfle i rieni gael eu tywys o amgylch y safle yn ystod mis Mawrth. Pan fydd yr ysgol newydd wedi'i gorffen, fe fydd yn cwmpasu 7,500 metr sgwâr, ac yn darparu ysgol uwchradd o'r radd flaenaf â lle i 750 o ddisgyblion gyda 6ed dosbarth integredig (11-18 oed). Mae'r prosiect hwn yn dangos ein gweledigaeth ar gyfer dysgwyr Aberhonddu, a hefyd ar gyfer yr economi leol gyda chyfleoedd i gwmnïau lleol gael budd o'r buddsoddiad mawr hwn. Mae'r contractwr hefyd yn gweithio'n agos â'r ysgol a'r coleg i ymgysylltu â dysgwyr a rhoi profiad gwaith adeiladu iddynt er mwyn eu hannog i ymddiddori mewn gyrfa ym maes adeiladu.
- **Ysgol Carno** – Agorwyd adeilad ysgol gynradd newydd sbon yng Ngharno ym mis Mawrth, yn lle'r ystafell ddosbarth symudol sydd bellach wedi'i dymchwel. Mae'r adeilad £1.5m yn golygu y caiff y disgyblion eu haddysgu nawr mewn adeilad ysgol 21ain ganrif newydd sbon gyda darpariaeth blynyddol cynnar benodol. Mae'r cyllid ar gyfer y prosiect wedi'i rannu 50/50 rhwng Cyngor Sir Powys a rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, gyda chyfraniad o £500,000 oddi wrth Gymdeithas Hamdden Carno, sef rhodd gan Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Tirgwynt. Mae'r ysgol yn rhan o ffederasiwn o dair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, sy'n cynnwys Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair sydd wedi bod yn gweithredu ers 2014. Yn dilyn arolygiadau ym mis Tachwedd 2018, roedd Estyn o'r farn bod y ffederasiwn yn rhagorol o ran arweinyddiaeth, a bod Ysgol Carno yn rhagorol o ran safonau; profiadau dysgu ac addysgu; ac arweinyddiaeth a rheolaeth.
- **Cytuno ar gynlluniau ffederasiwn** – Ymgynghorwyd ynglŷn â chynlluniau i sefydlu ffederasiwn rhwng Ysgol Gynradd Llanidloes ac Ysgol Uwchradd Llanidloes, rhwng mis Rhagfyr a mis Ionawr 2019. Ar ôl yr ymgynghoriad, mae Cyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol wedi cytuno i lunio ffederasiwn o fis Medi 2019. Mae cyflawni'r cwricwlwm newydd cyffrous i Gymru'n galw am gydweithredu agosach rhwng y cyfnodau dysgu, i sicrhau'r deilliannau gorau posibl i ddysgwyr. Mae Ysgol Gynradd Llangedwyn ac Ysgol Gynradd Llanfechain nawr wedi llunio ffederasiwn ffurfiol o 1af Hydref 2018, gydag un corff llywodraethu ac un Prifathro ar gyfer y ddwy ysgol.
- **Cynnig Ysgol Bob Oed yn Llanfyllin** – Yn dilyn ymgynghori ynglŷn â'r cynnig i uno Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin, cytunodd y Cabinet ym mis Mawrth i gyhoeddi hysbysiadau statudol ar gyfer sefydlu ysgol bob oed newydd yn y dref.

- **Cleirwy** – Cwblhawyd Ysgol yr Eglwys yng Nghymru newydd yng Nghleirwy ac agorwyd hi'n swyddogol ym mis Medi 2018. Mae'r adeilad newydd yn ffurfio rhan o fuddsoddiad £23m yn ardal dalgylch Gwernyfed.
- **Ysgol Calon Cymru** – Agorwyd hon ym mis Medi 2018, ac mae'n gweithredu o gyn safleoedd Ysgol Uwchradd Llandrindod ac Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-muallt. Mae'n darparu addysgu i bobl ifanc 11-18 oed. Mae'n ysgol ddwyieithog gyda darpariaeth cyfrwng Saesneg ar y ddau gampws a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gampws Llanfair-ym-muallt.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Cyfrwng Saesneg yn y Trallwng, Ysgol Gymraeg y Trallwng ac Ysgol Bro Hyddgen. Fodd bynnag, daeth y prif gontractwr yn destun gorchymyn gweinyddu a fydd yn effeithio ar ddyddiad agor gwreiddiol yr ysgolion newydd.
- **Adolygiad Ôl-16** – Gwnaethom redeg arolwg ar-lein i gael gwybod beth yw barn pobl ifanc ar fyd addysg a byd gwaith.  Mae'r arolwg yn holi myfyrwyr ynglŷn â'r pynciau yr hoffent eu hastudio, a fydd yn helpu'r cyngor wrth iddo gynllunio'i gwricwlwm. Mae hefyd yn dwyn sylw at y meysydd lle mae cyflogaeth yn tyfu ac yn ceisio barn pobl ifanc ar y dewisiadau gyrfa hyn. Mae'r prosiect yn cyd-fynd â gwaith y cyngor fel partner allweddol o'r Bartneriaeth Llwybrau Cadarnhaol. Bydd yna gysylltiad rhwng Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion a'r Adolygiad Ôl-16.

## Gwella sgiliau a chyflogadwyedd pobl ifanc ac oedolion

- **Gŵyl Gyrfaoedd** – Gwnaethom gynnal y drydedd Ŵyl Gyrfaoedd ym mis Mawrth 2019, a oedd yn llwyddiant ysgubol, a mynychodd mwy na 3,000 o ddisgyblion o ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, colegau NPTC ac ysgol yng Ngheredigion ac ysgol breifat Bedstone. Roedd y gwesteion arbennig yn cynnwys Ben Sheppard, y DJ ar gyfer Capital Radio a Jason Pritchard, y gyrrwr rali sy'n gyn ddisgyblion ysgolion Powys ac yn cynrychioli'r cyfleoedd gyrfa amrywiol a llwyddiannus y gallai ein disgyblion fynd ar eu trywydd.
- **Prosiect Seren** – Gwnaethom gefnogi 87 o fyfyrwyr Blwyddyn 13 trwy Raglen Seren. Mae Rhwydwaith Seren yn cefnogi'r myfyrwyr mwyaf galluog yn academaidd o bob ysgol y wladwriaeth â 6ed ddosbarth neu goleg ledled Cymru, a dim ond i'r rhain y mae ar gael, er mwyn iddynt gyflawni eu potensial academaidd a chael ffordd i mewn i'r prifysgolion mwyaf blaenllaw – boed hynny yng Nghymru, y DU neu dramor. Derbyniwyd 73% o fyfyrwyr Blwyddyn 13 i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton Trust. Derbyniwyd y 27% a oedd yn weddill i'r Swistir, Seland Newydd, Aberystwyth, Abertawe, cyflogaeth, blwyddyn fwlch neu brentisiaethau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu Seren Iau, i gefnogi disgyblion o Flynyddoedd 8 - 11, ac mae Powys yn un o'r ardaloedd peilot yng Nghymru.
- **Strategaeth Sgiliau ac Ymgysylltu** – Mae hon wedi'i drafftio ar ôl 2 weithdy rhanddeiliaid. Bydd y strategaeth yn helpu i nodi blaenoriaethau cyflogaeth a sgiliau dros gyfnodau tymor byr, canolig a hir sy'n cyfateb i sbardunwyr a dangosyddion economaidd. Bydd hyn yn cefnogi'r economi ranbarthol trwy annog mwy o fusnesau i fod wedi'u lleoli ym Mhowys er mwyn sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau iawn i gadw'r Bobl Ifanc ym Mhowys.
- **Prentisiaethau a phrofiad gwaith** – Ers i Gyrfa Cymru golli'r cyfrifoldeb am drefnu a chefnogi lleoliadau profiad gwaith, mae niferoedd y rhai sy'n gofyn am gyfleoedd o fewn yr awdurdod wedi gostwng yn sylweddol. Yn 2018-19, cafodd 13 o ddysgwyr brofiad gwaith yn y cyngor. Fel rhan o ŵyl Gyrfaoedd 2018-19, a gynhaliwyd yn ystod wythnos prentisiaethau genedlaethol Cymru, dywedodd prentisiaethau am eu profiadau o fod yn brentis, â'r nod o hybu ac annog mwy o bobl ifanc i ddewis y llwybr gyrfa hwn. Mae lleoedd prentisiaethau gwag hefyd yn cael eu hysbysebu ar dudalen Facebook Llwybrau Cadarnhaol Powys.

## Ein cyfraniad at y 7 Nod Llesiant:




## Faint y gwnaethom ei arbed/ei wario yn 2018-19?

**Prif fuddsoddiadau cyfalaf:**

- Campws Aberhonddu – £12.9m
- Estyniad Carno – £1.1m
- Ysgol Cleirwy – £1m
- Ysgol Bro Hyddgen – £783k

**Prif arbedion:**

- Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol – £150k

## Y Diogelwr Taith

Ble ydym ar y daith i gyfrannu cymaint â phosibl at y 7 nod llesiant?



## Diweddariadau i'n cynllun a gweithgareddau gwella allweddol ar gyfer 2019 ymlaen

| Gweithgaredd – Beth y byddwn yn ei wneud? | Sut y byddwn yn mesur llwyddiant? |
|---|---|

### Gwella cyrhaeddiad addysgol

**Gweithgaredd – Beth y byddwn yn ei wneud?**

Byddwn yn parhau i godi cyrhaeddiad pob disgybl, gan gynnwys disgyblion agored i newid, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Byddwn yn cefnogi ysgolion i roi ar waith yn raddol y cwricwlwm addysg newydd erbyn 2022; nod y cwricwlwm newydd yw paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd, a sicrhau eu bod yn gallu addasu i newid yn well.

Byddwn yn gwella perfformiad ein hysgolion uwchradd. Trwy weithio'n agos gyda staff, llywodraethwyr a chymunedau byddwn yn gwella'r recriwtio, y gallu i gadw staff ac ansawdd arweinyddion ar draws ein holl ysgolion erbyn 2020.

Trwy weithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg byddwn yn cynnig darpariaeth fwy hygyrch ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg erbyn 2020.

**Sut y byddwn yn mesur llwyddiant?**

- Cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyrraedd y Dangosydd Cyfnod Allweddol yng Nghyfnod Allweddol 2 o 91.2% i 92% erbyn 2021
- Cynnydd yng nghanran disgyblion blwyddyn 11 sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2, gan gynnwys Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg - Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch o 62.2% i 68% erbyn 2024
- Cynnydd yng nghanran presenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd o 95.5% i 97% erbyn 2025
- Cynnydd yng nghanran presenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd o 94.6% i 96% erbyn 2025
- Cynnydd yng nghanran yr ysgolion lle nad oes angen categorïau dilynol Estyn o 93% i 96% erbyn 2021
- Cynnydd yng nghyfran yr ysgolion mewn categorïau Gwyrdd neu Felyn yn y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion o 61% i 80% erbyn 2022.
- Gwella cynnydd disgyblion unigol 'Sy'n Derbyn Gofal' gan yr Awdurdod:
  - Cynyddu canran disgyblion sy'n Derbyn Gofal sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 o 77.8% i 90% erbyn 2025
  - Cynyddu canran disgyblion sy'n Derbyn Gofal gyda Chynlluniau Addysg Personol sy'n cael eu cwblhau o 77% i 95% erbyn 2020
  - Gwella gyfartaledd sgôr pwyntiau wedi'i chapio ar gyfer disgyblion sy'n Derbyn Gofal o 248 i 320 erbyn 2025.

### Cefnogi plant a theuluoedd i gael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd

**Gweithgaredd – Beth y byddwn yn ei wneud?**

Byddwn yn gweithredu system gydlynus er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol i wella eu profiadau a deilliannau erbyn 2023.

**Sut y byddwn yn mesur llwyddiant?**

Gwelliant yng nghynnydd disgyblion unigol sy'n derbyn cefnogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant:

- Bydd canran y disgyblion ar lefel gweithredu gan yr ysgol / gweithredu gan yr ysgol a mwy / gyda datganiad sy'n cyrraedd y Dangosydd

| | |
|---|---|
| | Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cynyddu o 63.7% i 77% erbyn 2025<br>◦ Bydd canran y disgyblion ar lefel gweithredu gan yr ysgol / gweithredu gan yr ysgol a mwy / gyda datganiad sy'n cyrraedd Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cynyddu o 30.9% yn 2015/16 i 34% yn 2025<br>◦ Bydd canran yr asesiadau ar gyfer plant sy'n cael eu cwblhau o fewn amserlenni statudol, ar wahân i eithriadau, yn parhau ar 100%<br>◦ Bydd nifer y disgyblion sy'n destun gwaharddiad parhaol fesul 1,000 disgybl mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn lleihau o 0.3 i 0 yn achos ysgolion cynradd ac o 1.21 i 1.01 yn achos ysgolion uwchradd erbyn 2025 |
| Byddwn yn darparu gofynion gofal plant a chwarae allweddol, gan symud tuag at gyflenwi 30 awr o ofal ac addysg gynnar am ddim ar gyfer rhieni sy'n gweithio erbyn 2021. | • Cynyddu nifer y plant sy'n defnyddio gwasanaethau blynyddoedd cynnar o 873 i 1000 erbyn 2021 |
| Erbyn 2020 byddwn yn sicrhau bod gennym systemau effeithio i wella adnabod pobl ifanc agored i newid mewn perygl o ddatgysylltu rhag addysg. | • Cadw canran disgyblion 16 oed NAD ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o dan 2% (Gwaelodlin 1.9%) |
| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pob plentyn yn barod ar gyfer yr ysgol, a ddiffinnir fel a ganlyn; sgiliau cymdeithasol cadarn, sgiliau cyfathrebu effeithiol, yn gallu ymdopi o safbwynt emosiynol gydag amgylchedd newydd i ffwrdd o'r rhieni ac yn annibynnol o safbwynt gofal personol. Bydd y rhaglen Dechrau'n Deg yn cefnogi datblygiad cynnar plant mewn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Trwy barhau i roi ar waith yn raddol y rhaglen Blynyddoedd Rhyfeddol - Barod at yr Ysgol, byddwn yn helpu meithrin partneriaeth rhwng rhieni / yr ysgol i gefnogi plentyn i symud yn llyfn i'r ysgol. | • Cynyddu nifer y teuluoedd sy'n defnyddio'r rhaglen Blynyddoedd Rhyfeddol – Barod at yr ysgol o 80 i 100 erbyn 2020 |

## Gwella'r seilwaith ysgolion

| | |
|---|---|
| Caiff ein hadeiladau ysgolion eu trawsnewid trwy gynllun buddsoddiad cyfalaf gwerth £114miliwn. Byddwn yn sicrhau bod yr ysgolion newydd a'r rhai sy'n cael eu hailwampio'n cynnig amgylchfyd cyfoes sy'n addas ar gyfer addysg y 21ain ganrif ac | • Cynyddu canran ein blociau adeiladau ysgol gyda safon cyflwr cyffredinol A neu B o 59.15% (200 allan o gyfanswm o 338 o flociau – 1/01/2019) i 74.87% erbyn mis Awst 2021 |

yn ganolog i fywyd cymunedol. Byddwn yn cwblhau'r cymal cyntaf o'r buddsoddiad cyfalaf erbyn 2020 (Band A) a'r ail gymal (Band B) erbyn 2025.

Byddwn yn gweithredu'r Polisi Trefniadaeth Ysgol newydd a'r Cynllun Cyflenwi i ddatblygu rhwydwaith ysgolion mwy effeithlon, gan ganolbwyntio mwy ar weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Bydd y Cynllun Cyflenwi'n canolbwyntio ar wella darpariaeth uwchradd ac ôl-16, darpariaeth gynradd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg / dwyieithog.

- Lleihau nifer y lleoedd gwag i 16% mewn ysgolion cynradd (Gwaelodlin 16.7%) a 24% mewn ysgolion uwchradd (Gwaelodlin 24%) erbyn 2020
- Cynyddu canran y disgyblion sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (BI.2) o 19.1% yn 2016/17 i 22.5% yn 2021
- Cynyddu nifer y cyrsiau dysgu o bell sydd ar gael o 0 i 3 erbyn 2021
- Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau dysgu o bell o 0 i 20 erbyn 2021

## Gwella sgiliau a chyflogadwyedd pobl ifanc

Byddwn yn gwella'r llwybrau cyflogadwyedd trwy:

- Gryfhau dysgu a seilir yn y gweithle ar draws y sir, darparu cyfleoedd sy'n cynnwys trefniadau ffurfiol ac anffurfiol amrywiol gan gynnwys prentisiaethau, lleoliadau gwaith a dysgu anffurfiol yn y swydd ar gyfer pob grŵp oedran erbyn 2025
- Creu prentisiaethau ychwanegol, gan gynnwys prentisiaethau lefel uwch a lefel gradd erbyn 2025
- Sicrhau mynediad rhwydd at gyngor ac arweiniad safon uchel ym maes gyrfaoedd, a gwybodaeth glir am y farchnad swyddi leol

Byddwn yn datblygu gweithlu hynod fedrus, lle mae'r sgiliau'n cyfateb i anghenion yr economi leol trwy:

- Fagu darpariaeth gryfach a mwy hygyrch o ran darpariaeth addysg bellach ac addysg uwch mewn partneriaeth gyda darparwyr

- Cynyddu nifer y prentisiaid a gyflogir gan y cyngor a'i bartneriaid o 35 i 65 o brentisiaid ar gyfer Cyngor Sir Powys erbyn 2020
- Cynyddu canran yr holl weithgareddau dysgu sy'n cael eu cychwyn trwy Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Powys sy'n cael eu cyflawni, a llwyddwyd i ennill y cymhwyster o 91% i 92% erbyn 2021

## 2.4 Dinasyddion a Chymunedau

**Byddwn yn cefnogi ein dinasyddion a'n cymunedau**

Rydym eisiau i gymunedau deimlo'u bod yn cael eu cefnogi, cael dweud eu dweud ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar eu cyfer yn lleol, a theimlo'u bod yn chwarae rhan allweddol mewn darparu gwasanaethau lleol, a dyna pam fod yr amcan hwn yn canolbwyntio ar fod yn agored â dinasyddion a'u cymunedau a bod wedi ymrwymo i ymgysylltu'n ystyrlon. Trwy gymryd camau yn y maes hwn, rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r deilliannau a ganlyn:

Mae dinasyddion yn gyfrifol am eu gweithredoedd ac yn cefnogi ei gilydd

Mae gan gymunedau fynediad at ddewis o dai fforddiadwy a thai'r farchnad agored

Mae gan gymunedau fynediad at wasanaethau sy'n caniatáu i bawb ffynnu a mwynhau bywyd

Mae gan gymunedau rôl weithgar i'w chwarae o ran dylunio a chyflenwi'r gwasanaethau sydd eu hangen

### Asesiad cyffredinol o berfformiad:

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod perfformiad yr amcan hwn yn 'dda'. Roedd 7 o'r gweithgareddau a oedd ar waith i gefnogi'r amcan hwn yn las, roedd 3 yn wyrdd ac roedd 3 yn ambr. Roedd 3 mesur a ddefnyddiwyd i fonitro llwyddiant yn wyrdd (nid oedd unrhyw statws CAG ar gael ar gyfer 4 o'r mesurau).

## Pa wahaniaeth ydym ni wedi'i wneud?

### Mae ein mesurau llwyddiant yn dangos:

Cytunwyd ar 6 Chynllun a Seilir ar Leoedd gyda lleoliadau dynodedig, sy'n olrhain dealltwriaeth o anghenion pob ardal ar lefel leol, pa ymyraethau sydd eu hangen, gan gynnwys gwasanaethau stryd/glanhau, priffyrdd, gwastraff ac ailgylchu, trafnidiaeth, iechyd cyhoeddus, ardaloedd cymunedol, i enwi dim ond rhai.

Roedd ein cofnod diwethaf yn 2015-16 (Arolwg o Foddhad Trigolion) yn dangos bod 21% o drigolion yn gwirfoddoli'n rheolaidd. Ni wnaethom gynnal arolwg o foddhad trigolion yn ystod 2018-19, felly ni allwn adrodd ar y gyfran o drigolion Powys sy'n gwirfoddoli i gefnogi eu cymunedau lleol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, lansiwyd menter tair tref newydd, â'r nod o roi hwb i drigolion ymgysylltu a gwirfoddol yn eu cymunedau lleol.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 yn dangos bod 49% o'r rhai a ymatebodd o Bowys naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'r gwasanaethau a oedd ar gael a bod 67% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'r gallu i gael gwasanaethau lleol.

Roedd gennym darged gwreiddiol i ddatblygu o leiaf dau hyb cymunedol y flwyddyn, ond cyn datblygu unrhyw hybiau roeddem eisiau ymgysylltu â chymunedau ymhellach i ddeall eu barn a'u hanghenion yn well. O'r herwydd, ni ddatblygwyd unrhyw hybiau yn 2018-19.

## ASTUDIAETH ACHOS – Tair Tref / Lansio Menter wirfoddoli




Mae tair tref ym Mhowys wedi dod at ei gilydd i roi hwb i'w heconomïau a rhannu syniadau ynglŷn â sut orau i gynnal a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn eu cymunedau eu hunain. Mae Llandrindod, Llanfair-ym-Muallt a Rhaeadr Gwy bellach wedi dynodi eu hunain fel tair tref yn un, a bydd y tair tref yn cydweithio er lles eu cymunedau eu hunain a'r cymunedau ehangach gyda chyfanswm o ryw 19,500 o drigolion. Fe fydd y fenter yn annog pobl i gefnogi ei gilydd a'u cymunedau, boed yn gwirfoddoli i fynd â chymydog hŷn i siopa, yn helpu yn y llyfrgell neu'n trefnu i gasglu sbwriel. Bydd dau Swyddog Datblygu Cymunedol yn cefnogi'r trefi a byddant yn cael eu hariannu am 12 mis trwy Arwain, sef y Cynllun Datblygu Gwledig.





Meddai Cadeirydd y grŵp llywio, y Cynghorydd Jon Williams: "Rydw i'n ffyddiog y bydd y cydweithredu yma rhwng y tair tref yn dod â nifer o fuddion iddyn nhw. Trwy ddeall eu hanghenion ei gilydd, eu dyheadau economaidd a'u gofynion twristiaeth fe allwn ni ystyried pethau fel ein cadwyni cyflenwi lleol a lle y gallwn ni gydweithredu'n fwy i hyrwyddo ein hunain ac i roi hwb i economi canolbarth Powys a phunt Powys."

https://twitter.com/PowysTri

**Felly beth nesaf?** Fe fydd y dull tair tref hwn yn cael ei estyn i bob rhan o'r sir a hyd yn oed dros y ffin i gymunedau cyfagos yn ystod 2019-20, ar ôl mapio dalgylch arfaethedig tair tref.

### Mae cynnydd yn erbyn ein gweithgareddau'n cynnwys:

### Cryfhau datblygiad a chydnerthedd cymunedol


- **Cynlluniau Lleoedd/Cynlluniau Ardaloedd Lleol** – Mae tîm adfywio'r cyngor wedi bod yn cefnogi'r Drenewydd a'r Trallwng i ddatblygu Cynlluniau Lleoedd. Maent hefyd wedi bod yn gweithio â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gefnogi Aberhonddu, y Gelli Gandryll, Crughywel a Thalgarth i ddatblygu cynlluniau lleoedd. Gwnaethom hefyd ymgeisio am gyllid Cynllun Datblygu Gwledig gwerth £110,000 i gefnogi gwaith datblygu cynlluniau a seilir ar leoedd ledled y Sir.
- **Loteri Gymunedol wedi'i lansio** – Rydym wedi dod yn bartner â'r Rheolwr Loteri Allanol Gatherwell Ltd i ddod yn awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i lansio ein loteri gymunedol ar-lein ein hunain, a fydd o fudd i achosion da. Bydd tocynnau'n costio £1, gyda 60c yn mynd tuag at achosion da, o'i gymharu â dim ond 28c fesul punt y Loteri Genedlaethol.

- **Adolygiad o Drafnidiaeth Teithwyr / Gymunedol** – Adolygwyd y ddarpariaeth gwasanaeth bws leol yn ystod 2018/19 ac aildendrwyd y rhwydwaith bysiau gan ddyfarnu contractau i weithredwyr ledled Powys. Rhoddwyd llwybrau newydd ar waith ym mis Medi 2018. Yn ystod 2018/19, bu'r swyddog trafnidiaeth gymunedol yn gweithio'n agos â chymdeithas trafnidiaeth gymunedol Cymru dan eu rhaglen cysylltu cymunedau. Rydym wedi cefnogi dau gynllun ym Mhowys i sicrhau cyllid i gael cerbydau newydd yn lle hen rai. Dyfarnodd Cyngor Sir Powys tua £124,000 i'r cynlluniau.
- **Cydleoli llyfrgell ac amgueddfa'r Trallwng** – Yn sgil adolygu adeiladau y mae'r cyngor yn berchen arnynt yng ngogledd Powys, penderfynwyd i gydleoli llyfrgell y Trallwng ac amgueddfa Powysland, gan gynnig gwasanaethau i drigolion lleol o dan yr un to. Bydd y llyfrgell ar lawr gwaelod y cyfleuster, gydag ardal i'r plant, cyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd ac amrywiaeth dda o lyfrau llyfrgell. Mae llyfrgelloedd yn destun adolygiad ar hyn o bryd, a chafwyd ymgynghoriad i geisio syniadau ynglŷn â sut i gynnal 10 o'r llyfrgelloedd cangen llai, yn ogystal â chwe changen mwy a'r gwasanaeth symudol.
- **Cyflenwi Cymunedol** – Yn sgil nifer o sgyrsiau, mae trosglwyddiad tir mwyaf yn hanes y cyngor wedi'i gwblhau. Mae'r trosglwyddiad yn gweld Cyngor Tref y Drenewydd yn cymryd y llyw o ran mwy na 100 erw o fan agored oddi wrth y cyngor, a bydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer prosiect 'mannau gwyrdd' uchelgeisiol. Fel cyngor, rydym yn greadigol ac yn arloesol ein dull o fynd ati i reoli eiddo a thir, â'r nod o drosi bwrn ariannol yn ased sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae sefydliadau cymunedol yn aml mewn gwell sefyllfa i ddechrau prosiectau oherwydd eu bod yn gallu sicrhau grantiau. Bydd y cytundeb yn rhyddhau'r £1.1 miliwn o gyllid y gwnaeth Y Drenewydd Agored ei ennill oddi wrth y Loteri Fawr, a'r grant cynnal oddi wrth y cyngor tref, gan sicrhau bod parciau'n parhau i gael eu hamddiffyn ac yn parhau ar agor i bob defnyddiwr. Mae yna hefyd gyfle i ddatblygu mwy fyth ar yr amwynderau , gan ddenu trigolion i'w defnyddio'n fwy helaeth a sefydlu cyfle ar gyfer twristiaeth yn y dref a fydd yn helpu tuag at adfywio canol y dref.
- **Partneriaeth llyfrgell Llanfyllin** – Ym mis Mehefin 2018, llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cwmni Buddiannau Cymunedol Gogledd Sir Drefaldwyn a Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Sir Powys. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn dal i redeg y llyfrgell, ond mae'r cynghorau tref a chymuned lleol nawr yn talu hanner y costau, trwy Gwmni Buddiannau Cymunedol.
- **Hybiau Cymunedol** – Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i archwilio'r pethau y mae pobl yn eu hystyried yn elfennau hanfodol o hyb cymunedol, er mwyn ceisio diffinio cysyniad "hyb" yn gliriach, a nodi rhai costau llinell sylfaen. Daeth barn y cyhoedd i'r fei o'r ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r gwasanaeth llyfrgell a oedd yn edrych ar ddyfodol y gwasanaeth hwnnw, a chynhaliwyd sesiwn benodol ynglŷn â'r elfennau hanfodol angenrheidiol gyda Chynghorwyr Sir. Bydd Bwrdd Asedau Strategol y Cyngor nawr yn arwain cyfnodau datblygu pellach.

## Cryfhau ein perthynas gyda dinasyddion a chymunedau

- **Addewid cymunedol** – Mae buddion datblygu addewid cymunedol rhwng y cyngor a thrigolion wedi'u harchwilio, ond ni chafwyd unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â'r dull hwn o weithredu. Yn lle hynny, rydym yn gweithio'n agos â chymunedau trwy gefnogi gwaith datblygu Cynlluniau a Seilir ar Leoedd a'r model Tair Tref.
- **Prosiect Caru'ch Cynefin** – Mae prosiect newydd wedi'i lansio i fwrw ymlaen â dull hollgynhwysol o fynd ati i reoli'r stad. Mae 'Caru'ch Cynefin' yn canolbwyntio ar sut y gall gwaith rheoli tenantiaethau a'r stad helpu pobl i fwynhau eu cartrefi a'u cymdogaethau.

## Ein cyfraniad at y 7 Nod Llesiant:




## Faint y gwnaethom ei arbed/ei wario yn 2018-19?

Prif arbedion:

- Llyfrgelloedd: Cydleoli lle bo'n bosibl a chydweithio â chymunedau lleol neu gael y gymuned i'w cyflenwi. Digomisiynu llyfrgelloedd lle nad yw cydleoli, cyflenwi/gweithredu cymunedol neu ddarpariaeth graidd yn addas neu lle mae cymunedau lleol wedi gwrthod dewisiadau amgen - £125k

## Y Diogelwr Taith

Ble ydym ar y daith i gyfrannu cymaint â phosibl at y 7 nod llesiant?

Yn gwthio'r cwch i'r dŵr → **Yn gwneud newidiadau syml ✓** → Yn bod yn fwy mentrus → Yn berchen ar ein huchelgais → Arwain y ffordd

## Diweddariadau i'n cynllun a gweithgareddau gwella allweddol ar gyfer 2019 ymlaen

| Gweithgaredd – Beth y byddwn yn ei wneud? | Sut y byddwn yn mesur llwyddiant? |
|---|---|
| **Cryfhau datblygiad a chydnerthedd cymunedol** | |
| Byddwn yn galluogi cymunedau i gael rôl weithredol yn cynllunio ac yn darparu eu gwasanaethau a'u hamwynderau lleol trwy eu cefnogi trwy ddatblygu Cynlluniau a Seilir ar Leoedd, y fenter Tair Tref a chyfleoedd i wirfoddoli. | • Cynlluniau a Seilir ar Leoedd cytunedig gyda lleoliadau dynodedig erbyn 2020, sy'n olrhain dealltwriaeth o anghenion pob ardal ar lefel leol, pa ymyraethau sydd eu hangen, gan gynnwys gwasanaethau stryd/glanhau, priffyrdd, gwastraff ac ailgylchu, trafnidiaeth, iechyd cyhoeddus, ardaloedd cymunedol, i enwi dim ond rhai.<br>• Cynnydd yng nghanran y dinasyddion sy'n fodlon gyda'u hardal leol fel lle i fyw (90% yn 2017 – Arolwg Cenedlaethol Cymru)<br>• Cynyddu ymgysylltiad dinasyddion 10% i wirfoddoli i gefnogi mentrau cymunedol lleol. Dangosodd y cofnod diweddaraf bod 38% o bobl yn gwirfoddoli ar sail ffurfiol ac anffurfiol |

| | |
|---|---|
| Byddwn yn parhau i wella ansawdd yr amgylchedd y mae ein tenantiaid yn byw ynddo a'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn trwy gyflawni strategaeth cynaliadwyedd tenantiaeth Caru'ch Cynefin. | • Gwell boddhad ymhlith tenantiaid ag ansawdd eu cymdogaeth (llinell sylfaen i'w phennu)<br>• Mwy o ymgysylltu â thenantiaid tai (llinell sylfaen i'w phennu) |
| Byddwn yn parhau i ddatblygu mwy o hybiau cymunedol mewn lleoliadau priodol, i gynnig cymysgedd o wasanaethau i ddinasyddion dan un to. | • Datblygu a gweithredu hyd at ddau Hyb Cymunedol y flwyddyn am y pum mlynedd nesaf. |

## Cryfhau ein perthynas gyda dinasyddion a chymunedau

| | |
|---|---|
| Byddwn yn cefnogi gwaith adolygu Cynghorau Tref a Chymuned ar sail cynigion Llywodraeth Cymru. | |

## Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ar gyfer dinasyddion a chymunedau

| | |
|---|---|
| Erbyn mis Rhagfyr 2019, byddwn yn datblygu camau i ddangos sut y byddwn yn mynd ati i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflenwi ein gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'n dyletswyddau, dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. | Penderfynir ar fesurau llwyddiant fel rhan o ddatblygu'r camau. |

## 2.5 Gwneud Iddo Ddigwydd

GID

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni fod â blociau adeiladu allweddol ar waith i wneud i'n cynlluniau ddigwydd. Byddwn yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau ac yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r ffordd orau i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Trwy gymryd camau yn y maes hwn, rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r deilliannau a ganlyn:

**Ymgysylltu a chyfathrebu**

Gwrando, rhannu gwybodaeth a meithrin ffydd gyda'n dinasyddion, cymunedau a staff

**Arweinyddiaeth a llywodraethu**

Bydd ein staff ac aelodau'n cydweithio gyda'n partneriaid, gan ddefnyddio'r systemau a gwybodaeth cywir i sicrhau y caiff y cyngor ei redeg yn effeithiol

**Newid ein ffordd o weithio**

Gwneud y defnydd gorau o'r hyn sydd gennym, a gweithio mewn ffyrdd newydd, arloesol i gyflawni ein blaenoriaethau er budd dinasyddion a chymunedau'r sir

### Asesiad cyffredinol o berfformiad:

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod perfformiad yr amcan hwn yn 'dda'. Roedd 13 (87%) allan o'r 15 gweithgaredd a oedd ar waith i gefnogi'r amcan hwn yn wyrdd, ac roedd 2 yn ambr. Roedd 3 mesur a ddefnyddiwyd i fonitro llwyddiant yn wyrdd, roedd 2 yn ambr ac roedd 1 yn goch (nid oedd unrhyw statws CAG ar gael ar gyfer 1 o'r mesurau).

GID

## Pa wahaniaeth ydym ni wedi'i wneud?

### Mae ein mesurau llwyddiant yn dangos:

Yn ôl ein harolwg Staff 2018:

- Mae 61.81% yn falch o weithio i'r cyngor, o'i gymharu â 59% yn 2016
- Mae 75% yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi fel aelod o dîm, o'i gymharu ag 81% yn 2016
- Mae 72% yn mwynhau eu swydd, o'i gymharu â 68% yn 2016
- Bydd 88% yn gwneud ymdrech ychwanegol i gael gwaith wedi'i orffen, o'i gymharu â 85% yn 2016
- Mae 34% yn teimlo nad ydynt yn cael gwybod am newidiadau sy'n digwydd yn eu maes gwasanaeth, o'i gymharu â 40% yn 2016
- Mae 42% yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi fel cyflogai unigol o'r Cyngor, o'i gymharu â 17%

Ymatebwyd i 79.21% o gwynion o fewn yr amserlen statudol, o'i gymharu â 97.06% yn 2017-18

Derbyniwyd 178 o ganmoliaethau. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 44.5 o ganmoliaethau bob chwarter, o'i gymharu â 32 yn 2017-18

Roedd alldro refeniw (heb gynnwys y Cyfrif Refeniw Tai a chyllideb ddirprwyedig ysgolion) yn orwariant o 0.4% (£713k) o'i gymharu â'r gyllideb

Ar gyfartaledd, collwyd 9.5 diwrnod/ sifft fesul gweithiwr cyngor (cyfwerth ag amser llawn) oherwydd absenoldeb salwch, o'i gymharu â 9.74 diwrnod yn 2017/18 (cyfartaledd Cymru: 10.4 diwrnod)

Yn ystod y flwyddyn, bu ein rheoleiddwyr (AGC, Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn) yn gwneud nifer o arolygiadau ac, o ganlyniad, derbyniwyd 25 o argymhellion neu gynigion i wella. Mae mwy o wybodaeth am yr hyn roedd gan ein rheoleiddwyr i'w ddweud amdanom i'w gweld ar dudalen 63 yr adroddiad hwn.

## Mae cynnydd yn erbyn ein gweithgareddau'n cynnwys:

### Ymgysylltu a chyfathrebu

- **Llwyfan Ymgysylltu Cyhoeddus Newydd** – Mae'r cyngor wedi prynu llwyfan ymgysylltu newydd o'r enw Citizen Space, a fydd yn ei gwneud yn haws i drigolion ymgysylltu â'r cyngor mewn modd mwy amserol, effeithlon ac ystyrlon. Bydd y llwyfan yn caniatáu gwell cydlynu ac archwilio'r holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu sy'n mynd rhagddynt ar draws y sefydliad, a bydd yn sicrhau bod adborth oddi wrth drigolion yn cael ei ddadansoddi'n fwy manwl, fel bod eu barn yn cael y sylw dyledus. Bydd y llwyfan hwn yn cefnogi ethos Gweledigaeth 2025 i sicrhau bod "gan gymunedau rôl weithgar i'w chwarae o ran dylunio a chyflenwi'r gwasanaethau sydd eu hangen".
- **Fframwaith Ymgynghori** - Mae'r Fframwaith Ymgynghori presennol wedi'i adolygu a'i adfywio, a cheisiwyd adborth staff a defnyddwyr er mwyn gwella ein ffordd o ymgysylltu â thrigolion.
- **Gwobrau Staff** – Gwnaethom gynnal ein gwobrau staff blynyddol i gydnabod a gwobrwyo'r gwasanaethau rhagorol y mae ein staff yn eu darparu. Derbyniwyd 103 o enwebiadau ar gyfer y gwobrau Staff, a chyflwynwyd 12 o wobrau yn cwmpasu amrywiaeth o gategorïau, gan gynnwys gwasanaeth i'r gymuned a thimau'r flwyddyn.
- **Mewnrwyd staff ddwyieithog newydd** – Gwnaethom ddatblygu a lansio safle mewnrwyd staff ar ei newydd wedd, i'w defnyddio fel offeryn cyfathrebu â staff. Mae ein mewnrwyd nawr ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- **Cyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd y cyngor** – Mae trigolion Powys nawr yn gallu gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y cyngor fel rhan o fenter cyfranogiad y cyhoedd. Yn dilyn treial cyhoeddus llwyddiannus y llynedd, lle cafodd aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau yng nghyfarfod llawn y cyngor, mae'r awdurdod nawr yn darparu 20 munud ar ddechrau pob sesiwn ar gyfer cwestiynau'r cyhoedd.

### Arweinyddiaeth a llywodraethu

- **Strwythur Uwch Reolwyr Newydd** – Gwnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o strwythur uwch reolwyr y cyngor a dangoswyd nad oedd mwyach yn addas i'r diben a bod angen ei ailwampio'n sylweddol iawn i gydweddu'n agosach â blaenoriaethau'r cyngor, i leihau cost rheoli a chael gwared â gweithio seilo. Mae tîm uwch reolwyr newydd mwy llyfn wedi'i roi ar waith, gan ei gwtogi o 24 swydd dros bedair haen reoli i 16 swydd dros dair haen. Mae gan y strwythur newydd ffocws cryf ar newid diwylliant y sefydliad cyfan i fod yn atebol ag i berfformio ar lefel uchel, ac mae hyn wedi'i gyfathrebu'n glir i'r holl staff.

- **Strategaethau'r Gweithlu wedi'u datblygu** – Mae strategaethau'r gweithlu a dadansoddiad o anghenion hyfforddi wedi'u datblygu ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Ysgolion, gan arwain at gynllun y gweithlu ar gyfer pob ardal. Bydd y cynlluniau'n sicrhau bod gennym y bobl iawn, â'r sgiliau iawn am y gost iawn. Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod gan bob gwasanaeth gynllun y gweithlu ar waith erbyn mis Hydref 2019, yn unol â'r cylch cynllunio busnes.
- **Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd** – Er mwyn cefnogi rhoi'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd newydd ar waith, gwnaethom gyflwyno gweithdy hyfforddi newydd ar gyfer rheolwyr. Yn ystod 2018-19, cwblhaodd 44 o reolwyr newydd y gweithdai. Gwnaethom barhau i herio ein perfformiad trwy gyfrwng cyfarfodydd adolygu chwarterol a, lle nodwyd tanberfformiad, blaenoriaethwyd camau i ddod â pherfformiad yn ôl ar y trywydd iawn.
- **Cynllun gwobrau staff newydd** – Er mwyn hybu a gwella llesiant ein gweithlu, ac er mwyn cadw staff yn well, gwnaethom lansio cynllun buddiannau staff. Mae llawer o'r staff wedi manteisio ar y cynllun, a hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019 roedd saith o geir prydles wedi'u harchebu, 42 o feiciau i waith wedi'u harchebu, ac mae llawer o staff yn defnyddio cyfleusterau hamdden ag aelodaeth â disgownt.
- **Hyfforddiant Arweinwyr a Rheolwyr** – Gwnaethom barhau i weithio gyda'n partneriaid i ddarparu hyfforddiant arweinwyr a rheolwyr er mwyn cryfhau'r sgiliau arwain yn y cyngor drwyddo draw. Yn ystod 2018-19, cwblhaodd 143 o staff gyrsiau cynefino mewn arweinyddiaeth, hyfforddi a mentora.
- **Cytunwyd ar broses Arfarnu Staff newydd** – Mae ffordd newydd o arfarnu staff wedi'i chyflwyno i ddarparu fframwaith cryfach ar gyfer yr holl reolwyr llinell a'u staff, i osod amcanion wedi'u seilio ar flaenoriaethau'r cyngor. Bydd y dull newydd o weithredu hefyd yn cadw ffocws clir ar berfformiad a gwelliant i sicrhau bod ein holl ymdrechion ac adnoddau'n canolbwyntio i'r un cyfeiriad.

## Newid ein ffordd o weithio

- **Gweithio Ystwyth** – Rydym wedi cynnal adolygiad trylwyr o swyddfeydd yng Ngogledd Powys a fydd yn arwain at gau prif swyddfa'r cyngor yn y Trallwng, sef Neuadd Maldwyn. Mae'r cyngor nawr yn gweithredu proses gweithio ystwyth lle bo'n bosibl, sy'n golygu na fydd staff yn cael man gweithio sy'n benodol iddyn nhw - y disgwyl yw y bydd gan adeiladau gymhareb o 60 lle ar gyfer 100 o staff. Mae swyddogion yn y cyngor nawr yn gweithio'n galed i ddod o hyd i'r canlyniad gorau i Neuadd Maldwyn, a'r gobaith yw y bydd yn cyfrannu'n bositif at y dref yn y dyfodol.
- **Trawsnewid Cwsmeriaid / y We** – Yn ystod 2018-19, aeth 12 proses y we yn fyw ar ein gwefan, gan ei gwneud yn haws i drigolion gyrchu ein gwasanaethau ar-lein. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys casglu gwastraff gardd, rhoi gwybod am dipio gwastraff anghyfreithlon, gofyn am gasglu gwastraff swmpus a dod o hyd i ysgol. Mae bod â gwasanaethau ar gael ar-lein yn gwella cynhyrchiant ac mae'n fwy effeithlon i'n cwsmeriaid. Er enghraifft, yn y gorffennol roedd yn rhaid i drigolion ffonio gwasanaethau cwsmeriaid i drefnu i gael gwastraff swmpus wedi'i gasglu. Maent nawr yn gallu cofnodi cais trwy'r we a dewis o gwymplen yn rhestru eitemau i'w casglu, yna bydd y system yn cyfrifo costau'r eitemau a bydd y cwsmer yn talu am eitemau. Mae'r broses yn golygu nad oes angen system swyddfa gefn mwyach, ac mae'r cwsmer yn gallu trefnu casgliad 24/7. Trefnwyd 79% o gasgliadau gwastraff swmpus trwy'r system ar-lein, ac roedd y gyfradd boddhad yn 96%. Mae boddhad cyfartalog â phrosesau'r we yn 84% o'i gymharu â 68% yn 2017.
- **Strategaeth Ddigidol Newydd** – Gwnaethom ddatblygu strategaeth trawsnewid digidol gynhwysfawr sy'n esbonio sut y byddwn yn manteisio ar dechnolegau digidol i drawsnewid ein ffordd o weithio, o ddefnyddio gwybodaeth, o gefnogi ein cwsmeriaid, o wella cyfleoedd trigolion ac o helpu ein busnesau i fod yn gystadleuol. Gwnaethom hefyd ddechrau proses ymgysylltu i geisio barn staff ar y dull arfaethedig o weithredu ac i gael eu syniadau ynglŷn â sut y gallwn weithio'n fwy craff a chadw i fyny â thechnoleg.

- Ailddylunio gwasanaeth– Gwnaethom barhau i adolygu ein prosesau mewnol presennol yn ogystal â phrosesau allanol ar gyfer cwsmeriaid i’w gwneud yn fwy effeithlon. Roedd enghraifft o’r gwaith a wnaed yn 2018-19 yn cynnwys edrych ar y broses ar gyfer anfon biliau at ein cwsmeriaid. O ganlyniad i’r adolygiadau, nodwyd arbedion o £380k, ac mae £160k o hyn wedi’i realeiddio.

### Sut ydym yn gweithio’n fwy cynaliadwy?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gynghorau lleol i ystyried sut y gall weithio’n fwy cynaliadwy ar draws 7 maes newid craidd. Mae’r tabl isod yn amlinellu’r pethau rydym wedi bod yn gweithio arnynt yn ystod 2018-19 i sicrhau bod ein prosesau, a’r ffordd rydym yn cynllunio ac yn cefnogi gwasanaethau ar y rheng flaen, yn ystyried yr hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

| Maes Newid | Sut rydym yn defnyddio’r pum dull o weithio i newid sut rydym yn meddwl, yn cynllunio ac yn gweithredu?<br>Hirdymor · Atal · Integreiddio · Cydweithredu · Cyfraniad |
|---|---|
| **Risg** | Rydym wedi cyflwyno system electronig newydd sy’n caniatáu cofnodi risgiau strategol a risgiau gwasanaeth yn haws, a’u dadansoddi ac adrodd arnynt. Bydd monitro pethau’n well fel hyn yn galluogi gwell rheolaeth ac yn sicrhau bod risgiau mawr yn cael eu hatal rhag digwydd neu waethygu. Bydd hefyd, o bosibl, yn caniatáu i’r cyngor ystyried ein risgiau strategol yn y tymor hir. |
| **Rheoli Perfformiad** | Rydym wedi bod yn rhan o weithgor cydweithredol Llywodraeth Cymru sy’n datblygu’r fframwaith perfformiad newydd dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn cydweithio â Data Cymru a Saroli Lab yn edrych ar sut i wella aeddfedrwydd data mewn Llywodraeth Leol a gwella data agored. Trwy wybodeg cenedlaethol WCCIS ar gyfer y Bwrdd Gofal Cymdeithasol, rydym hefyd yn helpu i arwain gwaith adolygu opsiynau adrodd ar y cyd i gwtogi ar gostau a gwneud yr adrodd ar ofal cymdeithasol mor effeithiol â phosibl, gan arwain at well deilliannau i ddinasyddion.<br><br>Rydym hefyd wedi bod yn rhan o weithgor sy’n cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith perfformiad newydd fel rhan o Fil drafft Llywodraeth Leol ac Etholiadau.<br><br>Rydym wedi parhau i gryfhau system rheoli perfformiad fewnol y cyngor (y Ganolfan Mewnwelediad Corfforaethol) sy’n caniatáu gweld data a gwybodaeth gefndir yn gynnar gan helpu gwasanaethau comisiynu i lunio darpariaeth ataliol well yn lle gwasanaethau sylfaenol drud. |

| | |
|---|---|
| | Mae Bwrdd Gwella a Sicrwydd annibynnol wedi bod ar waith yn ystod 2018-19, gan oruchwylio perfformiad ein Cynlluniau Gwella Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mae'r Pwyllgor Craffu ar Iechyd a Gofal, sy'n cynnwys Cynghorwyr Sir, hefyd wedi bod yn goruchwylio cynlluniau adfer y Cyngor i sicrhau bod y gwelliant gofynnol yn cael ei gyflawni.<br><br>Sefydlodd y cyngor Bwyllgor Craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cynnwys cynghorwyr sir a chynrychiolwyr cyrff cyhoeddus eraill y Bwrdd, i graffu ar waith gweithredu Cynllun Llesiant Tuag at 2040 y Bwrdd. |
| **Cynllunio Corfforaethol** | Gwnaethom ddatblygu 'Banc Gwybodaeth Llesiant' Powys, sef offeryn ar-lein sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â llesiant. Mae gallu cyrchu'r wybodaeth hon yn rhwydd yn helpu gwasanaethau i ddeall y tueddiadau presennol ac yn darparu tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio yn y tymor hir.<br><br>Er mwyn darparu sail ar gyfer cynllunio yn y dyfodol, rydym hefyd wedi gwneud adolygiadau trylwyr o'n prosesau gofal cymdeithasol oedolion, ein poblogaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod a'n hopsiynau ar gyfer datblygu canolfan wledig ranbarthol yng Ngogledd Powys. Rydym hefyd wedi dechrau adolygiad o ddarpariaeth a chapasiti ein hysgolion. Bydd y mewnwelediad y mae'r adolygiadau hyn yn ei roi yn helpu i ddarogan anghenion yn y dyfodol a'n galluogi i gynllunio gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny'n well.<br><br>Mae'r asesiad effaith gorfforaethol, a wneid pan ystyrir gwneud unrhyw benderfyniad mawr, yn cynnwys ystyried yr amcanion llesiant corfforaethol, y nodau llesiant cenedlaethol, y pum dull o weithio yn ogystal â chydraddoldebau a gofynion y Gymraeg, gan hwyluso penderfynu holistaidd.<br><br>Mae pob gwasanaeth wedi datblygu Cynlluniau Gwella Gwasanaeth, sydd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid o safbwynt corfforaethol, i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn cyd-fynd â gweledigaeth ac amcanion llesiant tymor hir y cyngor a bod y rhain, yn eu tro, yn cyfrannu at Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys.<br><br>Fel rhan o weithredu Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol, rydym wedi cael rhaglen helaeth o ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau bod trigolion yn cael eu cynnwys ac yn cael dweud eu dweud ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae ein trigolion wedi'i ddweud wrthym i'w gweld ar dudalen 60.<br><br>Rydym wedi dechrau edrych ar sut y gallwn integreiddio ein cynlluniau strategol allweddol, fel ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Cynllun Adran 6 (Dyletswydd Bioamrywiaeth), yn ein Cynllun Gwella Corfforaethol.<br><br>Mae Cynghorwyr Sir yn chwarae rôl allweddol wrth benderfynu ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol a chynrychioli llais trigolion. Un o'r ffyrdd allweddol y maent yn |

| | |
|---|---|
| | gwneud hyn yw trwy bwyllgorau craffu a gweithgorau. Adolygwyd pwyllgorau craffu a rhoddwyd strwythur newydd ar waith o fis Ionawr 2019, a oedd yn cynnwys diwygio rôl y Pwyllgor Archwilio a sefydlu Pwyllgor Cydlynu'n cynnwys cynrychiolwyr y Cabinet, Tîm Rheoli'r cyngor a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion craffu.<br><br>Mae cynghorwyr yn mynychu nifer o sesiynau briffio ynglŷn â datblygiadau yn y dyfodol, fel y Diwrnod Trawsnewid, a ddarparodd fanylion am brosiectau trawsnewid allweddol y cyngor ar gyfer cyflawni Gweledigaeth 2025. |
| **Cynllunio Ariannol** | Cydnabyddir bod angen integreiddio gwell rhwng ein prosesau cynllunio ariannol a chorfforaethol i sicrhau bod ein cynlluniau'n cael adnoddau'n effeithiol a bod modd magu dull o weithredu sy'n edrych ar y tymor hir.<br><br>Mae'r pwyllgorau craffu diwygiedig nawr yn gyfrifol am fonitro perfformiad a pherfformiad ariannol. |
| **Cynllunio'r Gweithlu** | Bu ein tîm Gwybodaeth Busnes yn gwneud dadansoddiad trylwyr o weithlu'r Gwasanaethau Plant, a helpodd i ddarparu sail ar gyfer datblygu strwythur staffio mwy cynaliadwy ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar gymorth cynnar a chydweithio.<br><br>Mae Cynlluniau'r Gweithlu hefyd wedi'u datblygu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth ysgolion i sicrhau bod gennym y bobl iawn, â'r sgiliau iawn am y gost iawn nawr, ac yn y tymor hir. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynlluniau ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2019-20. |
| **Asedau** | Mae dros £630,000 wedi'i godi mewn ocsiwn a werthodd naw o adeiladau'r cyngor nad oedd mo'u hangen mwyach. Mae gwerthu'r adeiladau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddatblygwyr greu cartrefi wedi'u hailwampio, naill ai i fyw ynddynt eu hunain neu i'w rhoi ar osod.<br><br>Rydym wedi dechrau edrych ar ddichonoldeb datblygu hyb gwasanaethau ar y cyd yn Aberhonddu, a fyddai'n cynnwys Cyngor Sir Powys, Heddlu Dyfed Powys a phartneriaid gwasanaethau brys / sector cyhoeddus eraill. Bydd hyn yn ein galluogi i gydweithio'n well â'n partneriaid ac yn darparu atebion tymor hir ar gyfer rheoli portffolio eiddo cynaliadwy mewn ffordd integredig. Gwnaethom hefyd gynnal gweithdai i edrych ar gyfleoedd i arallgyfeirio ein stad ffermydd a datblygu diwydiannau neu gadwyni cyflenwi newydd, gan gynnwys Fferm Solar, Canolfan Genedlaethol ar gyfer Uwch Adeiladu â Phren a Chanolfannau Seibiant. Yn sgil y gweithdai cychwynnol, mae gwaith yn mynd rhagddo'n archwilio dichonoldeb cyfleuster Gofal Seibiant Cymdeithasol, trwy ddysgu beth sydd wedi gweithio mewn mannau eraill. Archwiliwyd cyfleoedd hefyd ar gyfer canolfan i roi bwyd ar brawf gyda Chanolfan Bwyd Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Caffael** | Rydym wedi parhau i fwrw ymlaen â'n menter 'Punt Powys' i sicrhau bod busnesau lleol yn gallu cael budd o wariant y cyngor. Rydym wedi cynnwys busnesau lleol trwy ddigwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr'. |

## Faint y gwnaethom ei arbed/ei wario yn 2018-19?

**Prif arbedion:**

- Trawsnewid y Gwasanaeth Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu, gan gynhyrchu incwm ychwanegol a newid arferion gweithio i ddarparu'r gwasanaeth - £586k
- Rheoli Swyddi Gwag - £92k
- Arbedion TGCh - £350k

## Diweddariadau i'n cynllun a gwelliannau allweddol ar gyfer 2019 - 2020

| Gweithgaredd – Beth y byddwn yn ei wneud? | Sut y byddwn yn mesur llwyddiant? |
|---|---|
| **Ymgysylltu a chyfathrebu –** Gwrando, rhannu gwybodaeth a meithrin ffydd gyda'n dinasyddion, cymunedau a staff | |
| Byddwn yn datblygu offerynnau i alluogi trigolion i gael eu clywed, a mynd ati'n barhaus i gyfathrebu a thrafod â'r cymunedau i ddarparu sail ar gyfer penderfyniadau | • Llwyfan ymgysylltu newydd wedi'i weithredu<br>• Panel Dinasyddion Powys wedi'i sefydlu ar dudalen Fy Nghyfrif<br>• Yr Arolwg Trigolion wedi'i gwblhau |
| **Arweinyddiaeth a llywodraethu –** Bydd ein staff ac aelodau'n cydweithio gyda'n partneriaid, gan ddefnyddio'r systemau a gwybodaeth cywir i sicrhau y caiff y cyngor ei redeg yn effeithiol | |
| Byddwn yn ailfodelu strwythur staffio'r cyngor i wreiddio newidiadau mewn diwylliant sefydliadol, ar yr un pryd â gwneud arbedion ariannol sylweddol.<br><br>Byddwn yn sicrhau bod y gweithlu'n meddu ar y sgiliau, yr agwedd, yr ymddygiadau a'r profiad iawn, ac yn datblygu ein doniau ein hunain trwy brentisiaethau a hyfforddiant, i'w galluogi i gyrraedd eu potensial. | • Gwelliant yng nghanlyniadau arolygon staff<br>• Cwtogi ar y bil cyflogau<br>• Cwtogi ar nifer y bobl a gyflogir<br>• Cwtogi ar nifer y diwrnodau gweithio/sifftiau fesul gweithiwr FTE a gollir oherwydd absenoldeb salwch (cronnol dros 12 mis)<br>• Nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus sy'n cael eu recriwtio'n fewnol/eu cyfateb i rolau<br>• Canran y staff sy'n derbyn Arfarniad Staff |

**Newid ein ffordd o weithio -**
Gwneud y defnydd gorau o'r hyn sydd gennym, a gweithio mewn ffyrdd newydd, arloesol i gyflawni ein blaenoriaethau er budd dinasyddion a chymunedau'r sir

Cynllunio a gweithredu ein trawsnewid digidol, gan osod y map ar gyfer y ffordd y bydd y Cyngor yn manteisio ar dechnolegau digidol i drawsnewid ein modd o ddarparu gwasanaethau trwy ein ffordd o weithio, ein ffordd o ddefnyddio gwybodaeth, cefnogi ein cwsmeriaid, gwella cyfleoedd i drigolion a helpu ein busnesau i gystadlu.

Fe wnawn baratoi strategaeth sy'n seiliedig ar leoedd i Aberhonddu a fydd yn adolygu ac yn gwneud argymhellion ar bortffolio eiddo'r cyngor yn Aberhonddu, yn ogystal â thai, addysg, gofal ychwanegol ac anghenion y cyngor a phartneriaid o ran lle swyddfa nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn adolygu ac yn ailddylunio ein gwasanaethau i sicrhau eu bod yn fwy effeithlon ac yn canolbwyntio ar ofynion ein cwsmeriaid.

Byddwn yn adolygu ac yn gwreiddio Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd i sicrhau bod gwybodaeth fanwl gywir, sy'n cyd-fynd â gweledigaeth a blaenoriaethau'r cyngor, wrth wraidd ein penderfyniadau.

Byddwn yn archwilio manteision sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol i wella cyfleoedd i gynhyrchu mwy o incwm yn ogystal ag ymgyrchu'n sylweddol i gwtogi ar wariant y Cyngor.

Byddwn yn parhau i wreiddio gwerthoedd ac egwyddorion arweiniol y cyngor (5 dull o weithio) mewn cynlluniau strategol a chynlluniau gwasanaeth ac arfarniadau staff i annog staff i feddwl yn wahanol, ymddwyn yn wahanol ac felly cyflenwi gwasanaethau'n wahanol.

- Byddwn yn gwella asesiadau rheoleiddwyr allanol ohonom
- Gwella perfformiad o ran ein mesurau corfforaethol:
  - Canran y cwynion yr ymatebir iddynt o fewn amserlenni statudol
  - Cyfanswm nifer y canmoliaethau a dderbynnir fel cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf
  - Canran yr amrywiant yn y gyllideb refeniw
  - Cyfanswm nifer y diwrnodau gweithio/sifftiau fesul gweithiwr FTE a gollir oherwydd absenoldeb salwch

## 3.1 Strategaeth Ariannol

Mae’r Cyngor yn dal i ymateb i’r her ariannol fawr sy’n ei wynebu i sicrhau ei fod yn cynnal cyllideb gytbwys. Mae’r arian a dderbyniwn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn parhau i ostwng bob blwyddyn, ond mae’r galw a chost ein gwasanaethau’n cynyddu, yn enwedig i gefnogi’r henoed a’r oedolion a’r plant mwyaf agored i niwed sy’n byw ym Mhowys. Mae’r cyfrifoldebau ychwanegol a orfodir arnom yn cynyddu ein costau ac mae effaith chwyddiant a phwysau cyflogau a phrisiau eraill yn golygu ein bod yn gorfod talu mwy i’n cyflenwyr a’n contractwyr wrth iddynt godi eu prisiau i gwrdd â’u pwysau ariannol eu hunain.


Mae cyfuniad o’r ffactorau hyn yn cyflwyno her sylweddol i gynhyrchu cyllideb gytbwys bob blwyddyn, a’r dewisiadau sydd gennym i wneud hyn yw cynyddu’r incwm sy’n dod i mewn i’r awdurdod trwy gynyddu ffioedd a symiau a godir a chynyddu’r Dreth Gyngor, neu leihau neu newid y gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Mae’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn sefydlu’r fframwaith ar gyfer ein cynllunio ariannol. Mae’r broses gyfan yn dal i gael ei mireinio, ei datblygu a’i chryfhau fel bod modd lliniaru’r risg y mae’r Cyngor yn ei hwynebu, o ganlyniad i gwtogi ar y cyllid a phwysau ariannol cynyddol. Mae’n rhaid i ni greu Cyngor sy’n ariannol gryf am y tymor byr, canol a hir. Drwy adeiladu ar y gwelliannau rydym eisoes wedi’u gwneud, mae dull strategol newydd o ddyrannu adnoddau’n cael ei ddatblygu. Bydd y dull hwn o weithredu’n dod â holl elfennau’r Cyngor at ei gilydd mewn un strategaeth ariannol gyffredin, sy’n cyflawni Gweledigaeth 2025, rhaglen o drawsnewid, ac sy’n cwmpasu gwella gwasanaethau ac yn cyflawni gwasanaethau statudol ar lefel briodol. Bydd yn alinio refeniw a chyfalaf yn well i sicrhau bod ein hadnoddau cyfyngedig yn cael eu blaenoriaethu er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, ac yn seiliedig ar sicrhau deilliannau sydd o bwys i’n trigolion

Wrth osod ein cyllideb ar gyfer 2019-20, mae’r cyngor wedi ymdrechu i ddiogelu’r gwasanaethau y mae ein trigolion yn eu gwerthfawrogi ac sydd eu hangen arnynt, ac ar yr un pryd sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau statudol yn effeithiol ac yn cael gwerth am arian. Byddwn yn arbed costau o dros £12m y flwyddyn nesaf, gan gwtogi’n sylweddol ar gost y Cyngor. Ond nid yw’r rhain ar eu pennau eu hunain yn ddigon i gydbwyso’r sefyllfa gyffredinol. Rydym felly wedi gorfod cynyddu lefel y Dreth Gyngor a godwn o 9.5%, a bydd hyn yn darparu £7.4m ychwanegol ac yn galluogi’r Cyngor i osod cyllideb gytbwys. Yn 2019-20, mae’r Cyngor yn bwriadu gwario cyllideb net o £255.2m.



## Cyllideb refeniw 2019-20




| | | |
|---|---|---|
| £91.9m | 36.0% | Ysgolion |
| £88.7m | 34.8% | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| £29.1m | 11.4% | Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu |
| £15.9m | 6.2% | Costau corfforaethol* |
| £8.7m | 3.4% | Tai a Datblygu Cymunedol |
| £5.7m | 2.2% | Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| £5.5m | 2.2% | Cwsmeriaid a Chyfathrebu |
| £4.5m | 1.8% | Gwasanaethau eraill |
| £4.3m | 1.7% | Cyllid |
| £0.9m | 0.4% | Strategaeth a Pherfformiad |

*Costau corfforaethol yn cynnwys Budd-daliadau, Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, Archwilio Allanol, Costau benthyca

Nid ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd y mae'r Cyngor yn gwario'i holl arian. Mae'r cyngor hefyd yn buddsoddi gwariant cyfalaf yn yr eiddo, y cerbydau a'r offer sy'n galluogi darparu gwasanaethau. Bwriedir dilyn rhaglen ar gyfer  buddsoddiad cyfalaf gwerth £92.3m ar gyfer 2019-20 fel rhan o raglen fuddsoddi pum mlynedd gwerth £277.7m. Cyfuniad o fenthyciadau, grantiau, derbyniadau o werthu asedau a chronfeydd wrth gefn sy'n ariannu hyn.

## Cyllideb cyfalaf 2019-20



## 3.2 Gwrando ar ein trigolion

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i feithrin dialog ac i ymgysylltu â thrigolion Powys mewn nifer o ffyrdd, tra ein bod, ar yr un pryd, yn meithrin ac yn defnyddio sianeli'r cyfryngau cymdeithasol i sicrhau ein bod yn clywed oddi wrth gynifer o'n rhanddeiliaid â phosibl wrth ystyried newid ein dull o ddarparu gwasanaethau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu a meithrin dialog yn gynnar wrth lunio polisi a gwasanaethau, a hynny ochr yn ochr â'r ymarferion ymgynghori mwy traddodiadol. Yn ystod 2018-19, cynhaliwyd nifer o ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori i gefnogi Gweledigaeth 2025:

### Economi

- **Arolwg Cynllun Gweithredu Datblygu Economaidd Rhanbarthol** – derbyniwyd 279 o ymatebion. Rhai themâu a ddaeth i'r fei oedd gwell cyfathrebu digidol (band eang cyflym iawn), llai o reoleiddio busnes a gallu recriwtio staff medrus. Yr effaith:  Bydd y darganfyddiadau nawr yn cyfrannu at gynhyrchu cynllun datblygu economaidd rhanbarthol ac yn ei gefnogi.
- **Ymgynghoriadau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** – Mabwysiadodd y Cyngor y CDLl ar 17eg Ebrill 2018 yn sgil cwblhau'r Archwiliad Cyhoeddus o CDLl Powys ac ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd. Gwnaeth yr adborth a gafwyd trwy gydol y broses oddi wrth randdeiliaid ddylanwadu ar fersiwn derfynol y cynllun. Derbyniwyd 59 o ymatebion i arolwg dilynol a oedd yn ceisio adborth ar y broses. Roedd y mwyafrif wedi gallu gweld y cynllun trwy'r wefan ac roeddent yn cytuno bod eu cynrychiolaeth nhw wedi'i brosesu mewn modd amserol ac roeddent yn gwybod beth fyddai'n digwydd nesaf. Yr effaith: Defnyddir yr adborth i ddarparu sail ar gyfer prosesau'r dyfodol ac i leihau'r defnydd o iaith dechnegol.

### Iechyd a Gofal:

- **Iechyd a llesiant gogledd Powys** – Mae'r cyngor yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i nodi model iechyd a llesiant ar gyfer gogledd Powys. Mae sgyrsiau cynnar wedi bod yn mynd rhagddynt – yn bennaf gyda'r partneriaid sy'n cymryd rhan, ond bydd ymgynghori ac ymgysylltu mwy manwl yn dilyn gyda'r holl randdeiliaid a thrigolion allweddol i helpu i siapio'r prosiect.
- **Adleoli gwasanaethau camddefnyddio sylweddau** – Yn y Trallwng, ymgysylltodd y cyngor â'r gymuned leol cyn symud gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i leoliad yng nghanol y dref. Yr effaith:  Mae hyn wedi caniatáu trosglwyddo'r gwasanaethau'n ddidrafferth o un lleoliad i'r llall.

### Dysgu a sgiliau:

- **Ymgynghoriad Trafnidiaeth** – Cynhaliwyd ymgynghoriad ar drafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol a'r coleg yn ystod haf 2018. Un o'r pwyntiau allweddol yn y polisi diwygiedig arfaethedig oedd rhoi ystyriaeth i godi tal ar fyfyrwyr am deithio i addysg ôl-16 – chweched dosbarth a cholegau. Yr effaith:  Roedd cryn wrthwynebiad i hyn a phleidleisiodd y Cabinet i ymchwilio mwy i effaith bosibl codi tâl o'r fath cyn mynd â hyn ymhellach. Bu rhyw 400 o bobl yn rhan o'r ymgynghoriad.
- **Fformwla ysgolion** – Cynhaliwyd ymgynghoriad i greu fformwla ariannu diwygiedig ar gyfer ysgolion ym Mhowys gyda'r cymunedau ysgol i edrych ar y fframwaith ar gyfer dyrannu cyllid i ysgolion. Yr effaith:  Arweiniodd yr adborth a'r dadansoddiad o'r ymatebion at lwyddo i roi fformwla newydd ar waith ac mae'r dyraniadau i bob ysgol wedi'u cwblhau.
- A**rolwg Ysgol Bob Oed Llanidloes** – Cysylltodd y ddwy ysgol yn Llanidloes – yr ysgol uwchradd a'r ysgol gynradd – â'r cyngor sir â'r bwriad o gael statws Ffederasiwn ar gyfer y ddau sefydliad. Cefnogodd y cyngor y newid mewn egwyddor a bu'n helpu'r ddau gorff llywodraethu i gynnal proses

- **ymgynghori – ar-lein ac all-lein** – ar y cynnig i ffedereiddio. Yr effaith: Cafodd y cynnig gefnogaeth gyhoeddus eang ac, yn eu cyfarfod ar y cyd ar 20 Chwefror 2019, cytunodd y ddau gorff llywodraethu i fwrw ymlaen â Ffedereiddio o fis Medi 2019.
- **Arolwg Ysgol Bob Oed Llanfyllin** – A hwythau mewn sefyllfa debyg i Lanidloes, cysylltodd y ddwy ysgol yn Llanfyllin â'r cyngor sir â'r bwriad o ffurfio Ysgol Bob Oed (er nid Ffederasiwn fel yn Llanidloes). Eto, cefnogodd y cyngor sir y cynnig hwn mewn egwyddor a bu'n helpu'r ddau gorff llywodraethu i gynnal yr ymgynghoriad. Derbyniwyd rhyw 80 o ymatebion i'r cynnig gyda chefnogaeth eang. Yr effaith: Ar 12 Mawrth, cytunodd y cyngor i'r cynnig a chyhoeddodd Hysbysiad Statudol, ac mae modd cyfrannu sylwadau ar hyn hyd at 17 Ebrill.
- **Ysgolion cynradd Llanerfyl a Banw** – Bu'r cyngor yn ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanerfyl ac Ysgol Gynradd Dyffryn Banw ac ailagor ysgol ar safle un o'r ddau sefydliad hyn. Cynhaliwyd ymgynghoriad – cyfuniad o sesiynau galw heibio ac arolwg ar-lein, a derbyniodd yr arolwg 250 o ymatebion. Cafwyd ymateb cymysg i'r cynnig gyda dadleuon o blaid ac yn erbyn y ddau safle. Yr effaith: Bu'r Cabinet yn trafod hyn ar 12 Mawrth 2019 ond gohiriwyd y penderfyniad tan ddyddiad ym mis Ebrill er mwyn ystyried rhagor o wybodaeth.

## Trigolion a chymunedau

- **Arolwg Bathodyn Glas** – Yn sgil gwaith ymgysylltu cynnar a wnaed yn ystod 2017/18, cafodd arolwg ei hyrwyddo i ddarganfod barn deiliaid bathodyn glas er mwyn darparu sail ar gyfer cynnig polisi newydd. Y cynnig oedd bod pob deiliad bathodyn glas yn cael parcio am ddim am awr mewn maes parcio'r cyngor ond bod yr rhaid talu am barcio am unrhyw amser ychwanegol. Ymatebodd deiliaid bathodyn glas trwy ddweud eu bod yn ei chael yn anodd mynd i mewn/allan o'r car yn y mannau sydd wedi'u darparu, mynd at y peiriant tocynnau, trin yr arian a hyd yn oed cerdded yn bell iawn. Roedd mwyafrif y bobl a ymatebodd eisiau cadw'r sefyllfa sydd ohoni lle roeddent yn parcio am ddim. Gosodwyd y cynnig i dalu am awr ac yna cael awr am ddim yn ail ddewis o'r pedwar opsiwn a gafodd eu rhestru. Yr effaith: Er bod y cynnig roedd y cyngor yn ei ffafrio wedi'i gyflwyno fel rhan o gynigion y cyngor ar gyfer y gyllideb, pleidleisiodd y Cyngor Llawn i gadw'r sefyllfa sydd ohoni gyda'r deiliaid bathodyn glas yn cadw'r hawl i barcio am ddim ym meysydd parcio'r cyngor yn ystod 2019/20.
- **Arolwg Teithio Llesol** – Roedd yr arolwg hwn yn casglu adborth ynglŷn â pha mor aml y mae pobl yn cerdded neu'n seiclo pellteroedd byr yn yr 11 tref Teithio Llesol penodol. Derbyniwyd 92 o ymatebion, gyda thrigolion yn Aberhonddu, Llanandras a Llandrindod yn arbennig yn canmol ethos teithio llesol ac yn gofyn am fwy o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned ac eraill (gwarchodfeydd natur) ac ati. Yr effaith: Defnyddir y farn a gesglir ynglŷn â chyflwr palmentydd, rheseli beiciau, diogelwch i gerddwyr fel tystiolaeth wrth gyflwyno cynigion a datblygu prosiectau'r dyfodol.
- **Boddhad Oedolion â Llyfrgelloedd** – Mae'r arolwg cenedlaethol hwn yn rhedeg ledled holl lyfrgelloedd Cymru am un wythnos er mwyn ceisio barn ynglŷn â pha mor fodlon yw bobl â'r gwasanaeth craidd. Derbyniwyd bron iawn 300 o ymatebion. Roedd yr adborth ar wasanaethau a ddefnyddir yn gadarnhaol ar y cyfan. Rhai o'r prif resymau o hyd am fynd i'r llyfrgell yw i fenthyca llyfrau, i bori yng nghanol llyfrau, cylchgronau a darllen papurau newydd ochr yn ochr â defnyddio cyfrifiaduron yn rhad ac am ddim. Yr effaith: Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r adborth i greu darlun o'r defnydd o lyfrgelloedd yng Nghymru. Defnyddir sylwadau gan unigolion ym Mhowys i wella boddhad cwsmeriaid ac mae rhai wedi'u defnyddio eisoes fel rhan o ddeunyddiau ymgynghori a ddatblygwyd i ymgysylltu â thrigolion ynglŷn ag adolygu pob cangen, gan eu bod yn ceisio gwneud arbedion o £200k yn ystod 2020/21.
- **Cydleoli Llyfrgell y Trallwng** – Arweiniodd adolygiad o adeiladau yng ngogledd y sir at gynnig i gydleoli'r llyfrgell bresennol gyda'r amgueddfa yn y Trallwng er mwyn rhoi lle ar gyfer swyddfeydd i'r gweithwyr wrth iddynt symud allan o adeilad nad oes mo'i angen mwyach ac sy'n cael ei werthu ar y

farchnad agored. Penderfynwyd ymgynghori â thrigolion y dref ynglŷn â'r cynnig a ffafriwyd er y byddai'n bosibl y byddent yn ei wrthwynebu. Roedd y gwasanaeth am gael arolwg ar-lein i ddarganfod y farn. Rhestrwyd opsiynau amgen hefyd a gofynnwyd i'r trigolion nodi pa un oedd yn well ganddynt. Yr effaith: Roedd gwrthwynebiad i gydleoli'r llyfrgell gyda'r amgueddfa a chynigiwyd rhai opsiynau eraill. Fodd bynnag, trwy roi'r sylw dyledus i'r rhain ac yn sgil trafodaethau â chyngor y dref ynglŷn â'r cynnig, penderfynwyd mai cydleoli oedd y ffordd orau i alluogi adleoli staff i adeilad y llyfrgell ac i barhau i ddarparu gwasanaethau fel cyngor ar dai, gofal cymdeithasol a safonau masnach i drigolion tra ar yr un pryd yn cadw gwasanaeth llyfrgell ac amgueddfa cyfunol – er ei fod mewn lle llai. Bydd adleoli'r llyfrgell yn adeilad yr amgueddfa'n cyfrannu arbedion at y targed o £200k a osodwyd ar gyfer y gwasanaeth.

- **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy** – Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu i ymgynghori â defnyddwyr a'r rhai â diddordeb yn y rhwydwaith hawliau tramwy cyn adolygu a/neu ddatblygu cynllun deng mlynedd diwygiedig fel y manylir arno gan statud. Cipiodd arolwg ar-lein a grwpiau ffocws adborth a ddefnyddiwyd i gynhyrchu cynllun drafft. Unwaith y cafodd ei gynhyrchu, cafwyd cyfnod 12 wythnos o ymgynghori i alluogi defnyddwyr a buddgarfanau i wneud sylwadau ar y cynllun trwy arolwg cynhwysfawr ar-lein â'r nod o flaenoriaethu opsiynau a'u gosod mewn trefn.Yr effaith: Gwnaeth yr ymgysylltu cynnar, sesiynau'r grwpiau ffocws a'r arolygon wedi'u targedu, helpu'r defnyddwyr i roi adborth a ddarparodd sail ar gyfer y drafft cyntaf a'i siapio. Cafodd y cyngor ei ganmol am y broses ymgynghori a ddilynwyd. Atodwyd adroddiad ar y darganfyddiadau terfynol at adroddiad y Cabinet ac mae'r cynllun bellach wedi'i fabwysiadu.
- **Strategaeth Toiledau Cyhoeddus** – Gosododd Llywodraeth Cymru ddyletswydd ar bob awdurdod lleol i gynhyrchu strategaeth erbyn mis Mai 2019. Cynhaliodd y cyngor grwpiau ffocws wedi'u targedu ac wedi'u seilio ar ymchwil a mapio rhanddeiliaid, i ymgysylltu â rhai o'r defnyddwyr allweddol gan gynnwys mamau a phlant ifanc, teuluoedd â phlant anabl, gofalwyr a'r grŵp anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau. Hefyd, anfonwyd ffurflen ar-lein at holl ddarparwyr toiledau hysbys a lansiwyd arolwg cyhoeddus ochr yn ochr â grwpiau ffocws fel rhan o Gam 1 i gael adborth ychwanegol. Yr effaith: Cyfrannodd yr adborth a gasglwyd ynglŷn â diffyg cyfleusterau newid babanod a Lleoedd Newid i oedolion at y rhestr o gamau yn y cynllun drafft terfynol sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.
- **Gwastraff Gardd Gwyrdd** – Powys yw un o'r ychydig awdurdodau sy'n dal i ddarparu banciau gwastraff gwyrdd gardd mewn meysydd parcio ledled y sir. Ymgynghorwyd ynglŷn â chynlluniau i gyflwyno gwasanaeth gwastraff gardd gwyrdd y codir tal amdano er mwyn cael adborth oddi wrth drigolion ar gostau, math o fin, amlder y casglu ac opsiynau talu. Ymatebodd dros 2000 o drigolion. Dywedodd hanner bod ganddynt ddiddordeb yn y gwasanaeth ac y byddent yn hapus i dalu rhwng £30 a £40 y flwyddyn am gasgliad o ymyl y ffordd. Yr effaith: Defnyddiwyd ymatebion y trigolion i sefydlu amlder, costau a maint y biniau a bwriedir lansio'r gwasanaeth ym mis Ebrill 2019.
- **Arolwg pont Teithio Llesol y Drenewydd** – Gwnaeth y cyngor gais llwyddiannus am arian oddi wrth Lywodraeth Cymru dan y cynllun Teithio Llesol i adeiladu pont ar gyfer cerddwyr a seiclwyr dros afon Hafren yn croesi o Ffordd y Trallwng i Ffordd y Gamlas. Bu'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn i ymgysylltu â thrigolion a busnesau ynglŷn â sut olwg ddylai fod ar y bont a gofynnwyd hefyd am syniadau am unrhyw enwau posibl. Cynhaliwyd arolwg ar-lein ynghyd â dwy sesiwn galw heibio. Yr effaith: Cafodd yr adborth hwn ddylanwad ar y broses ddylunio a phenderfynir ar enw ar gyfer y bont yn ddiweddarach.

## 3.2 Gwrando ar ein rheoleiddwyr

Rydym yn atebol i nifer o gyrff rheoleiddio allanol sy'n arolygu ein gwasanaethau, sef:

- **Swyddfa Archwilio Cymru,** sef corff gwarchod y sector cyhoeddus ar gyfer Cymru. Eu nod yw sicrhau bod pobl Cymru'n cael gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth, a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n deall sut i wella deilliannau.
- **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru  gynt) sy'n annog gwelliant ym meysydd gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol trwy reoleiddio, arolygu, adolygu a darparu cyngor proffesiynol i weinidogion a'r rheini sy'n llunio polisïau.
- **Estyn**, sef Swyddfa Arolygaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Eu cenhadaeth yw sicrhau rhagoriaeth ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru trwy godi ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant. Mae gan Estyn amrywiaeth eang o gyfrifoldebau statudol i arolygu a chynhyrchu adroddiadau sy'n cynnwys arolygu holl addysg a hyfforddiant a ariennir ag arian cyhoeddus ledled Cymru.

Byddwn yn parhau i groesawu darganfyddiadau ein rheoleiddwyr ac yn gweithio mewn partneriaeth â nhw i sicrhau bod ein cynlluniau'n cyflawni'r gwelliannau gofynnol i wasanaethau.

Isod ceir amlinelliad o gynigion ac argymhellion allweddol ar gyfer gwella yr ydym wedi'u derbyn oddi wrth reoleiddwyr yn ystod 2018-19. Rydym wedi defnyddio'r darganfyddiadau hyn i atgyfnerthu ein cynllun ar gyfer 2019 ymlaen.

### Economi

**Adolygiad Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth Swyddfa Archwilio Cymru – Gwasanaethau Tai (Awst 2018)**

- C1 Dylai'r Cyngor gryfhau fel mater o frys gyflawniad SATC yn y dyfodol trwy gyflymu ei broses o ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu tenantiaid sy'n byw mewn cartrefi oer.
- C2 Dylai'r Cyngor barhau i weithio gyda thenantiaid i gryfhau ei ddull o gynorthwyo pobl sy'n cael problemau anweddiad a lleithder.
- C3 Dylai'r Cyngor gryfhau ei ddull o ymgysylltu ac archwilio ffyrdd mwy arloesol o gyrraedd y bobl niferus sy'n anodd eu cyrraedd o ganlyniad i heriau daearyddol byw ym Mhowys.

### Iechyd a Gofal:

**Adroddiad Arolygiad o Wasanaethau Oedolion AGC Mai 2018 -** Mae eu hadroddiad yn manylu ar chwe argymhelliad sy'n flaenoriaeth a deg arall lle maent yn disgwyl gweld gwelliant yn y 12 mis nesaf.

- A1 – mae'n rhaid i uwch-arweinwyr barhau i ddarparu cymorth gwleidyddol a chorfforaethol cryf ar gyfer gwasanaethau i oedolion er mwyn sicrhau gwelliannau i'r gwasanaeth;
- A2 – sicrhau bod yr holl ymholiadau diogelu yn cael eu gwneud o fewn amserlenni statudol;
- A3 – sicrhau goruchwyliaeth a dealltwriaeth glir gan reolwyr o'r galw, capasiti a blaenoriaethu llif gwaith o fewn y system diogelu oedolion;
- A4 – cryfhau'r cynllun gwella gwasanaethau i oedolion presennol;
- A5 – gwella systemau ar frys i sicrhau bod rheoli a blaenoriaethu dyrannu, asesu a chyflenwi gwasanaeth er mwyn atal oedi i bobl sy'n derbyn gwasanaethau;
- A6 – llunio strategaeth gweithlu gadarn er mwyn cynnwys cynlluniau tymor byr, tymor canolig a hirdymor ar gyfer recriwtio a chadw gweithlu gwasanaethau i oedolion.

**Ymweliad monitro gwasanaethau Plant ac Oedolion AGC Gorffennaf 2018 -** Ym mis Gorffennaf 2018, cynhaliodd AGC weithgaredd monitro i adolygu cynnydd y cyngor wrth gyflawni ei gynlluniau gwella ar gyfer gwasanaethau Oedolion a Phlant. Canolbwyntiodd eu gwaith maes ar drefniadau diogelu a sicrhau ansawdd.

Gwelsom fod systemau sicrhau ansawdd wedi'u diwygio a'u datblygu yng Ngwasanaethau Oedolion a Phlant fel ei gilydd. Roeddem yn ymwybodol o'r gwaith archwilio yn y Gwasanaethau Plant ac rydym nawr yn fwy hyderus yng nghapasiti'r awdurdod lleol a'i fwriad i graffu ar brosesau ac arferion, oherwydd eich bod wedi penodi Rheolwyr Sicrhau Ansawdd a Swyddogion Polisi. Mae adnoddau ychwanegol o fewn y tîm Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi gwella'n fawr y rôl herio o fewn Gwasanaethau Plant.

Rydym yn fodlon bod trafodaethau am oruchwyliaeth rheolwyr yn digwydd yn rheolaidd ac mae hyn yn parhau i fod yn faes â blaenoriaeth. Rydym yn nodi cynnydd mewn cwynion, yr ydych wedi ymateb iddynt trwy ddarparu adnoddau ychwanegol a mwy o ffocws ymhlith uwch-reolwyr ar ansawdd ymchwiliadau cychwynnol ac ar staff yn dysgu o'r themâu a nodwyd.

**Meysydd pryder / i'w gwella**
**Sicrhau ansawdd**
- Bu rheolwyr yn y Gwasanaethau Oedolion yn archwilio llai o ffeiliau na'r disgwyl ym mis Mai a mis Mehefin. Dywedwyd mai problemau â chapasiti oedd i'w feio am hyn, ac mae hyn yn debygol o barhau i fod yn her ar draws y gwasanaethau cymdeithasol.

**Cwynion**
- Mae'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn derbyn 20 o gwynion y mis. Mae bron hanner y rhain yn ymwneud â chyfathrebu gwael gan staff gwaith cymdeithasol. Mae uwch reolwyr yn edrych ar ansawdd ymchwiliadau cyfnod un.
- Er bod Swyddogion Cwynion yn darparu adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Tîm Rheolwyr Gweithredol a'r Tîm Uwch Reolwyr, nid yw eu gwaith yn dod o dan strwythurau a fframweithiau sicrhau ansawdd.

**Goruchwyliaeth**
- Roedd rhai cofnodion goruchwylio'n dangos mwy o sylw nag eraill i ddatblygiad proffesiynol a materion personol. Nid oedd yn beth arferol i gamau gweithredu roedd y rheolwyr yn eu gosod gael ffrâm amser i'w cwblhau. Mewn dau achos, gwelsom adrannau o destun a oedd wedi'u copïo a'u gludo o gofnod yr oruchwyliaeth flaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth**
- Mae cynrychiolwyr iechyd yn credu y bydd cyfleoedd i gael mwy o gydweithio rhwng asiantaethau statudol ar ddogfennau strategaeth. Roedd uwch reolwyr yn yr awdurdod lleol yn cytuno y byddai cydweithio mwy o fudd i weithio amlasiantaeth.

- Roedd cynrychiolwyr iechyd yn pryderu nad ydynt yn cael eu cynnwys fel mater o drefn yng nghyfnodau cychwynnol gwaith diogelu a/neu yn cael gwybod am ddeilliannau. Gwelsom dystiolaeth o hyn wrth adolygu ffeiliau.
- Roedd yr heddlu o'r farn y byddai mwy o gyswllt ar lefel uwch reolwyr o fudd i weithio amlasiantaeth o ran diogelu oedolion.

**Byrddau diogelu**

- Gallai agenda gwaith y grwpiau gweithrediadau lleol sicrhau bod pob mesur i egluro a gwella gweithio amlasiantaeth o ran diogelu'n cael blaenoriaeth.

**Arolygiad AGC o Wasanaethau Plant Hydref 2018 (cyhoeddwyd Adroddiad AGC ym mis Ionawr 2019)**

Mae gwasanaethau plant Cyngor Sir Powys wedi cyflawni rhai gwelliannau sylweddol mewn rhai meysydd, a rhywfaint o welliant mewn eraill. Ond mae meysydd ymarfer eraill yn parhau lle mae gennym bryderon difrifol.

*Meysydd i'w datblygu*

Mae'r adroddiad yn nodi nifer o feysydd y mae angen eu datblygu'n barhaus; y meysydd â blaenoriaeth y mae angen cymryd camau mewn perthynas â nhw yn ein barn ni yw:

- Sicrhau bod gweledigaeth strategol glir er mwy cyfeirio'r broses gynllunio cyffredinol a darparu gwasanaeth di-dor i blant a theuluoedd, gan ymgorffori cymorth cynnar effeithio a gwasanaethau cymorth i deuluoedd ochr yn ochr ag ymyriadau statudol.
- Ffocws cliriach ar wella cydberthnasau strategol â phartneriaid er mwyn ymgymryd â mwy o waith cydweithredol er budd plant a theuluoedd.
- Datblygu strategaeth gomisiynu ac ymarfer gwaith cymdeithasol er mwyn rhagweld anghenion llety plant, lleihau nifer y lleoliadau brys a galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd i gael mynediad at amrywiaeth ddigonol o lety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn agos at eu cartref yn fwy effeithiol. Lleihau nifer y plant a leolir heb ddarpariaeth addysgol y cytunwyd arni.
- Sicrhau bod y broses ddiogelu yn cynnwys trefniadau rhannu gwybodaeth amlasiantaeth cyn gynted â phosibl ar ôl yr atgyfeiriad er mwyn sicrhau ymarfer gwybodus a'r canlyniadau gorau i blant. Sicrhau bod ymateb amlasiantaeth uniongyrchol i ddiogelu plant sy'n wynebu risg y gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt.
- Sicrhau bod cwynion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr ac yn amserol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**Ymweliad monitro Gwasanaethau Oedolion AGC – Rhagfyr 2018**

Derbyniodd y cyngor ddarganfyddiadau AGC, a'u croesawu, ar ôl ymweliad ffurfiol i fonitro gwasanaethau oedolion, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Yn ystod yr ymweliad, archwiliodd yr arolygwyr ofal a chymorth mewn gwasanaethau oedolion, gan weld gwelliant ar y cyfan a dechrau newid diwylliannol tuag at welliant parhaus. Dywedodd yr arolygwyr eu bod wedi dod o hyd i enghreifftiau da a rhagorol o gynllunio gofal a chymorth a'u bod wedi siarad â staff ymroddedig iawn. Gwnaethant hefyd nodi meysydd yr oedd angen eu gwella, yn enwedig o fewn y ddarpariaeth gofal cartref, gan ddweud bod angen i'r cyngor wneud y gwasanaeth yn fwy cyson.

**Dysgu a Sgiliau:**
**Cynhadledd Wella Estyn Ebrill 2018**

Dewiswyd Powys i fod yn un o dri chyngor i gymryd rhan mewn rhoi gweithgarwch arolygu'r gynhadledd wella newydd ar brawf. Mae'r gwasanaeth ysgolion wedi gwneud llawer o waith i sicrhau ei fod yn ymateb i'r craffu sy'n digwydd yn y cyfarfodydd hyn yn ogystal ag argymhellion AEM. Datblygwyd Adroddiad Hunanwerthuso yn barod ar gyfer yr ail gynhadledd wella a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2018. Roedd y gynhadledd yn canolbwyntio ar:

- Gynlluniau'r cyngor ar gyfer mynd i'r afael â thangyflawni ymhlith disgyblion ysgol uwchradd, gan gynnwys yr ymateb i argymhellion y gynhadledd wella gyntaf
- Effeithiolrwydd cymorth ariannol canolog wrth oruchwylio cyllidebau ysgolion

Mae'r llythyr sy'n cofnodi deilliannau Estyn, a gyhoeddwyd ar ôl y gynhadledd wella yn mis Ebrill 2018, yn datgan:

Ceisiodd yr arolygwyr sicrwydd fod yr awdurdod:

- wedi cymryd camau priodol ers y gynhadledd wella gyntaf
- yn gwneud cynnydd addas wrth geisio sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr
- â chynlluniau cydlynol i barhau i fynd i'r afael â materion a godwyd yn y gynhadledd wella gyntaf, ac y bydd o bosibl angen diwygio'r cynlluniau hyn i ystyried amgylchiadau newidiol
- ag adnoddau digonol i roi ei gynlluniau ar waith
- â phrosesau cadarn ar waith i fonitro gwaith gweithredu ei gynlluniau ac i werthuso'r effaith

**Cynlluniau'r awdurdod i fynd i'r afael â thanberfformio ymhlith disgyblion oedran uwchradd**

> *"Mae Estyn dal yn sicr fod yr awdurdod lleol yn deall y rhesymau y tu ôl i berfformiad cymharol wan ei ysgolion uwchradd dros y blynyddoedd diweddar. Nodwyd yn lleol bod angen cymorth sylweddol ar ddwy ran o dair o ysgolion uwchradd ym Mhowys, a'u bod mewn categori ambr neu goch. Er bod cynnydd wedi bod yn araf a'r awdurdod lleol wedi cydnabod bod ei waith monitro ysgolion heb fod yn ddigon trwyadl, mae'r awdurdod yn cryfhau ei waith i geisio cyflymu'r broses o wella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys staff newydd i gefnogi gwaith gwella ysgolion, dull mwy cadarn o fynd ati i herio, cefnogi a monitro ysgolion sy'n achosi pryder a threfniadau tynnach i reoli perfformiad.*
>
> *Mae pedair o'r ysgolion uwchradd wedi penodi pennaeth newydd ers y gynhadledd gyntaf, ac mae'r awdurdod wedi sicrhau bod cymorth ar gael i'r penaethiaid newydd hyn, er nad oes modd gwerthuso hyn fel rhan o'r broses gynadleddol. Dim ond dwy ysgol uwchradd sydd ag arweinwyr canol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr canol trwy ERW, ac mae'r nifer isel sy'n manteisio ar hyn yn fater o bryder. Rydw i'n argymell bod yr awdurdod yn gweithio gydag ERW i sicrhau bod arweinwyr canol mewn ysgolion eraill yn dilyn rhaglen dysgu proffesiynol sy'n briodol i ddiwallu eu hanghenion ac i gryfhau ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion lle bo hyn yn faes i'w wella."*

**Effeithiolrwydd cymorth ariannol canolog wrth oruchwylio cyllidebau ysgolion**

> *"Mae'r awdurdod lleol yn gwybod bod ei sefyllfa gyllidol bresennol yn annerbyniol ac mae'n deall yn dda y rhesymau sydd wedi achosi hyn. Mae gan yr awdurdod ddata ariannol manwl ar sefyllfa pob ysgol yn ogystal â'i feysydd gwasanaeth mewnol. Mae arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr yn ogystal ag uwch swyddogion ac aelodau etholedig oll yn ymwybodol o'r wybodaeth ariannol*

*berthnasol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r awdurdod wedi cyhoeddi hysbysiad rhybuddio i chwe ysgol uwchradd a dwy ysgol gynradd, yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ysgolion hyn gymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'u cyllidebau diffygiol. Mae'r awdurdod lleol yn ddiweddar wedi sicrhau bod Ysgol Uwchradd Aberhonddu, sydd â diffyg difrifol iawn, wedi cytuno ar gynllun i fynd i'r afael â'u cyllideb. Nodaf, o ganlyniad, nad yw'r awdurdod lleol wedi defnyddio'i bŵer i atal hawl y corff llywodraethu i gyllideb ddirprwyedig."*

Ni ofynnwyd am unrhyw welliannau ychwanegol, ond mae yna orchymyn clir bellach i barhau ar y siwrnai wella y mae'r gwasanaeth wedi dechrau arni ac i ddangos tystiolaeth glir o effaith. Dechreuodd cylch newydd o arolygiadau gwasanaethau addysg llywodraeth leol ym mis Medi 2018.

**Swyddfa Archwilio Cymru - Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Gwella'r Seilwaith Ysgolion'**

- Daeth ein harchwiliad i'r casgliad bod: Y Cyngor wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod 'cam' Gwella'r Seilwaith Ysgolion a'i fod yn ystyried y pum dull o weithio yn y pethau y mae'n eu gwneud i'w gyflawni.
- Y Cyngor wedi ystyried sut y bydd y cam yn datrys problemau allweddol fel cyflwr adeiladau, cyllidebau ysgol diffygiol, cynnig gwael i fyfyrwyr o ran chweched dosbarth a darpariaeth cyfrwng Cymraeg gyfyngedig, cydnabod problem lleoedd dros ben, ond mae angen i'r Cyngor fod yn gliriach ynglŷn â sut y bydd y cam yn atal y broblem hon rhag gwaethygu.

GID **Gwneud iddo ddigwydd:**

**Trosolwg a chraffu – addas i'r dyfodol? Swyddfa Archwilio Cymru**


- C1 Nodi'n glir yn yr adroddiadau i'r pwyllgor trosolwg a'r pwyllgor craffu pam mae'r pwyllgor yn cael y wybodaeth a sut mae hyn yn ymwneud â rôl y pwyllgor craffu.
- C2 Darparu mwy o hyfforddiant yn benodol i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pwyllgor trosolwg a'r pwyllgor craffu er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl yn fwy effeithiol.
- C3 Gwneud trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant pellach i aelodau'r pwyllgor craffu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn helpu i ymgorffori ystyriaethau'r ddeddf honno ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.
- C4 Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn prosesau trosolwg a chraffu.
- C5 Egluro'r trefniadau i gyfleu barn y pwyllgor trosolwg a'r pwyllgor craffu i'r Cabinet ac i'r Cabinet ymateb i argymhellion wneir.
- C6 Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu effeithiolrwydd ac effaith prosesau trosolwg a chraffu.

**Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o Raglen Trawsnewid ac Arbedion Effeithlonrwydd CSP (Hydref 2018)**

- Mae angen cynyddu graddau'r newid o wella gwasanaeth i newid trawsnewidiol mwy
- Mae angen mynd i'r afael â hanes y sefydliad o fethu targedau arbedion
- Mae angen mynd i'r afael â bylchau mewn cynlluniau arbedion wrth symud ymlaen
- Mae angen sefydlu deilliannau clir ar gyfer pob agwedd ar y rhaglen drawsnewid
- Mae angen sicrhau eich bod yn defnyddio'r mesurau perfformiad iawn i helpu i hyrwyddo'r trawsnewid

### 3.4 Trefniadau llywodraethu

Yn unol â chymeradwyaeth o’r ddogfen Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol ym mis Ebrill 2018, rhoddwyd strwythur llywodraethu ar waith i fwrw ymlaen i’w chyflawni. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o Fyrddau Rhaglenni a oedd yn gyfrifol am gyflawni’r nodau llesiant. Yn ystod haf 2018, daeth yn amlwg bod y strwythur llywodraethu hwn yn creu dyblygiad ac nad oedd yna unrhyw linellau atebolrwydd eglur. Felly gwnaethom ddiffinio a symleiddio ein dull o gyflawni Gweledigaeth 2025 er mwyn sicrhau gwell atebolrwydd a ffocws mwy ar ganlyniadau. Bellach mae yna un Rhaglen Drawsnewid sy’n canolbwyntio ar brosiectau trawsnewidiol sylweddol y mae angen i fwy nag un gwasanaeth eu cyflawni. Mae gwaith arall gwella gwasanaethau a fydd yn ein helpu i gyflawni Gweledigaeth 2025 nawr yn cael ei reoli a’i lywodraethu ar wahân ar lefel gwasanaeth, gyda Phenaethiaid y Gwasanaethau Unigol yn gweithredu fel y swyddogion sy’n atebol.




**Cabinet:**
Mae’r Cabinet yn derbyn trosolwg o wybodaeth am berfformiad bob chwarter i roi sicrwydd bod Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol yn cael ei gyflawni. Mae hefyd yn darparu penderfyniadau Strategol i reoli cyflawni deilliannau cytunedig.
.

**Tîm Rheoli Gweithredol / Tîm Uwch Arweinwyr:**
Dyma’r uwch dimau o fewn y cyngor sy’n atebol am werthuso a herio perfformiad wrth gyflawni ei ddeilliannau strategol.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (BGC):**
Dyma'r corff partneriaeth statudol sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r BGC yn gyfrifol am ddatblygu cynllun llesiant ar gyfer Powys mewn ymateb i'r asesiad llesiant.

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:**
Y bartneriaeth statudol sy'n ofynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 â rôl i reoli a datblygu gwasanaethau er mwyn sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, ac er mwyn sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth effeithiol ar gael i ddiwallu anghenion eu poblogaeth eu hunain orau.

**Bwrdd Cyflawni Trawsnewid:**
Bydd y bwrdd hwn yn rheoli gwaith cyflawni prosiectau trawsbynciol o fewn Gweledigaeth 2025 er mwyn sicrhau bod y deilliannau a nodwyd yn cael eu gwireddu.


**Adolygiadau Perfformiad Chwarterol o Wasanaethau:**
Mae Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth a Deiliaid Portffolio'n gwerthuso perfformiad a sicrwydd ansawdd yn erbyn safonau ac amcanion cytunedig i wneud yn siŵr bod gweithgareddau a gwaith gwella perfformiad ar y trywydd iawn.




## 3.5 Cymharu ein perfformiad â pherfformiad Cynghorau eraill yng Nghymru

Yn ogystal â monitro perfformiad yn erbyn y gweithgareddau a'r a mesurau llwyddiant yn ein Cynllun Gwella Corfforaethol, mae yna gyfres o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol y mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ni eu monitro ac adrodd arnynt i'r cyhoedd. Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yw'r enw ar y rhain. Gyda'r rhain gallwn gymharu ein perfformiad â'r 21 o gynghorau eraill ledled Cymru o ran darparu gwasanaethau statudol allweddol. Yn ystod 2018-19, bu'r cyngor yn monitro'i gynnydd yn erbyn 35 o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus. Bydd gwybodaeth gymharol ar gyfer Cymru gyfan ar gael ddiwedd yr haf 2019.

## Atodiad A



**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
Saith nod Llesiant:




**Cymru lewyrchus**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.




**Cymru gydnerth**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.




**Cymru iachach**
**C**ymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.




**Cymru sy'n fwy cyfartal**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).




**Cymru o gymunedau cydlynus**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.




**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.




**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** - Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## 5 Dull o Weithio




(seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015):
**Hirdymor:** Yn pwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i ddiwallu anghenion tymor hir
**Atal:** Defnyddio adnoddau er mwyn atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu
**Integreiddio (trawsbynciol):** Ystyried sut gall ein blaenoriaethau effeithio ar ei gilydd, ar y nodau llesiant, ac ar flaenoriaethau cyrff cyhoeddus eraill
**Cydweithredu:** Cydweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni ein blaenoriaethau
**Cyfraniad (cyfathrebu ac ymgysylltu):** Cynnwys pawb sydd â diddordeb mewn gwireddu'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal

## Y Diogelwr Taith –Ble ydym ni nawr?




- **'Gwneud newidiadau syml'** - dylid gallu gwneud y rhain yn gyflym ac yn rhwydd. Maent yn aml yn gamau sy'n hawdd eu cyflawni, sydd wedi'u rhoi ar brawf gan eraill ac nad ydynt yn debygol o fethu. Maent yn rhoi pobl ar waith ac yn eu cynnwys, gan alinio agendâu gwahanol adrannau. Lansiodd y Comisiynydd rai enghreifftiau'n ddiweddar o'r 'newidiadau syml' y mae rhai cyrff cyhoeddus eisoes yn eu gwneud wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant a sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant cenedlaethol: https://futuregenerations.wales/the-art-of-the-possible/

- **‘Bod yn fwy mentrus’ -** mae hyn yn galw am symud i ffwrdd o’r meddylfryd ‘busnes fel arfer’ a gweithredu i newid y ffordd o wneud pethau ar hyn o bryd. Gan fod yn arwydd o gynnydd cynnar i newid ehangach, galli hyn alw am newid strategaeth neu ddull tîm o fynd ati i wneud rhywbeth, a gallai gynnwys mwy o adrannau a sefydliadau na 'newid syml'.
- **‘Bod yn berchen ar ein huchelgais’ -** gall hyn fod yn gam tebyg i ‘bod yn fwy mentrus’ gyda mentrau’n datblygu a mwy o bobl yn dod i chwarae rhan. Bydd y sefydliad yn cymryd mwy o risgiau a reolir yn dda, gan annog sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio o ran ariannu neu staffio. Mae’r sefydliad yn diffinio’i ddull o weithredu fel dull uchelgeisiol ac mae staff yn teimlo wedi’u grymuso i weithio ar draws sectorau a dylanwadu ar newid.
- Gallai’r rheini sy’n **‘Arwain y ffordd’** fod y bobl neu’r sefydliad cyntaf sy’n cymryd y camau hyn ac maent yn torri cwys newydd i eraill ddilyn. Newid systemig, trawsnewidiol yw hwn i’r ffordd y mae pethau wastad wedi’u gwneud a bydd yn galw am ailddyrannu adnoddau, amser i roi’r newidiadau ar waith a chydweithio â chyrff eraill. Mae camau gweithredu’n arloesol, yn ysbrydoledig ac yn gydweithredol, gan roi’r Ddeddf ar waith ar draws portffolios mwy i gyflawni’r Gymru rydym eisiau ei chael. Daw’r dull hwn o weithio i fod wedi ymwreiddio yn y sefydliad a rhennir arfer da ag eraill.

## Diffiniadau o statws GCAG (Glas, Coch, Ambr a Gwyrdd)

### Cyflawni yn erbyn gweithgareddau

| | |
|---|---|
| G | **Glas** Gweithredu wedi’i gwblhau |
| C | **Coch** Gweithredu ddim ar y trywydd iawn gyda phroblemau mawr |
| A | **Ambr** Gweithredu ar y trywydd iawn ar y cyfan, gyda rhai mân broblemau |
| G | **Gwyrdd** Gweithredu ar y trywydd iawn |

### Perfformiad mesurau

| | |
|---|---|
| C | **Coch** Perfformiad yn methu’r targed |
| A | **Ambr** Perfformiad yn methu’r targed ond gydag amrywiant o 10% |
| G | **Gwyrdd** Perfformiad yn cyrraedd y targed |
| | Dim data wedi’u cyflenwi |







